# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023-2024

## CDLl Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

PENNOD 1 1

CRYNODEB GWEITHREDOL 1

**Cefndir** **1**

**Canlyniadau Allweddol** **2**
Canfyddiadau Allweddol 2

**Newidiadau Cyd-destunol** **4**
Y Cyd-destun Rhanbarthol 6
Y Cyd-destun Lleol 6

**Canllawiau Cynllunio Atodol** **7**

**Gorchmynion Datblygu Lleol** **7**

**Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd** **7**

**Casgliadau ac Argymhellion** **8**

PENNOD 2 0

RHAGARWEINIAD 0
Cefndir 0

**Adroddiad Adolygu'r CDLl** **0**

**Gofyniad i Fonitro'r CDLl** **1**

**Cynnwys a Strwythur** **2**

**Fframwaith monitro'r CDLl** **3**

**Gwybodaeth Gyd-destunol** **5**

**2 Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi Cenedlaethol** **6**
Deddf Cymru (2017) 6
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 7
Y Bil Cydgrynhoi Cynllunio 7
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021 8
Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 8
Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) 9
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 10
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 11
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 12
Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12 14
Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 15
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 16
Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol 17
Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr 18

**Cyd-destun Polisi Rhanbarthol** **19**
Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru 19
Dinas-ranbarth Bae Abertawe 20
Bargen Ddinesig 20

**Y Cyd-destun Lleol** **22**
Cyngor Sir Caerfyrddin - Amcanion Llesiant 22
Asesiad Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin 22
Datblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais – Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022 – 2027 23
Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen 23
Carbon Sero Net erbyn 2030 24
Canllawiau Ffosffad CNC Rhifyn 3 - Materion Ansawdd Dŵr 25

**Crynodeb** **26**

**Cyd-destun Sir Gaerfyrddin** **27**
Dylanwadau Gofodol 27

PENNOD 4 97

**Arfarniad Cynaliadwyedd / Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol** **97**
Methodoleg 97

ATODIAD 1 – DADANSODDIAD CYSONDEB AMCANION/NODAU LLESIANT 108

**A1. Trosolwg** **108**

**A2. Gweledigaeth y CDLl** **109**

**A3. Amcanion Strategol y CDLl** **109**

**A4. Y Nodau Llesiant Cenedlaethol** **110**

**A5. Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin** **114**

ATODIAD 2: TAFLWYBR TAI 116

# Pennod 1

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

1.1 O dan adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro sut mae eu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig yn cael ei weithredu drwy baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

1.2 Hwn yw'r wythfed AMB ers i'r Cyngor fabwysiadu CDLl Sir Gaerfyrddin yn ffurfiol ar 10 Rhagfyr 2014. Mae'r AMB hwn yn cynrychioli'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 ac mae'n ofynnol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2024.

1.3 Mae'r AMB hwn yn cyflwyno dadansoddiad manwl o'r modd y mae'r Cynllun mabwysiedig presennol yn parhau i weithio, o'i gyd-destun strategol, ei berfformiad yn erbyn amcanion strategol, a ph'un a yw'r polisïau unigol yn cyflawni eu canlyniadau disgwyliedig. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cymharu perfformiad targedau polisi yn erbyn y rheiny o flynyddoedd blaenorol. Bydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr AMB hwn yn parhau i gael ei defnyddio i lywio polisïau'r dyfodol a bydd yn cyfrannu at y sylfaen wybodaeth ar gyfer CDLl Diwygiedig 2018 – 2033.

1.4 Yn dilyn cyhoeddi'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol ystyriwyd bod angen cynnal adolygiad o'r CDLl mabwysiedig presennol. Roedd yr Adroddiad Adolygu'n ystyried ac yn nodi'r meysydd hynny o'r CDLl sy'n perfformio'n dda ac yn cyflawni, a'r meysydd hynny lle byddai angen gwneud newidiadau. Wrth wneud hynny, daeth i'r casgliad y dylid paratoi CDLl Diwygiedig trwy broses adolygu lawn[1]. Cafodd yr Adroddiad Adolygu ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 10 Chwefror 2018.

1.5 Mae'r Awdurdod Lleol bellach wedi mynd cryn dipyn o'r ffordd tuag at baratoi CDLl Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys ymgymryd ag ymgysylltu â'r gymuned a gweithio mewn partneriaeth - yn ogystal â

---

[1] Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – Adroddiad Adolygu (Chwefror 2018): https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1213043/ldp-review-report-welsh-version.pdf

chynhyrchu fframwaith tystiolaeth wedi'i ddiweddaru. Arweiniodd y gwaith parhaus hwn at gyhoeddi’r Strategaeth a Ffefrir er mwyn ymgynghori yn ei chylch ym mis Rhagfyr 2018. Cyhoeddwyd y CDLl Diwygiedig Adneuol [Cyntaf] er mwyn ymgynghori yn ei gylch rhwng 29 Ionawr 2020 a 27 Mawrth 2020. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach dros 3 wythnos o'r CDLl Diwygiedig Adneuol rhwng 11 Medi a 2 Hydref 2020.

1.6 Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi canllawiau dros dro gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar effeithiau llygredd ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol a warchodir, effeithiwyd ymhellach ar gynnydd y CDLl Diwygiedig tuag at ei fabwysiadu. Yn hyn o beth cyflwynwyd adroddiad i’r Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2022 i ystyried ymhellach yr effeithiau sy’n deillio o’r canllawiau hyn a’r camau nesaf posibl. Yn y cyfarfod hwn penderfynwyd paratoi ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo ac Adolygu’r Cytundeb Cyflawni yn unol â hynny. Cyhoeddwyd yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Chwefror a 14 Ebrill 2023.

1.7 Cafodd y CDLl Diwygiedig, ynghyd â’r gyfres o ddogfennau cyflwyno a’r sylwadau a dderbyniwyd i’r 2il Gynllun Adneuo, eu cyflwyno wedi hynny i Lywodraeth Cymru i’w harchwilio ar 10 Mehefin 2024.

## Canlyniadau Allweddol

### Canfyddiadau Allweddol

1.8 Mae Pennod 3 yr AMB hwn yn ystyried sut mae polisïau strategol a chyffredinol y CDLl mabwysiedig yn perfformio yn erbyn y targedau monitro allweddol penodol, a’r modd y mae ei strategaeth a’i amcanion yn cael eu cyflawni. Cyflwynir trosolwg o’r canfyddiadau allweddol isod: Cyflwynir trosolwg o’r canfyddiadau allweddol isod:

- Cwblhawyd cyfanswm o 329 o gartrefi newydd ar draws y cyfnod monitro, 270 o gartrefi newydd ar safleoedd mawr (>5 annedd), ac 59 ar safleoedd bach (<5 annedd).
- Yn ystod 2023/24, caniatawyd 89.8% o'r holl ddatblygiadau tai ar safleoedd dyranedig. Mae hyn yn cymharu â 96.1% yn ystod 2022/23.

- Roedd yr achosion hyn o ganiatâd cynllunio wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:
  Ardaloedd Twf: – 62.2%
  Canolfannau Gwasanaeth: – 13.4%
  Canolfannau Gwasanaethau Lleol: – 4.5%,
  Cymunedau Cynaliadwy: – 19.9%.
- Nid yw caniatâd cynllunio ar hap-safleoedd (safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu o fewn y Cynllun) wedi dilyn patrwm penodol, gyda 187 o anheddau'n cael eu caniatáu (yn cynnwys 63 ar safleoedd mawr, a 124 ar safleoedd bach).
- Mewn perthynas â thai fforddiadwy, caniatawyd 186.6 o unedau, mae hyn o gymharu â'r 107.4 o unedau yn ystod cyfnod AMB 2022/23.
- Mae'r safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd o fewn y Cynllun sydd â chaniatâd cynllunio wedi aros ar 33.76ha yn ystod cyfnod yr AMB hwn.
- Yn aros am ddata. Mae cyfraddau'r unedau gwag o fewn y prif Ffryntiadau Adwerthu a nodwyd fel a ganlyn:
  - Caerfyrddin - 15%
  - Llanelli - 31%
  - Rhydaman - 12%
- Mae Gorchmynion Datblygu Lleol ar waith ar gyfer Canol Trefi Rhydaman a Chaerfyrddin. Mae’r rhain yn adlewyrchu’r ffocws ar adfywio canol trefi a’r angen i ymateb yn gadarnhaol newidiadau mewn patrymau siopa a’r heriau ar draws ein strydoedd mawr. Mae rhagor o wybodaeth am ein Gorchmynion Datblygu Lleol ar gyfer Canol Trefi ar gael ar wefan bwrpasol y Gorchymyn Datblygu Lleol.
- Yr Iaith Gymraeg – Mae'r CDLl yn parhau i ddatblygu mewn modd sy'n gyson â'i bolisi Iaith Gymraeg, gan gefnogi datblygu ar raddfa addas i gynnal dyfodol y Gymraeg. Mae un cais wedi'i gymeradwyo mewn ardal ieithyddol sensitif heb fesurau lliniaru wedi’u sicrhau fel rhan o’r caniatâd; fodd bynnag, ystyrir bod hyn dderbyniol gan fod y cynnig ar gyfer cynllun fforddiadwy, er nad yw hyn wedi’i sicrhau trwy’r caniatâd cynllunio (darllener isod am fanylion pellach). Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i hyrwyddo ac annog hysbysebion dwyieithog ledled y Sir, gan hyrwyddo'r rôl bwysig y mae'r Gymraeg yn ei chwarae yng nghymunedau Sir Gaerfyrddin.

- ACA Caeau Mynydd Mawr – Mae cyfanswm arwynebedd y safle wedi gostwng i 81.67ha o 82.53ha. Mae nodau cadwraeth prosiect Caeau Mynydd Mawr yn parhau i fod yn hollbwysig. Mae'r nod craidd—diogelu poblogaeth glöyn byw’r Britheg Berlog a’i gynefin—yn parhau i gael ei roi yn flaenoriaeth. Hyd yn oed heb gaffael tir newydd, mae’r prosiect yn canolbwyntio ar reoli safleoedd presennol yn effeithiol, gan sicrhau bod cynefinoedd presennol yn cael eu cadw mewn cyflwr gorau posibl i gynnal y rhywogaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro parhaus, cynnal a chadw, ac adfer cynefin lle bo angen i wella addasrwydd ar gyfer y rhywogaeth. Caniatawyd un caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau 'agored iawn i niwed' o fewn y parthau llifogydd C1 neu C2 fel y'u nodwyd ar Fapiau Cyngor Datblygu (TAN15) lle'r oedd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a gwres sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 0.152 MW, a
- Mae data mwynau'n dangos bod y banc tir presennol o greigiau caled ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 77 mlynedd o leiaf. Mae'r dosraniadau a'r dyraniadau ar gyfer tywod a graean tir yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cyfuno â Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Cheredigion. Mae'r banc tir cyfun yn gyflenwad 15 mlynedd o leiaf.

## Newidiadau Cyd-destunol

1.9 Wrth asesu perfformiad y CDLl, rhaid i’r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLl.

1.10 Ystyrir y dogfennau a’r cyhoeddiadau allweddol canlynol:

- Deddf Cymru (2017)
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Y Bil Cydgrynhoi Cynllunio
- Bil Seilwaith (Cymru)
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021
- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040

- Cynlluniau Datblygu Strategol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
- Yr Adolygiad Ffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth
- Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Perygl o Lifogydd
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: Ansawdd Aer, Sŵn a Seinwedd
- Nodyn Cyngor Technegol 19 – Telathrebu
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol
- Deddfwriaeth gynllunio a pholisi ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr
- Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru
- Cyngor Sir Caerfyrddin - Amcanion Llesiant
- Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin Datblygu Sir Gaerfyrddin Gyda'n Gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais – Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022 – 2027
- Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen
- Carbon Sero Net erbyn 2030
- Canllawiau Ffosffad CNC Rhifyn 3 - Materion Ansawdd Dŵr

1.11 Er bod rhai o'r newidiadau hyn a nodwyd yn ddwys o ran cyfeiriad yn y dyfodol i gynllunio ar lefel genedlaethol, dim ond cynnwys Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) sydd ag effaith uniongyrchol nodedig ar weithredu'r CDLl mabwysiedig yn awr ac yn y dyfodol. Mae goblygiadau'r naill a'r llall hefyd wedi cael eu hystyried trwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig 2018 – 2033.

1.12 Mae gwaith ar sail tystiolaeth ar dwf poblogaeth ac aelwydydd a thwf economaidd wedi chwarae rhan sylfaenol wrth lywio cynnwys y CDLl, a bydd yn cefnogi gofynion twf ardal y Cynllun yn y dyfodol.

1.13 Mae cyhoeddi Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040 wedi'i nodi, ac mae ei gynnwys a'i ddarpariaethau wedi'u hystyried wrth i'r CDLl Diwygiedig 2018 - 2033 fynd rhagddo drwy'r broses o gael ei baratoi.

## Y Cyd-destun Rhanbarthol

1.14 Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe sydd hefyd yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Sir Benfro, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Wrth ddod â busnesau, Llywodraeth Leol ac ystod o bartneriaid eraill ynghyd, mae'r Ddinas-ranbarth wedi cyhoeddi Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe 2013–2030. Bydd rôl y CDLl yn arwain a chefnogi dyheadau'r Ddinas-ranbarth yn ganolog i'w lwyddiant a byddwn yn monitro ei gynnydd parhaus.

1.15 Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd werth £1.3 biliwn, ym mis Mawrth 2017. Bydd y fargen yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol ac yn cynhyrchu bron i 10,000 o swyddi newydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Cyfeirir at 11 o brosiectau mawr yn gyffredinol, gyda'r prosiectau penodol canlynol wedi'u cynnig ar gyfer Sir Gaerfyrddin:

- Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn Llanelli; a
- Prosiect diwydiant creadigol yn yr Egin, Caerfyrddin.

1.16 Roedd llofnodi'r Fargen Ddinesig yn garreg filltir arwyddocaol yn y rhanbarth o ran ei manteision economaidd a'i chyfleoedd i greu swyddi. O ran defnydd tir, mae'r CDLl yn darparu fframwaith positif a rhagweithiol i hwyluso hyn ac mae mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fargen Ddinesig.

## Y Cyd-destun Lleol

1.17 Roedd yna gytgord clir rhwng y CDLl a'r Strategaeth Gymunedol Integredig gynt ac mae hyn i'w weld yn yr ymrwymiad i Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, ac mae'r CDLl mabwysiedig yn darparu mynegiant defnydd tir i'r amcan hwn. Mae hyn yn parhau i fod yn wir yn achos Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: y Sir Gâr a Garem 2018-2023 –

bydd yr amcanion a'r cysylltiadau parhaus hyn yn cael eu gwreiddio ymhellach wrth i ni symud trwy'r broses o baratoi CDLl Diwygiedig 2018 – 2033.

1.18 Yn ôl gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rhaid i'r Cyngor fel corff sy'n cynrychioli'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi Cynllun Llesiant. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin: y Sir Gâr a Garem 2018-2023 ym mis Mai 2018, a bydd yn cael ei fonitro i sicrhau fod ei ddiben a'i gynnwys yn gyson â'r CDLl. Yn hyn o beth caiff yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol ac Amcanion Llesiant y Cyngor eu hystyried a'u trafod fel rhan o ddadansoddiad o'u cydnawsedd ag amcanion y CDLl. I'r perwyl hwn, cyfeirir at Atodiad 1 yr Adroddiad. Cyfeirir hefyd at gynnwys Adroddiad Adolygu'r CDLl.

1.19 I grynhoi, bydd y newidiadau cyd-destunol perthnasol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig 2018 – 2033.

## Canllawiau Cynllunio Atodol

1.20 Mae nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) wedi cael eu cyhoeddi sy'n cefnogi ac yn ymhelaethu ar ddehongliad a gweithredu'r CDLl a'i bolisïau a'i ddarpariaethau. Dylid cyfeirio at Bennod 2 yr AMB hwn. Bydd y gwaith o baratoi a mabwysiadu'r CCA yn parhau lle mae angen. Rhoddir ystyriaeth i ofynion y dyfodol gyda golwg ar y CCA sy'n deillio o gynnwys y CDLl Diwygiedig 2018 – 2033.

## Gorchmynion Datblygu Lleol

1.21 Fel rhan o adferiad y Cyngor yn sgil Covid ac i adlewyrchu'r effeithiau ar ganol ein trefi, paratowyd dau Orchymyn Datblygu Lleol mewn perthynas â Chanol Trefi Rhydaman a Chaerfyrddin. Mae'r ddau Orchymyn Datblygu Lleol wedi'u mabwysiadu ac yn weithredol.

## Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd

1.22 Mae'n ofynnol yn ôl y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol bod awdurdodau lleol yn cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol fel rhan o baratoi'r CDLl. Yn ychwanegol at hyn, mae'n ofynnol cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd o dan Reoliadau'r CDLl.

1.23 Ymysg rhai o’r allbynnau diriaethol i godi o’r adolygiad roedd y cadarnhad bod tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) ar wahân wedi’u dynodi, sef Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli.

1.24 Er nad oes un o’r dangosyddion wedi cael ei ddileu, dylid nodi bod y golofn sylwebaeth yn ei gwneud yn glir lle nad oes gwybodaeth ar gael a/neu fod gwybodaeth berthnasol. Mewn rhai achosion nid oes gwybodaeth ar gael (neu’n berthnasol) mwyach; mewn achosion eraill nid yw’r data sydd ar gael yn ddigon manwl i alluogi’r monitro i fod yn ddefnyddiol. Bydd cyfleoedd i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn yr is-adran Polisi Corfforaethol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod i ddatblygu adolygiad integredig o’r llinell sylfaen gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol – bydd dull o’r fath hefyd yn llywio’r hyn yr ydym yn ei fonitro fel rhan o’r CDLl Diwygiedig.

## Casgliadau ac Argymhellion

1.25 Yr AMB hwn yw'r wythfed adroddiad monitro yn dilyn mabwysiadu’r CDLl ym mis Rhagfyr 2014. Mae canfyddiadau’r AMB yn darparu cyfle pwysig i’r Cyngor barhau i asesu effeithiolrwydd y Cynllun. Wrth wneud hynny, mae'n hanfodol cydnabod bod yr adroddiad hwn yn dilyn dechrau paratoi CDLl Diwygiedig 2018 - 2033.

1.26 Mae llunio AMBau yn parhau i fod yn berthnasol, yn enwedig wrth gasglu tystiolaeth sy’n ategu’r broses o baratoi’r CDLl Diwygiedig.

1.27 Er gwaethaf barnu bod cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu llawer o bolisïau ac amcanion y Cynllun a fabwysiadwyd, mae yna elfennau a rhannau ohono nad ydynt yn cael eu cyflawni yn ôl y bwriad. O ganlyniad, bydd rhaid rhoi cryn ystyriaeth i'r angen i ymateb i'r newidiadau sy'n deillio o strategaethau a chynlluniau yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd materion o'r fath yn cael eu hystyried yn briodol ac yn cael eu cynnwys lle bônt yn berthnasol fel rhan o'r CDLl Diwygiedig.

# Pennod 2

# Rhagarweiniad

**Cefndir**

2.1 Mae darpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal weinyddol. Cafodd y CDLl ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 10 Rhagfyr 2014 ac mae'n nodi polisïau a chynigion yr Awdurdod o ran datblygu a defnyddio tir yn y dyfodol. Disodlodd y CDLl y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) blaenorol a chaiff ei ddefnyddio i arwain a rheoli datblygiadau. Y CDLl sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer penderfyniadau cyson a rhesymol, a llywio cyfleoedd y dyfodol ar gyfer buddsoddiad a thwf. Mae ei bolisïau a'i gynigion yn cynnwys dyraniadau defnydd tir ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad (h.y., tai, cyflogaeth, adwerthu, addysg, mannau agored ac ati) yn ogystal â meini prawf ar gyfer asesu cynigion unigol. Mae'r Cynllun yn cael effaith uniongyrchol ar fywyd pob un sy'n byw yn y Sir ac mae iddo hefyd oblygiadau mawr i raglenni buddsoddi, strategaethau a chynlluniau eraill, cymunedau a pherchenogion tir. Yn hyn o beth, mae'n rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch pa fath o ddatblygiad fydd yn cael ei ganiatáu, neu ei wrthod, mewn lleoliadau penodol yn ystod cyfnod y Cynllun. Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhan o'r Sir sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; yno, dylid cysylltu ag Awdurdod y Parc ynglŷn â'r cynllun datblygu a'r cynigion datblygu yn yr ardal honno.

## Adroddiad Adolygu'r CDLl

2.2 Yn dilyn canfyddiadau ac argymhellion yr ail AMB (2016/2017), penderfynwyd paratoi Adroddiad Adolygu ar y CDLl ac ystyried y materion sy'n codi mewn perthynas â chyflwyno a gweithredu'r Cynllun. Wrth baratoi Adroddiad Adolygu'r CDLl, daeth yn amlwg y byddai rhaid cynnal proses adolygu lawn er mwyn mynd i'r afael â maint a goblygiadau'r materion y tynnwyd sylw atynt.

2.3 Yn ogystal, pedair mlynedd o hyd oes y CDLl mabwysiedig oedd ar ôl, a thynnodd yr adolygiad sylw at yr angen i ddechrau ar gynllun diwygiedig i ddisodli'r CDLl

presennol cyn iddo ddod i ben ar ddiwedd 2021. *Noder: mae canllawiau dilynol gan Lywodraeth Cymru yn nodi, yn rhinwedd ei fabwysiadu yn 2014, nad yw'r gofyniad cyfnod penodol ar gyfer CDLlau yn berthnasol mewn perthynas â Chynllun Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad, mae'r Cynllun Mabwysiedig presennol yn parhau mewn bodolaeth nes ei fod yn cael ei ddisodli gan y CDLl Diwygiedig.*

2.4 Yng ngoleuni'r materion hyn, penderfynwyd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 10 Ionawr 2018 i fwrw ymlaen yn ffurfiol â'r gwaith o baratoi CDLl Diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

2.5 Bydd cynnwys Adroddiad Adolygu'r CDLl, a chanfyddiadau'r chwe AMB yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth wrth dywys a llywio ei gynnwys ac unrhyw ofynion tystiolaethol a ddaw i'r amlwg.

## Gofyniad i Fonitro'r CDLl

2.6 Mae'n ofynnol yn ôl **Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004** (Y Ddeddf) i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar ei CDLl ar ôl ei fabwysiadu, a chadw llygad yn rheolaidd ar bob mater y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Hefyd, o dan adran 76 o'r Ddeddf, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynhyrchu gwybodaeth am y materion hyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) ac i'w gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Mae paratoi AMB yn elfen annatod felly o broses statudol y cynllun datblygu.

2.7 Mae'n ofynnol yn ôl Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 fod AMB yn nodi unrhyw bolisïau sydd wedi'u pennu nad ydynt yn cael eu gweithredu.

2.8 Lle caiff polisi o'r fath ei nodi, rhaid i'r AMB gynnwys datganiad sy'n nodi:

- y rhesymau pam nad yw'r polisi'n cael ei weithredu;
- y camau (os oes rhai) y bwriedir eu cymryd fel bod modd gweithredu'r polisi; a
- a oes angen diwygio'r cynllun i ddisodli neu newid y polisi.

2.9 Mae angen i'r AMB nodi nifer (os oes rhai) yr anheddau fforddiadwy ac anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol net a godwyd yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

## Cynnwys a Strwythur

2.10 Yr AMB yw'r brif ffordd o fesur sut mae polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu a pha mor llwyddiannus ydynt, a bydd yn adrodd ar faterion sy'n effeithio ar amcanion y Cynllun. Bydd yr AMB hefyd yn dadansoddi effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun, ac a ydynt yn dal yn berthnasol, yng ngoleuni newidiadau mewn polisi cenedlaethol a newidiadau cyd-destunol. Gallai canfyddiadau'r AMB arwain at newidiadau i bolisïau er mwyn gwella'u heffeithiolrwydd a gallent arwain at adolygu rhan o'r Cynllun, neu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

2.11 Mae monitro'n rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisïau, gweithredu polisïau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Drwy gyhoeddi'r AMB, mae'r monitro hefyd yn helpu i wella tryloywder y broses gynllunio, ac mae'n ffordd o roi gwybod i randdeiliaid, y gymuned a grwpiau busnes am faterion sy'n ymwneud â'r cynllun datblygu.

2.12 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu - Argraffiad 3 (2020) yn ategu'r gofynion uchod ar gyfer monitro.

2.13 Nid yw'n realistig nac yn angenrheidiol monitro holl bolisïau'r CDLl gan y byddai hynny'n arwain at ddogfen afresymol o fawr a chymhleth. O ganlyniad, bydd y CDLl, drwy ei AMB, yn asesu perfformiad polisïau o ran cyflawni amcanion integredig y cynllun. Mae'n asesu i ba raddau y mae strategaethau, polisïau a safleoedd allweddol y CDLl yn cael eu gwireddu a dyma'r prif ddull o adolygu perthnasedd a llwyddiant y CDLl.

2.14 Mae cynnwys yr AMB hwn fel a ganlyn felly:

- **Crynodeb Gweithredol**
- **Rhagarweiniad**: yn cyflwyno'r AMB, yn amlinellu'r gofyniad i fonitro'r CDLl a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)/yr Arfarniad Cynaliadwyedd, a strwythur yr AMB.
- **Newidiadau Cyd-destunol:** Yn nodi unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sydd y tu allan i gylch gwaith y Cynllun, gan gynnwys y rheiny'n ymwneud â deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol a allai effeithio ar fframwaith polisi'r CDLl.
- **Fframwaith monitro'r CDLl**:
    - **Monitro'r CDLl**: Yn amlinellu canfyddiadau'r fframwaith monitro, gan gynnwys nodi polisïau sy'n berthnasol i'r targedau a'r sbardunau sydd wedi'u nodi. Mae'n cynnwys asesu unrhyw amgylchiadau lliniaru a, lle mae hynny'n briodol, argymell gweithredu i sicrhau bod y polisïau'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus.
    - **Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd**: Yn amlinellu canfyddiadau gwaith monitro'r Cynllun yn erbyn y dangosyddion sydd wedi'u nodi yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd/AAS.
- **Casgliadau ac argymhellion**: Datganiad yn nodi unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r canlyniadau monitro.

## Fframwaith monitro'r CDLl

2.15 Mae'r fframwaith monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ac mae'n cynnwys cyfres o dargedau a dangosyddion ac yn diffinio sbardunau sy'n arwain at weithredu pellach. Cafodd y fframwaith monitro ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru uchod a'r canllawiau monitro a chafodd ei ystyried yn yr Archwiliad Cyhoeddus a thrwy Adroddiad yr Arolygydd ar CDLl Sir Gaerfyrddin. Mae'r fframwaith monitro a bennir yn y CDLl yn ffurfio sail yr AMB hwn.

2.16 Mae'r AMB hwn yn defnyddio system goleuadau traffig wrth fonitro'r polisïau. Mae'n golygu bod modd dehongli llwyddiant y Cynllun, neu ddiffyg llwyddiant, yn hawdd yn weledol. Fodd bynnag, mae angen darllen a deall y naratif esboniadol sy'n

cyd-fynd â'r adroddiad i gael dehongliad manwl. O dan yr amgylchiadau hynny lle nad yw dangosydd monitro wedi cyrraedd ei darged, neu lle mae sbardun asesu wedi dod yn weithredol, caiff y dangosydd hwn a'r naratif eu hystyried er mwyn asesu'r amodau sy'n dylanwadu ar y methiant i gyrraedd y targed ac effaith hynny o ran gweithredu'r polisi.

| | |
|---|---|
| Cyrraedd neu ragori ar y targed polisi. | |
| Y targed polisi ddim yn cael ei gyrraedd fel y rhagwelwyd ar hyn o bryd ond nid yw'n arwain at bryderon ynglŷn â gweithredu'r polisi. | |
| Y targed polisi ddim yn cael ei gyrraedd fel y rhagwelwyd ac mae pryderon yn sgil hynny ynglŷn â gweithredu'r polisi. | |
| Dim casgliad i'w lunio – data cyfyngedig ar gael. | |

2.17 Mae'r opsiynau canlynol ar gael i'r Cyngor mewn perthynas â phob dangosydd a'i sbardun a byddant yn cael eu hystyried fel tystiolaeth wrth baratoi'r CDLl diwygiedig 2018 - 2033. Bydd yr AMB hwn yn asesu difrifoldeb y sefyllfa mewn perthynas â phob dangosydd ac yn argymell ymateb priodol.

- **Parhau i Fonitro:** Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes rheswm i gynnal adolygiad o'r polisi.
- **Angen Hyfforddiant ar Swyddogion / Aelodau:** Lle mae dangosyddion sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio'n awgrymu nad yw polisïau'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach ar gyfer swyddogion neu Aelodau.
- **Angen Canllawiau Cynllunio Atodol / Briffiau Datblygu:** Er y bydd y Cyngor yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu trwy gydol cyfnod y Cynllun ac fel rhan o'r CDLl Diwygiedig, efallai y bydd y dangosyddion yn awgrymu y dylid darparu arweiniad pellach i ddatblygwyr ar y ffordd gywir o ddehongli polisi. Hefyd, pe na bai safleoedd yn dod ger bron fel y rhagwelwyd, bydd y Cyngor yn ystyried gweithio gyda datblygwyr / tirfeddianwyr i ddod â Briffiau Datblygu ymlaen ar gyfer safleoedd allweddol, er mwyn helpu i gychwyn y broses ddatblygu.
- **Ymchwil Polisi / Ymchwiliad:** Lle mae dangosyddion monitro'n awgrymu nad yw polisïau'r CDLl mor effeithiol ag y bwriadwyd, cynhelir ymchwil ac

ymchwiliadau pellach ynghyd â chasglu tystiolaeth fel sail i unrhyw benderfyniad i adolygu'r polisi yn ffurfiol.

- **Adolygiad Polisi:** Lle mae dangosyddion monitro'n awgrymu bod angen gwneud newidiadau i'r CDLl, bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o adolygu'r CDLl.

## Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

2.18 Mae Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd/AAS, sy'n cyd-fynd â'r CDLl mabwysiedig, yn nodi dangosyddion sylfaenol ar gyfer monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Dylid cyfeirio at Bennod 4 lle nodir sut mae monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer yr AMB hwn.

2.19 Credir bod monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn help wrth ddadansoddi perfformiad y CDLl drwyddo draw. Fodd bynnag, nodir na ddylid ymgymryd â'r broses o fonitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd ar wahân i'r gwaith o fonitro'r Cynllun. Dylai helpu i sefydlu darlun cyffredinol o gyflwr y Sir o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

2.20 Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn unol â'r ymrwymiad i baratoi'r CDLl Diwygiedig 2018 – 2033.

## Gwybodaeth Gyd-destunol

2.21 Wrth ystyried perfformiad a gweithrediad y CDLl, rhaid hefyd ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn flaenorol a allai fod wedi effeithio ar gyflawniad y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gydnabod na ddylai'r CDLl gael ei ystyried ar ei ben ei hun ac y gall amryw o ffactorau allanol a ffactorau eraill effeithio ar ei gyflawni.

2.22 Bydd yr AMB hwn yn nodi'r newidiadau perthnasol i bolisi cynllunio cenedlaethol lle gallai fod goblygiadau i'r CDLl ac i'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig. Gellir cyfeirio ymhellach hefyd at ddogfennau ac ystyriaethau cyd-destunol allweddol. Gall esiamplau o'r fath, er nad ydynt o angenrheidrwydd wedi digwydd yn ystod cyfnod

yr AMB, fod, yn rhinwedd eu pwysigrwydd a'u perthynas i broses y Cynllun Datblygu, angen ystyriaeth benodol wrth ddatblygu'r Cynllun Diwygiedig.

2.23 Hefyd, bydd yn nodi'r ffactorau a allai ddylanwadu ar weithredu'r CDLl a pharatoi'r CDLl Diwygiedig. Ategir hyn gan gyfeiriadau ychwanegol at newidiadau cyd-destunol yn y canlyniadau monitro polisi:-

- Cyd-destun Cenedlaethol;
- Cyd-destun Rhanbarthol; a
- Cyd-destun Lleol.

## 2 Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi Cenedlaethol

**Deddf Cymru (2017)**

2.24 Derbyniodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017. Er ei bod y tu allan i gyfnod monitro'r AMB hwn, mae'n parhau i fod yn berthnasol o safbwynt cyd-destun deddfwriaethol am ei bod yn darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i ddeddfwriaethu ar unrhyw bwnc ar wahân i'r pynciau sydd wedi'u cadw gan Senedd y DU. Mae'r Ddeddf yn gweithredu elfennau o gytundeb Dydd Gŵyl Dewi oedd angen newidiadau deddfwriaethol a'i nod yw creu setliad cliriach a chryfach yng Nghymru, sy'n gadarn ac yn barhaol. Yn benodol, mae Deddf Cymru yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy symud at fodel o bwerau cadw ar gyfer Cymru.

2.25 Roedd Deddf 2017 yn datganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru mewn meysydd lle'r oedd consensws gwleidyddol o blaid datganoli pellach. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Datganoli mwy o gyfrifoldeb i'r Cynulliad i weithredu ei faterion ei hun, gan gynnwys penderfynu ar ei enw;
- Datganoli cyfrifoldeb i'r Cynulliad ar gyfer polisi porthladdoedd, cyfyngiadau cyflymder, cofrestru bysus, rheoleiddio tacsis, etholiadau llywodraeth leol, carthffosiaeth a chaniatáu ynni hyd at 350MW (gweler isod am fanylion ychwanegol);

- Datganoli cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru am drwyddedau a chadwraeth forol a chaniatadau ynni yn rhanbarth môr mawr Cymru; ac ymestyn y cyfrifoldeb am reoliadau adeiladu i gynnwys yr adeiladau ynni a eithrir;
- Datganoli pŵer dros etholiadau'r Cynulliad;
- Datganoli pwerau dros drwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir;
- Alinio'r ffin ddatganoli ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr; a
- Sefydlu mewn statud, Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru i oruchwylio tribiwnlysoedd datganoledig a chaniatáu trawsleoli deiliaid swyddi barnwrol.

**Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

2.26 Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015, ac mae y tu allan i gyfnod monitro'r AMB hwn. Fodd bynnag, yn rhinwedd y newidiadau mae'n eu creu, mae o berthnasedd parhaus o ran cyd-destun. Mae'n cyflwyno cyfres o newidiadau deddfwriaethol er mwyn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn ac yn hwyluso datblygiadau.

2.27 O ran y cynllun datblygu, mae Deddf 2015 yn ceisio cryfhau'r drefn lle mae'r 'cynllun yn arwain', gyda'r CDLl yn cadw rôl sylfaenol. Mae'n ychwanegu ymhellach at y system bresennol lle mae'r cynllun yn arwain drwy gyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a elwir bellach yn Cymru'r Dyfodol ar lefel genedlaethol, a Chynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol i fynd i'r afael â materion trawsffiniol fel tai, cyflogaeth, gwastraff a thrafnidiaeth.

**Y Bil Cydgrynhoi Cynllunio**

2.28 Cyhoeddwyd Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2021. Roedd hwn yn cadarnhau ei hymrwymiad ffurfiol i gyflwyno Bil Cydgrynhoi Cynllunio yn ystod ail dymor hwn y Senedd. Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol adroddiad blynyddol ar raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ar 1 Tachwedd 2023, a nodai ein bod ar hyn o bryd yn ceisio cyflwyno'r Bil yn y Senedd yn haf 2024; gyda'r nod hwn i barhau i gael ei adolygu.

2.29 Caiff y gwaith o gynhyrchu'r Bil ei lywio gan Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac ymatebion interim a manwl y Llywodraeth i'w hargymhellion.

**Bil Seilwaith (Cymru)**

2.30 Cyflwynwyd Bil Seilwaith (Cymru) a’r dogfennau ategol i Senedd Cymru ar 12 Mehefin 2023. Bellach mae’r Bil wedi symud trwy broses graffu’r Senedd a phasiodd gam 4 ar 16 Ebrill. Bydd y Bil yn awr yn symud yn ei flaen i Gydsyniad Brenhinol ac yn dod yn Ddeddf.

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021**

2.31 Daeth y gorchymyn i rym ar 30 Ebrill 2021. Mae'r offeryn statudol wedi mewnosod "Hawliau Datblygu a Ganiateir (PDRs) - Adfer" dros dro yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Mae'r rhan 4A newydd a diwygiadau i ran 42 yn atodlen 2 i'r gorchymyn yn cynnwys nifer o ddiwygiadau datblygu a ganiateir i gefnogi busnesau, gan greu mwy o hyblygrwydd am gyfnod dros dro mewn ymateb i'r heriau a gyflwynir wrth adfer yn sgil COVID-19.

2.32 Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod yn ymwybodol bod ymestyn hawliau datblygu a ganiateir mewn argyfwng ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn golygu y bydd y caniatâd ar gyfer y datblygiadau cyntaf a oedd yn gysylltiedig â'r coronafeirws megis ysbytai maes a storfeydd cyrff yn dechrau dod i ben ddiwedd mis Medi. Daeth Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021 i rym ar 29 Mawrth 2021.

**Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040**

2.33 Cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021. Mae'n gynllun 20 mlynedd sydd â'r dyddiad dod i ben o 31 Rhagfyr 2040.

Statws y Cynllun Datblygu

2.34 Mae Cymru'r Dyfodol yn rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan. Rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â Chymru'r Dyfodol oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall.

Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau)

2.35 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn darparu mecanwaith llywodraethu cyson ar gyfer darparu gwasanaethau ledled Cymru yn rhanbarthol ac yn sefydlu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol ledled Cymru gyfan.

2.36 Gan roi sylw penodol i'r swyddogaeth gynllunio strategol, h.y. paratoi CDS, bydd gan bob Cyd-bwyllgor Corfforaethol (o 30 Mehefin 2022) y gallu i arfer ei ddyletswydd statudol i baratoi CDS Bydd hon yn swyddogaeth orfodol, yn hytrach nag yn swyddogaeth wirfoddol fel trwy Ddeddf Cynllunio Cymru 2015. Wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol, bydd gan Awdurdodau Parc Cenedlaethol aelod ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, gyda hawl i bleidleisio, ble bynnag y mae’r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn cwmpasu naill ai rhan o ardal yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu’r cyfan ohoni.

2.37 Rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol gytuno ar gynnwys Cynllun Datblygu Strategol ar y cam strategaeth a ffefrir a'r cam adneuo, yn ogystal â chytuno i gyflwyno'r cynllun i'w archwilio. Felly, er y gall gwaith technegol gael ei ddatblygu gan is-bwyllgor (a fyddai hefyd ag aelod o'r Awdurdod Parciau Cenedlaethol arno), mae angen cytundeb ffurfiol trwy bleidlais fwyafrifol gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

2.38 Rhagwelir y bydd yn cymryd ychydig amser i'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ddod yn weithredol cyn y gallant weithredu eu swyddogaeth statudol briodol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Gellir gwneud gwaith technegol ar agweddau ar Gynllun Datblygu Strategol o fewn y cyfnod hwn, yn barod i symud ymlaen yn gyflym pan fydd modd ymgymryd â chamau ffurfiol o 2022 ymlaen. Gan weithio ar y sail fod paratoi Cynllun Datblygu Strategol yn cymryd 5 blynedd, rhagwelir mai haf 2028 fydd y cynharaf y gellid mabwysiadu Cynllun Datblygu Strategol.

2.39 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu - Argraffiad 3 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020) yn cynnwys adran sy'n nodi cysyniadau, cynnwys a chwmpas allweddol Cynllun Datblygu Strategol (Pennod 10). Ar y cyd â Cymru'r Dyfodol a'r Rheoliadau Datblygu Cynlluniau Strategol, bydd hyn yn rhoi canllawiau digonol i alluogi Datblygu Cynllun Strategol i gael ei baratoi. Bydd yr adran ar Gynlluniau Datblygu Strategol yn cael ei hymhelaethu a'i hehangu ymhellach eleni i ddarparu manylion ychwanegol.

2.40 Hyd nes y caiff Cynllun Datblygu Strategol ei fabwysiadu, dylai Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) barhau i gael eu paratoi. Lle caiff Cynllun Datblygu Strategol ei fabwysiadu, bydd CDLlau 'Cryno' yn cael eu paratoi o fewn ardal y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol, gan gynnwys yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Ni ellir cychwyn CDLl Cryno yn ffurfiol cyn bod Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu. Mae hyn oherwydd y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn gosod y strategaeth gyffredinol, graddfa'r twf, lleoliadau allweddol a pholisïau ar gyfer pob CDLl Cryno. Ni fydd hyn yn cael ei nodi'n ffurfiol a'i draethu nes i'r Datblygu Cynllun Strategol gael ei fabwysiadu.

2.41 Ni fydd gan CDLlau Cryno gam ymgynghori strategaeth a ffefrir, fel sydd gan CDLlau ar hyn o bryd, gan y bydd y strategaeth eisoes wedi'i sefydlu gan y Cynllun Datblygu Strategol. Bydd CDLlau Cryno yn llawer teneuach, gan ganolbwyntio yn y bôn ar ddyraniadau ar safleoedd penodol, gan gyflawni'r strategaeth gyffredinol a nodir yn y Cynllun Datblygu Strategol. Disgwylir y bydd CDLlau Cryno yn cael eu paratoi mewn 2 i 2.5 mlynedd, ac y byddant felly'n llawer cyflymach ac yn llai dwys yn ariannol na CDLlau. Bydd angen rheoliadau i gyflwyno CDLlau Cryno, er na fydd angen dechrau paratoi'r rhain tan ddiwedd 2022. Bydd angen rheoliadau pellach i gyflwyno CDLlau Cryno.

**Goblygiadau'r CDLl**

Bydd darpariaethau'r Ddeddf, er nad ydynt o reidrwydd yn cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r CDLl Diwygiedig a'r AMB hwn, yn cael eu monitro - yn enwedig o safbwynt y pwyslais cynyddol y mae'n ei roi ar gynlluniau datblygu ar ffurf Cymru'r Dyfodol a'r darpar Gynlluniau Datblygu Strategol, gyda thrafodaethau trawsffiniol a'r potensial i gydweithio ymhellach yn ganolog yn hynny o beth.

Bydd cynnwys Cymru'r Dyfodol yn cael ei ystyried wrth baratoi'r CDLl Diwygiedig.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

2.42 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Nod cyffredinol y Ddeddf yw ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf weithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant

economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn helpu i greu Cymru ‘rydyn ni am fyw ynddi nawr ac yn y dyfodol’.

2.43 Mae’r Ddeddf yn sefydlu ‘egwyddor datblygu cynaliadwy’ sy’n rhoi cyfarwyddyd i sefydliadau ar sut mae mynd ati i gyflawni’u dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod rhaid i’r corff weithredu mewn ffordd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.44 Mae’r Ddeddf yn darparu’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol a fydd yn disodli’r Strategaeth Gymunedol Integredig bresennol. O ystyried bod hyrwyddo datblygu cynaliadwy’n egwyddor sylfaenol yn y CDLl, mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau’r Cynllun a’r Ddeddf/Cynlluniau Llesiant. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno cyfres o nodau llesiant i ymgyrraedd atynt wrth geisio datblygu’n gynaliadwy.

2.45 Mae’n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw i’r cynlluniau llesiant wrth baratoi CDLlau ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Bydd y gofynion o dan y dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf yn cael eu datblygu mewn unrhyw AMBau yn y dyfodol ac fel rhan o’r gwaith o baratoi’r CDLl Diwygiedig. Yn hyn o beth dylid cyfeirio at y cyd-destun lleol isod ac at Atodiad 1.

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2.46 Cafodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae’n cyflawni yn erbyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd.

2.47 Dyma rannau allweddol y Ddeddf:

- Rhan 1: Rheolaeth gynaliadwy ar gyfoeth naturiol – fel bod adnoddau Cymru’n cael eu rheoli mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy ac unedig.
- Rhan 2: Newid yn yr hinsawdd – mae’n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu targedau statudol o ran lleihau allyriadau, gan gynnwys o leiaf 80%

o ostyngiad mewn allyriadau erbyn 2050, ac i gyflwyno cyllidebau carbon er mwyn helpu i gyrraedd y targedau hynny.

- Rhan 4: Casglu a gwaredu gwastraff – mae'n gwella prosesau rheoli gwastraff drwy ein helpu i sicrhau bod mwy o wastraff busnes yn cael ei ailgylchu a bod gwelliannau o ran trin gwastraff bwyd ac o ran faint o ynni sy'n cael ei adfer.
- Rhannau 5 a 6: Pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn a thrwyddedu morol –mae'r rhannau hyn yn egluro'r gyfraith sy'n ymdrin â rheoli pysgodfeydd pysgod cregyn a thrwyddedu morol.
- Rhan 7: Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a draenio tir – mae'n egluro'r gyfraith sy'n ymdrin â systemau rheoleiddiol eraill ar gyfer yr amgylchedd, gan gynnwys rheoli perygl llifogydd a draenio tir.

2.48 Mae'r datganiad polisi'n ei gwneud yn ddyletswydd i weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu Polisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol.

2.49 Un elfen allweddol o'r Ddeddf yw'r ddyletswydd mae'n ei phennu i awdurdodau lleol i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth'. Mae'r Ddeddf, trwy wneud hynny, yn datgan ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus flaengynllunio ac adrodd yn ôl ar sut maent yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Mae'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig wedi ymateb i ddarpariaethau'r Ddeddf. Nodir fodd bynnag, mewn perthynas â'r ddyletswydd o dan y Ddeddf i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth', fod fframwaith polisi'r CDLl yn cynnwys darpariaethau o'r fath. Fodd bynnag, bydd cwmpas y fframwaith presennol yn cael ei adolygu a'i ddatblygu fel y bo'n briodol.

### Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

2.50 Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Chwefror 2016 a daeth yn ddeddf ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016.

2.51 Mae tri phrif nod i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016:

- cryfhau'r warchodaeth i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig;

- rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd fwy cynaliadwy;  a
- gwneud y penderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol yn fwy tryloyw ac atebol.

2.52 Mae'r Ddeddf yn diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth y DU – Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Ar hyn o bryd, y rhain sy'n darparu'r fframwaith er mwyn gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau annibynnol yn ymwneud ag enwau lleoedd hanesyddol; cofnodion am yr amgylchedd hanesyddol a'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys y Ddeddf a'i gofynion, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

**Yr Adolygiad Ffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth**

2.53 Gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Bolisi Cynllunio Cymru, Cymru'r Dyfodol, Cymru Sero Net a'r Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol, cyhoeddwyd yr Adolygiad Ffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn ddiweddar. Mae'r gyfres hon o ddogfennau yn gosod fframwaith gyson i ystyried graddfa a lleoliad datblygiad newydd trwy fabwysiadu'r hierarchaeth trafnidiaeth.

2.54 Mae'r Adolygiad Ffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn cydnabod yn benodol y rôl sydd gan gynllunio wrth leihau'r galw am drafnidiaeth a hyrwyddo newid mewn dulliau teithio. Tynnir sylw at bwysigrwydd cydlynu Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol gan Gydbwyllgorau Corfforedig, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael gan Trafnidiaeth Cymru wrth ddarparu data a modelau i gefnogi'r defnydd o fodelau hygyrchedd ac astudiaethau o aml-ddulliau teithio.

## Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12

2.55 Cyn cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 wedi'i ddiweddaru, anfonwyd Llythyr at benaethiaid cynllunio a oedd yn nodi polisi wedi'i ddiweddaru i'w gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru ym mis Hydref 2023. Yn dilyn hynny cyhoeddwyd Rhifyn 12 ym mis Rhagfyr 2023. Roedd gwelliannau pellach yn ymwneud â newidiadau mewn perthynas ag ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

2.56 Mewn perthynas â Phennod 6, mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

- **Seilwaith Gwyrdd:** pwyslais cryfach ar fabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at seilwaith gwyrdd gan gwmpasu ystyriaethau trawsffiniol, nodi allbynnau allweddol asesiadau seilwaith gwyrdd, cyflwyno datganiadau seilwaith gwyrdd cymesur gyda cheisiadau cynllunio, a chyfeirio at safonau Adeiladu gyda Natur.

- **Budd Net i Fioamrywiaeth a'r Dull Fesul Cam:** rhoddir rhagor o eglurder ynghylch sicrhau budd net i fioamrywiaeth trwy gymhwyso'r dull fesul cam, gan gynnwys cydnabod mesurau digolledu oddi ar y safle fel y dewis olaf, ynghyd â'r angen i ystyried gwelliant a rheolaeth hirdymor ar bob cam. Mae'r defnydd o'r datganiad seilwaith gwyrdd fel modd o arddangos y dull fesul cam yn cael ei wneud yn glir. Datblygwyd diagram symlach o'r dull polisi (a gaiff ei fireinio ymhellach yn y fersiwn gyfunol o PCC12). Cydnabyddir pwysigrwydd cydweithio strategol i nodi a chipio cyfleoedd ar raddfa fwy i sicrhau budd net i fioamrywiaeth.
- **Gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig:** ymagwedd gryfach at warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ynghyd â rhagor o eglurder am y sefyllfa o ran rheoli safleoedd ac eithriadau ar gyfer mân ddatblygiadau sy'n angenrheidiol i gynnal 'tirwedd fyw'. Ystyrir bod datblygiadau eraill yn annerbyniol fel mater o egwyddor. Mewn achosion eithriadol, gall dull wedi'i gynllunio fod yn briodol lle gellir sicrhau mesurau diogelu angenrheidiol trwy gynllun datblygu**.**
- **Coed a Choetiroedd**: cyd-fynd yn agosach â'r dull fesul cam, ynghyd â hybu'r broses o blannu coed newydd fel rhan o ddatblygiad ar sail cael y goeden iawn yn y lle iawn.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Mae goblygiadau a'r gofynion o Bolisi Cynllunio Cymru wedi cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15**

2.57 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar TAN 15 newydd yn 2019.

2.58 Roedd y fersiwn newydd o TAN 15 yn wreiddiol i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021, fodd bynnag, roedd Llythyr y Gweinidog a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023 yn darparu'r diweddariad canlynol: gohiriwyd hyn [y fersiwn newydd o'r TAN] nes bod Asesiadau Canlyniadau Llifogydd manwl yn cael eu cynnal i helpu i fireinio gronynogrwydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Cafodd y TAN gwreiddiol ei atal tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, ond mae'r penderfyniad i ddiwygio'r TAN ac ailymgynghori wedi cael effaith anochel ar ei linell amser ar gyfer dod i rym. Yn wreiddiol cafodd y TAN ei atal tan 1 Mehefin 2023. Ar hyn o bryd nid oes dyddiad ffurfiol ar gyfer cyhoeddi'r TAN15 Diwygiedig.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Bydd goblygiadau a gofynion y TAN newydd yn cael eu hystyried os yn briodol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig. Mae materion yn ymwneud â pherygl llifogydd a pholisi cynllunio cenedlaethol wedi cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Diwygiedig.

**TAN 11 Ansawdd Aer, Sŵn a Seinwedd**

2.59 Mae TAN11 Sŵn yn cael ei adolygu er mwyn ei ddiweddaru a sicrhau ei fod yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd Cymru a Chynllun Aer Glân Cymru. Cyhoeddwyd TAN 11 yn 1997 ac roedd yn cwmpasu sŵn yn unig. Cafodd ei ddiweddaru trwy gyfrwng llythyr egluro polisi (CL-01-15 Diweddariadau i TAN 11 Sŵn – Ymrwymiadau Cynllun Gweithredu Sŵn (2013-18) yn 2015.

Roedd y TAN newydd yn destun ymgynghoriad rhwng Hydref 2022 a Ionawr 2023. Bu oedi cyn ei gwblhau'n derfynol wrth aros am fabwysiadu deddfwriaeth a pholisi

ehangach. Mae Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) bellach wedi cael Cydsyniad Brenhinol ac mae’r Cynllun Sŵn a Seinwedd newydd wedi’i gyhoeddi.

**Nodyn Cyngor Technegol 19 – Telathrebu**

2.60 Mae Nodyn Cyngor Technegol 19 ar delathrebu wedi'i ddirymu. Gellir dod o hyd i ganllawiau polisi cynllunio a chyngor ar delathrebu yn Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, Polisi Cynllunio Cymru a'r Côd Arferion Gorau ar Ddatblygu'r Rhwydwaith Ffonau Symudol ar gyfer Cymru.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru**

2.61 Cyhoeddodd LlC Gynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru (CMCC) yn Nhachwedd 2019. Mae’n nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf o ran defnydd cynaliadwy o’n moroedd. Mae’r CMCC yn cynnwys cynlluniau a pholisïau ar gyfer rhanbarth y glannau a rhanbarth y môr mawr. Yn ogystal, bydd canllawiau gweithredu yn helpu awdurdodau i ddeall y penderfyniadau y bydd angen iddynt eu gwneud.

2.62 Sefydlwyd y gofyniad i lunio’r Cynllun o dan *Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir (MCAA)*, a Gweinidogion Cymru yw’r awdurdod cynllunio ar gyfer y canlynol:

- rhanbarth glannau Cymru (hyd at 12 milltir fôr o'r tir)
- rhanbarth môr mawr Cymru (12 i 200 milltir fôr)

2.63 Y CMCC yw’r cynllun morol cyntaf i Gymru ac mae'n cynrychioli dechrau proses o lunio ein moroedd i gefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Bydd cynllunio morol yn arwain datblygiad cynaliadwy ein hardal forol drwy nodi sut y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried y cynigion.

2.64 Mae'r ddogfen hon yn gynllun morol ar gyfer rhanbarthau cynllun morol Cymru sef y glannau a’r môr mawr. Fe'i paratowyd a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA) 2009. Dylai'r Cynllun a'r deunydd ategol gael eu defnyddio gan ymgeiswyr i lunio cynigion a cheisiadau am drwyddedau, gan

awdurdodau cyhoeddus i arwain y broses o wneud penderfyniadau, a chan ddefnyddwyr eraill i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ardal y Cynllun yn gynaliadwy.

2.65 Credir y bydd y dull gweithredu hwn yn caniatáu diweddariadau amserol ac ymatebol i'r canllawiau. Hefyd, bydd yn cefnogi'r broses o ystyried tystiolaeth gyfredol gan Borth Cynllunio Morol Cymru, yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Bydd goblygiadau a gofynion y TAN newydd yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

**Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol**

2.66 Cwblhawyd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol blaenorol yn hydref 2019, fel rhan o gonsortiwm gyda 5 awdurdod unedol cyfagos arall yn ogystal â Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro. Cafodd y gwaith ei wneud gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cael ei oruchwylio gan grŵp llywio gyda chynrychiolydd o bob awdurdod. Rhagwelwyd yr angen am dai dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol drafft hyd at 2033, gan ddefnyddio cyfuniad o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd a data mewnol megis y gofrestr tai a gosod tai cymdeithasol.

2.67 Daeth methodoleg ddiwygiedig ar gyfer ymgymryd ag Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol, gan gynnwys yr offeryn newydd a'r canllawiau ategol, yn weithredol ar 31 Mawrth 2022. Datblygwyd y fethodoleg newydd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a grŵp bach o arbenigwyr awdurdod lleol ochr yn ochr ag ymgysylltu â phob awdurdod lleol. Defnyddir y fethodoleg hon fel y sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyfrifo'r angen am dai.

2.68 Wrth symud ymlaen mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru bod asesiad newydd o'r farchnad dai yn cael ei gyhoeddi bob pum mlynedd, gyda'r ffigurau'n cael eu diweddaru rhwng blynyddoedd 2 a 3 y cylch (sef rywbryd yn 2026 neu 2027).

2.69 Mae Datganiad Sefyllfa wedi'i wneud fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r CDLl Diwygiedig i'w archwilio, gyda diweddariad ar yr angen ychwanegol am dai i gael ei ystyried yn yr archwiliad.

**Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

2.70 Mewn ymateb i ymchwil ar effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ar farchnadoedd tai a chymunedau ledled Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o fesurau gyda'r nod o ddarparu mwy o reolaethau mewn perthynas â defnyddio eiddo fel ail gartrefi a llety masnachol tymor byr. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Rhoi'r gallu i Awdurdodau Lleol godi 300% ar y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi.
- Cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer llety gwyliau tymor byr
- Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio. Y mesur hwn yw prif ffocws yr adroddiad hwn, gan nodi'r ymyriadau a'r goblygiadau cynllunio a'r cylch gwaith fel Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl).

2.71 Ym mis Hydref 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drwy ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) ddau ddosbarth defnydd newydd a diwygio dosbarth defnydd C3, gan greu'r tri diffiniad canlynol:

- Dosbarth defnydd C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa a'u meddiannu am fwy na 183 diwrnod mewn blwyddyn galendr).
- Dosbarth defnydd C5 (tai annedd a ddefnyddir yn wahanol i unig neu brif breswylfa a'u meddiannu am 183 diwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr, h.y. ail gartrefi).
- Dosbarth defnydd C6 (tai annedd a ddefnyddir ar gyfer llety gosod tymor byr masnachol heb fod am fwy na 31 diwrnod ar gyfer pob cyfnod o feddiannaeth).

2.72 Bydd angen i geisiadau cynllunio newydd ar gyfer prif breswylfeydd/ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr gael caniatâd cynllunio ar gyfer y dosbarth defnydd perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i ganiatáu newid defnydd rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd - C3, C5 a C6 neu gyfuniad o'r defnyddiau hynny.

2.73 Fel rhan o'r newidiadau i'r darpariaethau deddfwriaethol, gwnaed diwygiadau cyflenwol hefyd i adran 4.2 o Rifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru sydd ar ddod. Mae hyn

yn cyflwyno gofyniad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau), lle mae nifer yr achosion o ail gartrefi a thai gwyliau tymor byr mewn ardal leol, i'w hystyried wrth ystyried gofynion tai a pholisi yn y dyfodol.

2.74 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn cyfeirio at angen am ddull cydgysylltiedig gyda gofyniad i archwilio opsiynau wrth ddrafftio neu ail-ddrafftio CDLl. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno cyfyngiad neu nenfwd ar nifer yr ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr.
- Lle ceir tystiolaeth glir, y posibiliad o wyro oddi wrth bolisïau cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion tai marchnad lleol penodol. Dylai hyn fod yn cyd-fynd â chyfiawnhad penodol, e.e. drwy gyflenwad tir, effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol, gan gynnwys mynychder ail gartrefi a thai gwyliau tymor byr.

2.75 Gellid ystyried Cyfarwyddyd Erthygl 4 sy'n benodol i ardal a all gyflwyno'r gofyniad i gael caniatâd cynllunio i newid rhwng unig breswylfa neu brif breswylfa i ail gartref neu lety tymor byr.

## Cyd-destun Polisi Rhanbarthol

### Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru

2.76 Ers cyhoeddi Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn 2013**,** mae'r cyd-destun economaidd a pholisi wedi newid yn sylweddol ar lefel Cymru a'r DU. Mae hyn wedi dod i ffocws penodol yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd ac effaith y pandemig covid-19. Erbyn hyn mae'r dirwedd gyd-destunol newidiol hon hefyd yn cynnwys dyfodiad y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol newydd, a pharatoi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol newydd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Fframweithiau hyn yn amlinellu gweledigaethau a blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru.

2.77 I ymateb i amgylchiadau newidiol, lluniodd y pedwar awdurdod lleol yn Ne-orllewin Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Gynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol newydd a fydd yn disodli'r Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-ranbarth Bae Abertawe flaenorol.

2.78 Mae comisiwn y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn cynnwys:

- Dadansoddi'r sylfaen dystiolaeth yn drylwyr o ran economi, marchnad lafur a seilwaith y rhanbarth i bennu ei gryfderau, ei wendidau, ei gyfleoedd a'i fygythiadau
- Dehongli'r cyd-destun polisi strategol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol
- Datblygu nodau ac amcanion strategol manwl sy'n ymateb i gyfleoedd economaidd y rhanbarth ac sy'n ategu'r weledigaeth ranbarthol a rennir fel y'i nodir yn y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol
- Paratoi Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol sy'n cynnwys y camau y mae angen eu cymryd i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion.

2.79 Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol yn ategu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol newydd Llywodraeth Cymru ac mae'n darparu haen arall o fanylder gan amlinellu'r amcanion a'r camau gweithredu a fydd yn cyflawni yn erbyn gweledigaeth uchelgeisiol y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

**Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

2.80 Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe'n cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'n dwyn ynghyd fyd busnes, llywodraeth leol ac amrywiaeth o bartneriaid eraill, gan weithio tuag at greu ffyniant economaidd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein Dinas-ranbarth. Mae Strategaeth Adfywio Economaidd 2013 – 2030 Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer y rhanbarth, gyda'r nod o helpu'r ardal i ddatblygu dros y degawdau nesaf.

**Bargen Ddinesig**

2.81 Sicrhaodd llofnodi'r Fargen Ddinesig y buddsoddiad mwyaf erioed yn Ne-orllewin Cymru. Bydd y fargen gwerth £1.3 biliwn yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, gan roi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol a chreu bron i 9,000 o swyddi newydd yn ystod yr hyd oes o 15 mlynedd. Mae'r un ar ddeg prosiect mawr sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig yn mynd ati i gyflwyno cyfleusterau o safon byd ym maes ynni,

gweithgynhyrchu clyfar, arloesi a gwyddorau bywyd, gyda buddsoddiad mawr yn seilwaith digidol y rhanbarth a sgiliau gweithlu a'r dalent sy'n sail i bob sector.

2.82 Mae cyfanswm y pecyn buddsoddi'n cynnwys £241 miliwn o gyllid Llywodraeth y DU a Chymru, £396 miliwn o arian arall o'r sector cyhoeddus a £637 miliwn o'r sector preifat. Mae'r Fargen Ddinesig yn nodi'r prosiectau canlynol:

- Pentre Awel
- Yr Egin, Canolfan S4C
- Seilwaith Digidol
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau
- Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer
- Ardal Forol Doc Penfro
- Campysau Gwyddor Bywyd, Llesiant a Chwaraeon
- Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel
- Sgiliau a Thalentau

2.83 Gellir cael mwy o wybodaeth ynghylch y Fargen Ddinesig a'i phrosiectau trwy'r ddolen ganlynol:
[Cartref | Bargen Ddinesig Bae Abertawe]

**Goblygiadau i'r CDLl**

Mae'r CDLl presennol mabwysiedig, wrth gydnabod cyfraniad rhanbarthol pwysig Sir Gaerfyrddin, yn darparu trwy ei bolisïau a'i gynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth, gyda'r economi'n elfen bwysig yn Strategaeth y Cynllun. Mae rôl y Dinas-ranbarth yn ystyriaeth allweddol wrth sicrhau'r cydnawsedd parhaus mewn cyd-destun strategol.

Yn hyn o beth, bydd llofnodi'r Fargen Ddinesig a nodi'r prosiectau uchod yn hysbyswyr a chyfranwyr nodedig mewn polisïau neu gynigion defnydd tir. Yn hyn o beth, er bod y Fargen Ddinesig yn atgyfnerthu llawer o ddull strategol y CDLlau presennol, bydd angen mesur cydnawsedd wrth baratoi'r CDLl Diwygiedig er mwyn sicrhau bod darpariaethau priodol yn eu lle i gefnogi'r gwaith o gyflawni.

## Y Cyd-destun Lleol

### Cyngor Sir Caerfyrddin - Amcanion Llesiant

2.84 Mae'r Cyngor yn unol â'i rwymedigaethau statudol wedi cyhoeddi ei Amcanion Llesiant:

1. Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda)
2. Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)
3. Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)
4. Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor)

2.85 Ar ôl cyhoeddi'r Amcanion hyn, rhaid i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni. Mae Cynlluniau Gweithredu manwl yn barod i gefnogi pob Amcan Llesiant, a bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadrodd drwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad.

### Asesiad Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin

2.86 Mae'r Asesiad Llesiant a gynhaliwyd gan Fwrdd Gwasanaethau CyhoeddusSir Gaerfyrddin yn amlinellu: sut beth yw llesiant yn Sir Gaerfyrddin; a sut mae trigolion a chymunedau Sir Gaerfyrddin eisiau i lesiant fod yn y dyfodol, drwy archwilio materion allweddol sy'n cael effaith gadarnhaol a/neu negyddol ar lesiant.

2.87 Mae ei ganfyddiadau fel y'u cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn eu cylch yn ffurfio'r sail i'r adroddiad a bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio ei ganlyniadau, ochr yn ochr â gwybodaeth allweddol arall, i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.

2.88 Roedd y blaenoriaethau hyn yn sail i Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r enw 'Y Sir Gâr a Garem 2018-2023' a cyhoeddwyd ym mis Mai 2022. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda'i gilydd, yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i wella llesiant yn Sir Gaerfyrddin a chyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

**Datblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais – Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022 – 2027**

2.89 Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer yr awdurdod lleol dros y cyfnod hwn, gan ymgorffori ein hamcanion gwelliant a llesiant fel y'u diffinnir gan ddeddfwriaeth.

2.90 Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ac uchelgeisiau'r Cyngor o dan y pedwar amcan llesiant a amlinellir uchod (paragraff 2.99)– i gynorthwyo preswylwyr i: ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Bydd y CDLl yn parhau'n arf allweddol er mwyn cyflawni'r asesiad Llesiant a'r Amcanion uchod. Bydd y symud tuag at y Cynllun Llesiant a'r trosglwyddo diweddar o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei fonitro i sicrhau bod y ddau Gynllun craidd hyn yn parhau i fod yn gyson â'i gilydd.

Mae un ystyriaeth allweddol wrth symud ymlaen yn ymwneud ag integreiddio a chysoni amcanion strategol y CDLl â'r Amcanion Llesiant sydd wedi'u nodi uchod. Credir ei bod yn hanfodol edrych ar y cysoni hwn o gyfnod cynnar, er mwyn sicrhau bod y CDLl mewn lle da i ymateb i'r newidiadau hyn a'r Cynllun Gweithredu o ganlyniad, a fydd o gymorth i'w cyflawni. Mae Atodiad 1 yn cynnal dadansoddiad cymharol o Amcanion Strategol y CDLl yn erbyn yr Amcanion Llesiant cenedlaethol a lleol.

**Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen**

2.91 Mae'r adroddiad hwn yn garreg filltir arwyddocaol i'r Awdurdod gan mai dyma'r tro cyntaf erioed y datblygwyd strategaeth bellgyrhaeddol i adfywio ein cymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd yr adroddiad terfynol ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn ar 11 Medi 2019.

2.92 Diben y fenter Deg Tref yw cefnogi adferiad economaidd a thwf trefi gwledig ledled y Sir. Sefydlwyd y fenter fel ymateb uniongyrchol i Gynllun Symud Sir Gâr

Wledig Ymlaen sy'n nodi nifer o argymhellion allweddol i helpu i adfywio Sir Gaerfyrddin wledig.

2.93 Rhan allweddol o'r rhaglen yw datblygu cynlluniau twf economaidd i hyrwyddo agenda o newid ar gyfer pob un o'r trefi perthnasol a'u cefnwlad ehangach: Cross Hands, Cwmaman, Cydweli, Talacharn, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Mae'r CDLl yn elfen allweddol wrth gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor ac fel y cyfryw bydd yn ofynnol i'r pwyslais corfforaethol ar y cyd-destun gwledig gael ei gydnabod yn briodol ynghyd ag ymateb iddo yn yr un modd. Mae'r heriau economaidd a achoswyd gan y pandemig wedi tynnu sylw at yr angen am y 10 cynllun twf economaidd.

Ystyriwyd y berthynas rhwng y CDLl a'r pwyslais corfforaethol ar adferiad a buddiannau gwledig fel rhan o'r CDLl Diwygiedig er mwyn sicrhau bod darpariaethau priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni.

**Carbon Sero Net erbyn 2030**

2.94 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fel cydnabyddiaeth o'r rôl bwysig sydd ganddo i'w chwarae o ran lleihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr ei hun ymhellach a darparu'r arweiniad i annog trigolion, busnesau a sefydliadau eraill i gymryd camau i leihau eu hôl troed carbon eu hunain.

2.95 Ym mis Chwefror 2019, datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ac ymrwymodd i fod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. Ers hynny, y Cyngor oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu carbon sero net, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Chwefror 2020. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd y Cyngor argyfwng natur hefyd gan nodi'r camau y mae'n eu cymryd trwy'r darpariaethau o dan atodlen 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r Cyngor yn gweithio i ddod â'i ymateb i'r argyfwng natur a newid yn yr hinsawdd at ei gilydd drwy ddull strategol ehangach yn 2023.

2.96 Mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd ragweithiol tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030, gyda'i ffocws cychwynnol ar ein hôl troed carbon mesuradwy. Nid yw hyn yn atal camau ehangach eraill i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, sy'n cael eu gwneud ar draws adrannau'r Cyngor.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Mae'r CDLl yn elfen allweddol wrth gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor ac fel y cyfryw bydd yn ofynnol i'r pwyslais corfforaethol ar garbon sero net gael ei gydnabod yn briodol ynghyd ag ymateb iddo yn yr un modd.

Ystyriwyd y berthynas rhwng y CDLl a'r pwyslais corfforaethol ar garbon sero net fel rhan o'r CDLl Diwygiedig er mwyn sicrhau bod darpariaethau priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni.

### Canllawiau Ffosffad CNC Rhifyn 3 - Materion Ansawdd Dŵr

2.97 Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru 'gyngor cynllunio interim' i sicrhau nad yw'r capasiti amgylcheddol yn dirywio ymhellach. Mae'r 'cyngor' hwn yn ymwneud â phob Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol y mae ei dalgylch yn ymestyn i Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Gwy ac Afon Cleddau. Mae dau ailadroddiad pellach o'r canllawiau CNC hyn wedi'u cyhoeddi.

2.98 Fel Awdurdod Cynllunio Lleol, bydd yn ofynnol i'r Cyngor ystyried y cyngor a roddir gan CNC wrth wneud penderfyniadau cynllunio (ar gyfer datblygiadau unigol a'r CDLl). Mae nodyn cyngor CNC yn amlinellu lle na all cais cynllunio yn nalgylchoedd Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Gwy ac Afon Cleddau ddangos tystiolaeth y byddai'r cynnig datblygu yn arwain at niwtraliaeth neu welliant o ran ffosffad, yn anffodus ni fyddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu cefnogi'r cais ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu'r effaith annerbyniol ar ansawdd dŵr yr afonydd sydd wedi'u dynodi'n sensitif yn ACA.

2.99 Mae'r goblygiadau ar y CDLl Diwygiedig presennol a'r CDLl Diwygiedig datblygol yn sylweddol, a bydd angen dulliau sy'n seiliedig ar atebion er mwyn gwneud

cynnydd. Mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd mor rhagweithiol â phosibl tuag at y mater hwn, yn enwedig gyda golwg ar adnoddau swyddogion a chomisiynu cymorth ymgynghori.

2.100 Fel than o'r ymateb hwn Sir Gaerfyrddin yw'r awdurdod cyntaf a'r unig awdurdod yng Nghymru i fod wedi paratoi a chyflwyno cyfrifydd ffosffad i alluogi datblygwyr/ymgeiswyr ac ati i gyfrifo lefel y ffosffad a gynhyrchir gan ddatblygiad ac felly llunio cynlluniau lliniaru priodol. Caiff hyn yn ei dro ei ategu gan ganllawiau lliniaru manwl ac ati. Ni hefyd oedd y cyntaf i sefydlu a meddu ar Fwrdd Rheoli Maetholion yng Nghymru (ar gyfer Afon Tywi) ac rydym yn aelodau o'r Byrddau Rheoli Maetholion a ffurfiwyd yn ddiweddar hefyd ar gyfer Afonydd Cleddau a Teifi.

2.101 Dylid nodi bod diweddariad pellach wedi'i gyhoeddi y tu allan i'r cyfnod monitro hwn.

**Goblygiadau i'r CDLl**

Mae'r CDLl yn elfen allweddol wrth gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor ac fel y cyfryw bydd yna ofyniad ar gyfer y pwyslais corfforaethol, gan gynnwys buddiannau gwledig. Gyda'r materion a wynebir wrth ganiatáu datblygiadau yn ardaloedd gogleddol / gwledig y Sir o ganlyniad i ganllawiau CNC – mae gan hyn oblygiadau clir nid yn unig o ran cyflawni uchelgeisiau'r CDLl (gan gynnwys safleoedd a ddyrannwyd) ond uchelgeisiau ehangach y Cyngor.

Bydd angen ystyried y mater cymhleth hwn fel rhan o'r CDLl Diwygiedig er mwyn sicrhau bod darpariaethau priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni, tra bod angen nodi mesurau dros dro lle bynnag y bo modd er mwyn caniatáu i gynigion datblygu addas gael eu cefnogi. Yn hollbwysig hefyd, mae angen diogelu ansawdd dŵr ein hafonydd.

## Crynodeb

2.102 Fel y nodir uchod, mae deddfwriaethau newydd a newidiadau i gyd-destunau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro presennol, ac mae gan rai oblygiadau o ran gweithredu'r CDLl yn y dyfodol. Bydd

AMBau yn y dyfodol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

2.103 Bydd cyd-destun priodol yn ffurfio cydran bwysig wrth baratoi'r CDLl diwygiedig, o safbwynt ei bolisïau a'i gynigion neu ddogfennau ategol neu dystiolaeth.

## Cyd-destun Sir Gaerfyrddin

### Dylanwadau Gofodol

2.104 Mae Sir Gaerfyrddin yn Sir amrywiol iawn gyda'r economi amaethyddol a thirwedd yr ardaloedd gwledig yn cyferbynnu ag ardal drefol a diwydiannol y de-ddwyrain. Mae tua 65% o'r boblogaeth yn byw ar 35% o'r tir yn ne a dwyrain y Sir. Y prif ganolfannau trefol yw Llanelli, Rhydaman/Cross Hands a Chaerfyrddin. Mae gan y Sir hefyd nifer o aneddiadau eraill amrywiol eu maint ac mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n arbennig tuag at anghenion a gofynion eu cymuned a'r ardal gyfagos. Mae yma hefyd nifer mawr o bentrefi ac aneddiadau gwledig sy'n hunangynhaliol o ran cyfleusterau a gwasanaethau.

2.105 Mae'r CDLl mabwysiedig yn adeiladu ar nodweddion gofodol ac amrywiaeth y Sir a'i chymunedau ac yn ceisio cryfhau'r patrwm gofodol presennol o aneddiadau.

2.106 Mae'r ffurf ofodol gyfredol a dosbarthiad y ddarpariaeth tai a chyflogaeth yn sgil hynny yn canolbwyntio ar ganolfannau trefol sefydledig Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman/Cross Hands. Mae'r ffocws ar yr aneddiadau hyn fel 'Ardaloedd Twf' dyranedig yn adlewyrchu eu statws a'u rhinweddau o ran cynaliadwyedd a hygyrchedd. Mae i'r Ardaloedd Twf hygyrchedd da drwy gysylltiadau â'r rhwydwaith ffyrdd strategol a'r rhwydweithiau trên, yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus.

2.107 Mae'r rhaniad rhwng yr ardaloedd gwledig a'r rhai trefol yn nodweddiadol o'r amrywiaeth o fewn cymunedau ac aneddiadau, a'u rôl hanesyddol ynghyd â'u rôl i'r dyfodol. Mae hyn yn amlwg yn ardaloedd trefol y de ddwyrain yn bennaf gyda'u hanghenion ôl-ddiwydiannol o ran adfywio. Mae'r heriau sy'n wynebu aneddiadau o'r fath yn aml yn wahanol iawn o ran graddfa i'r heriau a wynebir mewn ardaloedd

gwledig ar ffurf diboblogi a'r diwydiant amaethyddol. Mae hyn oll yn crisialu'r amrywiaeth yng nghymunedau ac aneddiadau Sir Gaerfyrddin o ran cymeriad, graddfa a rôl, ac yn dangos nad yw maint anheddiad bob amser yn adlewyrchu'i rôl.

2.108 Mae cyfoeth amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol Sir Gaerfyrddin yn ystyriaeth ofodol bwysig wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y Sir, yn arbennig o ran y potensial ar gyfer twf a lleoli datblygiadau. Mae'r Sir yn cynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar lefel ryngwladol i amddiffyn a gwella gwerth cadwraeth natur, ynghyd â thirweddau trawiadol a threfi a phentrefi hanesyddol arbennig. Mae'r 27 o ardaloedd cadwraeth, y 366 o Henebion Rhestredig (sy'n amrywio o nodweddion Cynhanesyddol i rai ôl-Ganoloesol/Modern o ddiddordeb hanesyddol diwylliannol) a'r nifer fawr o adeiladau rhestredig yn tystio i bwysigrwydd treftadaeth adeiledig y Sir. Mae yma hefyd nifer o safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd cadwraeth natur a bioamrywiaeth, gan gynnwys 8 Ardal Cadwraeth Arbennig, 3 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 1 safle Ramsar, 90 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 5 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, 5 Gwarchodfa Natur Leol a 7 tirwedd gofrestredig.

# Pennod 3 Dangosyddion Monitro

Mae'r bennod hon yn asesu a yw polisïau strategol y Cynllun, a'r polisïau ategol cysylltiedig, yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac a yw amcanion a strategaeth y CDLl yn cael eu cyflawni. Mae casgliadau priodol a chamau a argymhellir ar gyfer y dyfodol (os oes angen) yn cael eu datgan i roi sylw i unrhyw broblemau gweithredu polisi a ddaw i'r amlwg drwy gyfrwng y broses fonitro.

## Strategaeth Ofodol

**1** **Targed Polisi Monitro: Dylid lleoli 85% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd dyranedig.**

| **Dangosydd** | Canran y caniatadau tai cyffredinol sydd ar safleoedd dyranedig. | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dylid lleoli 85% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir bob blwyddyn ar safleoedd dyranedig. | | | |
| **Sbardun asesu** | Cyfran yr anheddau a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn gwyro 20% +/- oddi wrth y targed a nodwyd. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Roedd 81.0% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig. | Roedd 96.4% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig. | Roedd 92.3% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig. | Roedd 96.1% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig. | **Roedd 89.8% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatawyd wedi'u lleoli ar safleoedd dyranedig** |

**Dadansoddiad:**


Mae'r dangosydd monitro hwn yn mesur nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar safleoedd mawr (h.y. safleoedd o bump neu fwy) yn erbyn a ydynt wedi'u lleoli ar safleoedd a ddyrannwyd neu safleoedd nas dyrannwyd.

- Rhoddwyd caniatâd i gyfanswm o 616 o anheddau yn ystod y cyfnod monitro, ar safleoedd mawr i gyd.
- Roedd 553 o anheddau (89.8%) o'r unedau tai a ganiatawyd ar safleoedd mawr wedi'u lleoli ar safleoedd a ddyrannwyd, a 63 o anheddau (10.2%) ar hapsafleoedd.

- O'r safleoedd hyn a ddyrannwyd, rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 28 o anheddau a rhoddwyd caniatâd materion a gadwyd yn ôl neu ganiatâd llawn ar gyfer 525 o anheddau.
- Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr anheddau a ganiatawyd yn ôl blwyddyn (safleoedd mawr yn unig), mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi gweld cynnydd o'i gymharu â'r llynedd.

| **Cyfanswm yr Anheddau a Ganiatawyd ar Safleoedd Mawr** | |
|---|---|
| 2015-16 | 1269 |
| 2016-17 | 334 |
| 2017-18 | 777 |
| 2018-19 | 737 |
| 2019-20 | 617 |
| 2020-21 | 251 |
| 2021-22 | 802 |
| 2022-23 | 464 |
| 2023-24 | 616 |

- Rhoddwyd caniatâd i 24 o geisiadau ar 21 o safleoedd a ddyrannwyd.
- Rhoddwyd caniatâd i'r nifer mwyaf o unedau ar y safleoedd canlynol: Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 93 o anheddau ar GA1/MU1 (Frondeg, Gorllewin Caerfyrddin); 71 o anheddau ar SC40/h3 (Ffos Las, Carwe), 70 o anheddau ar GA2/h35 (Tir yng Nghefncaeau, Llanelli), 70 o anheddau ar GA3/MU2 (Cam II Parc Emlyn, Penygroes), 64 o anheddau ar T2/5/h5 (Tir i'r gorllewin o'r Stryd Fawr, Sanclêr).




Mae'r graff uchod yn dangos patrwm cyson dros y blynyddoedd diwethaf o ran nifer yr unedau y rhoddwyd caniatâd iddynt ar safleoedd a ddyrannwyd.

**Casgliad:**
Mae'r targed wedi'i gyrraedd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.

## 2 Targed Polisi Monitro: Y cyfrannau canlynol o anheddau i'w caniatáu ar ddyraniadau tai fel a ganlyn:

- **Ardaloedd Twf 62%**
- **Canolfannau Gwasanaeth 10%**
- **Canolfannau Gwasanaethau Lleol 12%**
- **Cymunedau Cynaliadwy 15%**

| **Dangosydd** | | Cyfran y tai a ganiatawyd ar ddyraniadau fesul haen o'r hierarchaeth aneddiadau. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | | Dylai dosbarthiad yr anheddau fod yn unol â'r cyfrannau a nodwyd yn y targed. | | | | |
| **Sbardun asesu** | | Mae dosbarthiad yr anheddau yn yr Ardaloedd Twf, y Canolfannau Gwasanaeth a'r Canolfannau Gwasanaethau Lleol yn gwyro 20% +/- oddi ar y cyfrannau a nodir yn y targed.<br><br>Mae dosbarthiad yr anheddau mewn Cymunedau Cynaliadwy yn gwyro 10% +/- oddi ar y cyfrannau a nodir yn y targed. | | | | |
| **Perfformiad** | | | | | | |
| | | **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| **Targed** | | | | | | |
| Ardaloedd Twf | 62% | 72.0% | 21.9% | **77.3%** | **2.7%** | **62.2%** |
| Canolfannau Gwasanaeth | 10% | 2.8% | 24.8% | **13.5%** | **12.3%** | **13.4%** |
| Canolfannau Gwasanaethau Lleol | 12% | 13.4% | 35.9% | **1.4%** | **41.3%** | **4.5%** |
| Cymunedau Cynaliadwy | 15% | 11.8% | 17.4% | **7.8%** | **43.7%** | **19.9%** |

**Dadansoddiad**

Mae'r dosbarthiad yr unedau a ganiatawyd ar ddyraniadau yn ôl hierarchaeth aneddiadau wedi bod yn unol â'r targedau a bennwyd (gan gynnwys y gwyriad a oddefir) yn ystod y cyfnod monitro diwethaf hwn.

**Ardaloedd Twf**

Mae 344 o anheddau sydd wedi'u caniatáu ar 11 safle drwy gydol y cyfnod monitro.

**Canolfannau Gwasanaeth**

Rhoddwyd caniatâd i 74 o anheddau mewn Canolfannau Gwasanaethau ar 2 safle.

| |
|---|
| **Canolfannau Gwasanaethau Lleol**<br>Rhoddwyd caniatâd i 25 o anheddau mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol ar 3 safle.<br><br>**Cymunedau Cynaliadwy**<br>Rhoddwyd caniatâd i 110 o anheddau mewn Cymunedau Cynaliadwy ar 7 safle. |
| **Casgliad:**<br>Mae'r targed wedi'i gyrraedd. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. |

## 3. Targed Polisi Monitro: Cyflymu argaeledd safleoedd cyflogaeth strategol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Caniatadau ar gyfer, neu argaeledd, seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig sy'n hwyluso'r gwaith o gyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol (hectarau) fel y rhestrir ym Mholisi SP4. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Erbyn 2018, bernir y bydd yr holl safleoedd cyflogaeth strategol ar gael yn syth neu ar gael yn y tymor byr h.y. bydd y safleoedd naill ai'n cael budd o ganiatâd cynllunio neu argaeledd seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig i hwyluso datblygu. | | | |
| **Sbardun asesu** | Erbyn 2018, nid yw'r holl safleoedd cyflogaeth strategol ar gael yn syth neu ar gael yn y tymor byr. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| | | | | |

**Dadansoddiad:**
Mae tri safle cyflogaeth strategol penodol wedi cael eu datgan yn y CDLl (Polisi SP4):
Dafen, Llanelli
Dwyrain Cross Hands
Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands

Mae cyfanswm y tir sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer y tri safle hyn yn 40.9 o hectarau. Er nad yw pob elfen o bob safle cyflogaeth strategol wedi cael caniatâd cynllunio, gwnaed cynnydd clir tuag at gyflawni'r tri safle hyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Er nad yw targed y polisi wedi'i gyrraedd yn fanwl gywir fel y rhagwelwyd, nid yw'n arwain at bryderon ynglŷn â chyflawni'r elfennau sy'n weddill o'r safleoedd yn y dyfodol. Cyfeirir hefyd at GA2/MU9 – Llynnoedd Delta sy'n rhan o Barth Strategol De Llanelli ac mae wedi'i ddatgan fel elfen allweddol o ddarparu rhan o'r Weledigaeth ar gyfer y Fargen Ddinesig – Rhyngrwyd o Wyddorau Bywyd a Llesiant. Bydd y prosiect arloesol a blaenllaw hwn sy'n arwain y sector, o'r enw Pentre Awel, yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth, adfywio a datblygu ar y safle, gan ysgogi cyflawniad a thwf economaidd yn yr ardal (gweler Bargen Ddinesig Bae Abertawe, isod).

**Dafen, Llanelli**
Mae Caniatâd Cynllunio Llawn wedi'i ddyfarnu ar gyfer cyfleuster Ambiwlans Awyr, gan gynnwys swyddfa, fel rhan o'r safle, yn cymryd 1.87 o hectarau. Mae hyn wedi cael ei gwblhau ac mae'r safle'n gwbl weithredol.
Mae Caniatâd Cynllunio Llawn wedi'i roi ar gyfer adeiladu Dalfa Sir Gaerfyrddin a Gorsaf Heddlu Llanelli a gwaith cysylltiedig, ar ran o'r dyraniad, yn cymryd 1.90 o hectarau.
Mae'r rhannau heb eu datblygu sy'n weddill o'r safle wedi'u lleoli naill ai rhwng neu gerllaw'r elfennau adeiledig presennol ac felly gallent elwa ar seilwaith cysylltiedig a ffyrdd mynediad presennol.

**Dwyrain Cross Hands**

Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar y safle cyfan (19 Ha) ar gyfer datblygiad arfaethedig parc diwydiannol, gan gynnwys datblygu busnes & unedau diwydiannol (dosbarthiadau defnydd B1 & B8), swyddfeydd unedau deori busnes, gwesty, canolbwynt canolog busnes, canolfan adnoddau, canolfan ynni, gofod gwyrdd canolog, parcdir. Mae caniatâd materion a gedwir yn ôl ar gyfer y caniatâd amlinellol gwreiddiol wedi cael ei ddyfarnu wedyn, gan alluogi datblygu'r ffordd fynediad fewnol, seilwaith a datblygu llwyfandiroedd plot. Mae'r safle'n cynnwys cyfanswm o 17 o leiniau datblygu dros ddau gam, a chaiff ei reoli gan Fenter ar y Cyd Cross Hands, sef partneriaeth rhwng y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o gynllunio'r plot a'r ffordd, a seilwaith cysylltiedig Cam 1, eisoes wedi'i gyflawni. Derbyniwyd mynegiannau o ddiddordeb i ddatblygu safleoedd trwy Gronfa Datblygu Eiddo y Cyngor ei hun. Mae'r Cyngor hefyd yn paratoi cynllun hunan adeiladu posibl ar gyfer y prif blot porth, a all wneud defnydd o unrhyw gyfleoedd cyllido a allai ddod ar gael.
Mae'r safle'n cael ei nodi fel safle strategol o fewn Dinas-ranbarth Bae Abertawe a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a chafwyd sicrwydd o hyd at £2.4 miliwn i ddatblygu seilwaith Cam 2 fel rhan o raglen Safle Strategol Llywodraeth Cymru. Mae Cam 2 yn cynnwys sawl plot mwy o faint ynghyd â'r ffyrdd safle a'r seilwaith gwasanaethau sy'n weddill.
Mae'r gwaith o baratoi Gorchymyn Datblygu Lleol (LDO) i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r safle wedi darfod cyn ei gwblhau; fodd bynnag, bydd y wybodaeth a gafwyd yn ystod y gwaith paratoi (mewn perthynas â gwaith o'r fath ar asesiadau ecolegol a phriffyrdd, a chanllawiau dylunio) ar gael i gefnogi ceisiadau cynllunio ar y safle yn y dyfodol.

**Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands**
Dyfarnwyd caniatâd ar gyfer Gwaith Prosesu Bwyd ar gyfran o'r dyraniad i'r de orllewin o Castell Howell Foods. Mae 'Celtica Foods', rhan o Castell Howell, yn brosiect ehangu gwerth miliynau o bunnoedd a fydd yn rhoi pwyslais ar frand cig Cymreig y cwmni, 'Celtic Pride'. Mae'r safle hwn ar 2.09 o hectarau ac mae'r uned wedi'i chwblhau a'r gweithrediadau wedi dechrau. Mae rhan o'r safle'n ofod gwyrdd a gynorthwyir gyda photensial ar gyfer ehangu'r gweithrediadau yn y dyfodol. Mae'r caniatâd arall ar gyfer rhan gogledd orllewin y dyraniad (ar 2.35 o hectarau) ac mae ar gyfer adeilad diwydiannol graddio bwyd unllawr gyda swyddfa ddeulawr gysylltiedig, iard wasanaethu a maes parcio y tu allan. Mae'r rhain wedi cael eu hadeiladu eisoes hefyd. Mae rhagor o ofod ar gael ar gyfer ehangu ar dir yn y caniatâd cynllunio - mae ffordd gefn stad eisoes yn gwasanaethu pen gogleddol y safle. O ganlyniad, mae cyfanswm elfennau'r dyraniad cyflogaeth hwn sydd wedi cael eu darparu yn 4.44 o hectarau.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe:**
Dylid edrych ar ddatblygiad y safleoedd strategol yn y dyfodol, ac yn wir ar ddatblygiad economaidd y Sir yn y dyfodol, yng nghyd-destun yr isranbarth ehangach lle llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn ddiweddar, gan sicrhau £1.3 biliwn ar gyfer cynghorau Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Rhagwelir y bydd y Fargen Ddinesig yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn cynnig hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol, ac yn creu bron i 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.

Bydd y Fargen yn arwain at dri phrosiect penodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd ar Safle Strategol Llynnoedd Delta (GA2/MU9), Llanelli (Pentre Awel); prosiect y diwydiannau creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin; a menter sgiliau a thalentau a fydd yn cefnogi datblygu sgiliau. Nod y prosiect gwerth £200 miliwn yn Llynnoedd Delta yw creu mwy na 1800 o swyddi o ansawdd uchel a rhoi hwb o fwy na £400 miliwn i'r economi dros gyfnod o 15 o flynyddoedd. Bydd hwn a'r ddau brosiect arall o fudd i'r Sir yn gyffredinol a dylent helpu gyda denu rhagor o fuddsoddiad yn y dyfodol.

| |
|---|
| **Casgliad:**<br>Mae cynnydd cryf wedi'i wneud wrth gyflawni'r 3 safle cyflogaeth strategol.<br>Mae'r ymrwymiad i'r Fargen Ddinesig a chynnydd partneriaid wrth ddatblygu cynigion mewn perthynas â'r Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn rhoi arwydd cryf fod safle Llynnoedd Delta yn cael ei gyflawni ac yn rhoi hyder ynddo. Yn hyn o beth, mae gan y safle ganiatâd i godi lefelau sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd a rhoddwyd caniatâd ar gyfer cais cynllunio amlinellol a gyflwynwyd ar gyfer y cynllun cyfan, a elwir bellach yn Pentre Awel, ym mis Awst 2019.<br>Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r prosiect diwydiant creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin ym mis Hydref 2016 ac mae wedi'i gwblhau'n rhannol, gyda rhai elfennau ar waith. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.<br><br>Cynnal a pharhau ag integreiddiad cryf y CDLl ac amcanion adfywio wrth sbarduno buddsoddiad a chyflawni. |


## Datblygu Cynaliadwy

**4 Targed Polisi Monitro: Erbyn 2021 caiff 32% o’r datblygiadau ar ddyraniadau tai eu cyflenwi ar safleoedd a ddatblygwyd o’r blaen.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Caniatâd ar gyfer datblygiadau preswyl ar ddyraniadau tai a ddatblygwyd o’r blaen. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dylai 29% o’r anheddau a ganiatawyd ar safleoedd dyranedig fod ar ddyraniadau a ddatblygwyd o’r blaen.<br><br>Cesglir gwybodaeth yn flynyddol. Mae’r ffigur monitro blynyddol uchod yn rhoi ystyriaeth i nifer yr anheddau a gwblhawyd eisoes ar safleoedd dyranedig a ddatblygwyd o’r blaen. | | | |
| **Sbardun asesu** | Caniateir llai na 29% (gydag amrywiant ychwanegol o 20% o dan y ffigur targed i ganiatáu am hyblygrwydd) o anheddau trwy ddyraniadau tai ar dir a ddatblygwyd o’r blaen. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Mae 58.4% o anheddau a ganiatawyd ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd o’r blaen. | Mae 18.6% o anheddau a ganiatawyd ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd o’r blaen. | Mae 37.5% o anheddau a ganiatawyd ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd o’r blaen. | Mae 34.5% o anheddau a ganiatawyd ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd o’r blaen. | **Mae 35.6% o anheddau a ganiatawyd ar ddyraniadau tai wedi'u caniatáu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol.** |

**Dadansoddiad:**

Mae canran yr anheddau a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd o’r blaen yn unol â'r targed a osodwyd. Mae'r graff ar y dde yn dangos y patrwm dros y blynyddoedd ers mabwysiadu'r CDLl.



| |
|---|
| **Casgliad:**<br>Parhau i fonitro. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.  Cyfeirir at baratoi'r CDLl Diwygiedig. |

## 5 Targed Polisi Monitro: Ni ddylai unrhyw ddatblygiad hynod agored i niwed ddigwydd ym mharth perygl llifogydd C1 a C2 yn groes i ganllawiau PPW a TAN15

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Nid yw nifer y datblygiadau sy'n agored iawn i niwed (yn unol â chategori datblygu paragraff 5.1 TAN15) a ganiateir mewn parthau perygl llifogydd C1 ac C2 yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.2 i-v). |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Ni chaniateir unrhyw geisiadau ar gyfer datblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 ac C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| **Sbardun asesu** | 1 cais wedi'i ganiatáu ar gyfer datblygiad sy'n agored iawn i niwed mewn parth perygl llifogydd C1 neu C2, yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>Noder: Bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfeirio'r holl geisiadau mae'n bwriadu eu cymeradwyo ar gyfer datblygu gwasanaethau brys neu ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed, lle bo'r holl dir lle bwriedir lleoli'r datblygiad mewn parth llifogydd C2, i Weinidogion Cymru. Ynachos datblygiad preswyl, y trothwy ar gyfer rhoi gwybod i Weinidogion Cymru yw 10 annedd neu fwy, gan gynnwys fflatiau. |

| **Perfformiad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 neu C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 neu C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 neu C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am ddatblygiadau sy'n agored iawn i niwed mewn parthau perygl llifogydd C1 neu C2 yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. | **Caniatawyd un cais lle'r oedd CNC wedi codi pryderon a gwrthwynebu'r cais.** |

**Dadansoddiad:**
Mae cais cynllunio, cyfeirnod PL/04067 wedi cael caniatâd ar gyfer 14 o anheddau fforddiadwy lle'r oedd CNC wedi codi pryder ac o ganlyniad wedi gwrthwynebu iddo. Roedd y gwrthwynebiad hwn "oherwydd bod yna ardal o berygl llifogydd o ran o'r safle ar hyd ac yn agos i'r ffin ddeheuol sydd wedi'i lleoli o fewn Parth Llifogydd DAM C2, sy'n cynnwys y llwybr mynediad i'r safle datblygu." Wrth ystyried y cais cynllunio, cydnabuwyd bod TAN15 yn cyfleu na chaiff unrhyw ddatblygiad preswyl ei awdurdodi mewn ardaloedd llifogydd C2, ar sail diogelu datblygiadau hynod agored i niwed, yn y cais hwn nid oes anheddau arfaethedig i'w lleoli o fewn y parth llifogydd C2.

Mae dyfyniad o Adroddiad y Pwyllgor yn nodi fel a ganlyn: "ystyrir bod yna reswm hanfodol yn achos Llanymddyfri ar sail yr angen am ddarparu tai fforddiadwy, ac er y cydnabyddir bod llifogydd yn effeithio ar ran o'r safle (y fynedfa) ac felly gall rwystro mynediad, ystyrir bod mesurau lliniaru addas ar ffurf cynlluniau rheoli llifogydd wedi'u cyflwyno sydd, o'u cydbwyso yn erbyn yr angen brys am dai fforddiadwy yn yr ardal, yn gyfaddawd addas i liniaru'r risg yn ddigonol i breswylwyr yr eiddo."

Er nad yw'r dangosydd wedi'i fodloni, mae'r rhesymau a eglurir uchod yn cyfiawnhau'r gymeradwyaeth sy'n groes i gyngor CNC.

| |
|---|
| **Casgliad:**<br>Mae'r targed wedi'i gyrraedd. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018. |

## 6 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar Systemau Draenio Cynaliadwy

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu CCA ar Systemau Draenio Cynaliadwy. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | |
| **Sbardun asesu** | CCA heb eu cynhyrchu o fewn 5 mis i fabwysiadu'r Cynllun. |
| **Perfformiad** | |
| | |
| **Targed wedi'i gwblhau – CCA wedi'u mabwysiadu** | |
| **Dadansoddiad:**<br>Cafodd y CCA ar Greu a Dylunio Lleoedd ei fabwysiadu ym mis Medi 2016. Mae'r CCA hwn yn trafod dulliau gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy mewn dull seilwaith gwyrdd cyffredinol o weithredu. Gellir gweld y CCA ar wefan y Cyngor neu drwy glicio ar y ddolen uchod. | |
| **Casgliad:**<br>Y targed wedi'i gyrraedd. | |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei ddiweddaru fel sy'n briodol i ymateb i weithrediad Atodlen 3 – sy'n orfodol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar ddatblygiadau newydd. | |

# Tai

## 7 Targed Polisi Monitro: Cynnal cyflenwad o dir tai am o leiaf 5 mlynedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Y cyflenwad o dir tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol (TAN 1). | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Cynnal cyflenwad o dir tai am o leiaf 5 mlynedd. | | | |
| **Sbardun asesu** | Cyflenwad y tir tai yn disgyn yn is na'r gofyniad 5 mlynedd. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | **Amherthnasol** |

**Dadansoddiad:**

Mae Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai wedi cael ei ddirymu gan Lywodraeth Cymru, ac o ganlyniad nid yw'n ofynnol bellach i Awdurdodau Lleol gynhyrchu Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS). Bydd Awdurdodau Lleol yn awr yn adrodd am ddarparu tai yn eu Hadroddiadau Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 yn nodi'r fframwaith monitro newydd ar gyfer darparu tai. Tra bod y ffocws ar integreiddio taflwybrau tai i mewn i Gynlluniau Datblygu Lleol Diwygiedig, darperir canllawiau hefyd ar gyfer monitro'r ddarpariaeth tai ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol gyda CDLl mabwysiedig cyn cyhoeddi'r Llawlyfr (gweler paragraff 8.15 o'r Llawlyfr).


**Taflwybr Tai 2024**

Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol sydd â CDLl mabwysiedig cyn cyhoeddi'r Llawlyfr, mae'n ofynnol creu taflwybr tai sy'n seiliedig ar y gwir nifer a gwblhawyd hyd yma. Dylai'r taflwybr hefyd nodi amseriad a chamau'r safleoedd yn y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y cynllun. Er bod disgwyl yn wreiddiol i'r CDLl ddod i ben ym mis Rhagfyr 2021, nid yw hyn yn wir mwyach a bydd yn dod i ben pan fydd y CDLl Diwygiedig yn ei ddisodli. Er mwyn creu taflwybr, gan fod cyfnod y cynllun wedi dod i ben, mae cyfnod y taflwybr tai wedi'i ymestyn i ddangos cyfnod o bum mlynedd.

| | **Nifer a Gwblhawyd (Safleoedd Mawr)** | **Yn cael eu hadeiladu** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **270** | **180** |

Mae'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo (a gyhoeddwyd i ymgynghori yn ei gylch yn 2023) wedi'i ddefnyddio i lywio'r taflwybr hwn; fodd bynnag, dylid nodi nad yw nifer o'r safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn nhaflwybr tai'r AMB hwn yn ymddangos yn nhaflwybr y CDLl Diwygiedig gan eu bod wedi'u dileu fel dyraniadau. I'r gwrthwyneb, nid yw safleoedd newydd y CDLl Diwygiedig yn rhan o daflwybr tai'r AMB hwn gan nad oes ganddynt statws cynllunio ar hyn o bryd.

Mae'r graff canlynol (Ffigur 1) yn dangos y taflwybr tai. Mae rhai elfennau o fanylion y graff i'w gweld yn Atodiad 2 sy'n rhestru'r safleoedd mawr a phryd y disgwylir cyflawni'r safleoedd hyn.




Fel y gwelir o'r graff uchod, mae nifer yr anheddau a gwblhawyd wedi gostwng yn gyson is na'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Mewn AMBau blaenorol, nid yw'r cyflenwad pum mlynedd wedi'i fodloni ac mae rhesymau wedi'u rhoi am hyn ac mae'n parhau i fod yn berthnasol i'r ffaith fod nifer yr anheddau a gwblhawyd wedi gostwng yn sylweddol is na'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Bu gostyngiad yn nifer yr anheddau a gwblhawyd, ar safleoedd mawr a bach. Ni ellir ond dyfalu am y rhesymau dros y gostyngiad, ond gallent gynnwys yr argyfwng costau byw, nifer y safleoedd sydd ar gael a'r ffaith bod y CDLl mabwysiedig bellach wedi mynd heibio i'w ddyddiad gorffen, neu hyd yn oed ôl-effeithiau pandemig COVID-19.

| Taflwybr Tai | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2007-08** | **2008-09** | **2009-10** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** |
| **Safleoedd Mawr a Gwblhawyd mewn Gwirionedd** | 647 | 263 | 300 | 563 | 276 | 317 | 379 | 429 | 516 | 426 | 406 | 277 | 607 | 399 | 365 | 144 | 270 | | | | | |
| **Safleoedd Bach a Gwblhawyd mewn Gwirionedd** | 74 | 74 | 74 | 74 | 74 | 74 | 74 | 74 | 92 | 92 | 105 | 117 | 103* | 104* | 125 | 85 | 59 | | | | | |
| **Rhagolwg o'r Safleoedd Mawr a Gwblheir** | | | | | | | | | | | | | | | | | | 395 | 664 | 839 | 834 | 557 |
| **Rhagolwg o'r Safleoedd Bach a Gwblheir** | | | | | | | | | | | | | | | | | | 74 | 74 | 74 | 74 | 74 |
| **Gofyniad Blynyddol Cyfartalog** | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 | 1013 |
| **Cyfanswm a Gwblhawyd** | **721** | **337** | **374** | **637** | **350** | **391** | **453** | **503** | **608** | **518** | **511** | **394** | **710** | **503** | **490** | **229** | **329** | **469** | **738** | **913** | **908** | **631** |

*Cwblhawyd cyfanswm o 207 o anheddau yng nghyfnod 2019-21, felly mae'r ffigur hwn wedi'i rannu rhwng y ddau gyfnod monitro.

**Casgliad:**
Nid yw'r targed o gyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai wedi'i gyrraedd mewn AMBau blaenorol, ac fel y dangosir uchod, mae'r duedd o fod nifer y tai sy'n cael eu cwblhau yn gostwng yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol yn parhau. Dylid cyfeirio hefyd at argymhellion a chasgliadau'r AMB hwn.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at baratoi'r ail CDLl Diwygiedig Adneuo.

## 8 Targed Polisi Monitro: Darparu 15,197 o anheddau erbyn 2021

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr anheddau a ganiateir yn flynyddol. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Caniatáu 1,405 o anheddau'n flynyddol. |
| **Sbardun asesu** | Caniatáu 20% +/- 2,810 o anheddau yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. |

| **Perfformiad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| 795 o anheddau | 381 o anheddau | 995 o anheddau | **651 o anheddau** | **740 o anheddau** |

**Dadansoddiad:**

Nifer yr anheddau a ganiatawyd ar safleoedd mawr (>5 uned) oedd 616. Mae hyn yn cynnwys 28 o anheddau a gafodd ganiatâd amlinellol, a 525 o anheddau a gafodd ganiatâd materion a gadwyd yn ôl neu ganiatâd cynllunio llawn. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ar safleoedd bach oedd 124.

**Casgliad:**
Gyda golwg ar y Sbardun Asesu, sydd ond wedi'i fodloni ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun, mae nifer yr anheddau a ganiatawyd y tu allan i'r lwfans trothwy o 20%.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Bydd materion sy'n ymwneud â chyflawni safleoedd yn cael eu hystyried fel rhan o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.

## **9** Targed Polisi Monitro: Darparu 2,375 o anheddau ar hap-safleoedd erbyn 2021

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr anheddau a ganiateir ar hap-safleoedd. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Caniatáu 186 o anheddau’n flynyddol ar hap-safleoedd. |
| **Sbardun asesu** | Caniatáu 20% +/- 372 o anheddau ar hap-safleoedd yn ystod y 2 flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu’r Cynllun. |

| **Perfformiad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| **295 o anheddau** | **139 o anheddau** | **255 o anheddau** | **205 o anheddau** | **187 o anheddau** |

**Dadansoddiad:**
Rhoddwyd caniatâd i 187 annedd ar hap-safleoedd, rhoddwyd caniatâd i 63 annedd ar hap-safleoedd mawr (safleoedd >5 annedd), ar 6 safle. Rhoddwyd caniatâd i 124 o anheddau ar safleoedd bach o <5 annedd.

Mae'r achosion o roi caniatâd ar hap-safleoedd wedi bod yn gostwng yn raddol ers mabwysiadu'r CDLl. Gall hyn fod oherwydd y gostyngiad yn nifer y safleoedd a etifeddwyd o'r CDU gyda chaniatâd dilys yn cael ei gyflwyno. Mae'r caniatâd a roddwyd ar safleoedd bach yn amrywio ychydig o'r AMB cyntaf, ond mae'n parhau i fod yn weddol gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf: 199 (AMB 1); 199 (2017); 187 (2018) 129 (2019); 178 (2020); 130 (2021); 193 (2022); 187 (2023); 124 (2024).

**Casgliad:**
Mae canlyniadau'r cyfnod AMB hwn yn dangos fod nifer yr hap-safleoedd a ganiateir wedi parhau i ostwng yn gyffredinol. Gall hyn fod oherwydd y gostyngiad yn nifer y safleoedd hanesyddol a etifeddwyd o'r CDU gyda chaniatâd dilys yn cael ei gyflwyno.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.

## 10 Targed Polisi Monitro: Darparu safle Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen dynodedig yn ardal Llanelli

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y lleiniau Sipsiwn a Theithwyr gofynnol. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Canfod safle Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen dynodedig yn ardal Llanelli erbyn 2016.<br>Darparu safle Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen dynodedig yn ardal Llanelli erbyn 2017. | | | |
| **Sbardun asesu** | Methu canfod safle erbyn 2016.<br><br>Methu darparu safle erbyn 2017. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| | | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r CDLl Diwygiedig Adneuo a gyhoeddwyd yn 2020 yn nodi dau safle yn y Llanelli y bwriedir eu dyrannu. Yn gyntaf, cyfeirnod safle PrC1/GT1 Tir ym Mhenyfan, Trostre, ac yn ail PrC1/GT2, fel estyniad i safle Penybryn yn y Bynea.

Mae'r safleoedd hyn wedi parhau yn y ail CDLl Diwygiedig Adneuo a gyflwynwyd i ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2023. Er mwyn helpu i nodi safleoedd newydd yn Sir Gaerfyrddin, mae'r Cyngor wedi gwneud datganiad sefyllfa fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr archwiliad o'r CDLl Diwygiedig. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r amserlen ar gyfer cynnal Astudiaeth wedi'i diweddaru o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, ers ei chyhoeddi mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno hysbysiad i adolygu Methodoleg Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Bydd yr ystyriaethau hyn yn cael eu trafod fel rhan o'r archwiliad.

Er gwaethaf y wybodaeth uchod, gellir ystyried y safleoedd a amlygir yn y CDLl Diwygiedig Adneuo gwreiddiol yn erbyn Polisi H7 y CDLl mabwysiedig, sy'n darparu polisi seiliedig ar feini prawf ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

**Casgliad:**

I'w ystyried yn yr archwiliad o'r CDLl Diwygiedig ym mis Hydref 2024.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Bydd darparu a nodi safle yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

## 11 Targed Polisi Monitro: Monitro'r angen am safleoedd tramwy i Sipsiwn a Theithwyr

| **Dangosydd** | Nifer blynyddol y carafanau Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig ac anawdurdodedig yn y sir. | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dim safle Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gofnodi mewn un anheddiad am 3 blynedd yn olynol | | | |
| **Sbardun asesu** | 1 safle Sipsiwn a Theithwyr anawdurdodedig wedi'i gofnodi mewn un anheddiad am 3 blynedd yn olynol | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| | | | | |

**Dadansoddiad:**

Ailgychwynnodd data chwemisol StatsCymru ym mis Gorffennaf 2021, gyda'r cyhoeddiad diweddaraf ym mis Ionawr 2024. Yn ystod y cyfrif carafanau ar gyfer Ionawr 2024, roedd cyfanswm o 13 carafán ar safleoedd anawdurdodedig (goddefir), a dwy garafán arall ar safleoedd anawdurdodedig (nas goddefir) o fewn y Sir.

Nid oes llawer o wybodaeth i awgrymu bod angen safle tramwy ar hyn o bryd o ystyried bod y safleoedd anawdurdodedig yn safleoedd hanesyddol ac nad ydynt yn hysbys i'r rhai hynny wrth dramwyo. Fel yr amlygwyd yn Ddangosydd 10, bydd y Cyngor yn ymgymryd â GTANA diwygiedig, yn ddarostyngedig i fethodoleg ddiweddaraf Llywodraeth Cymru, a fydd yn ystyried yr angen am safleoedd tramwy yn Sir Gaerfyrddin.

**Casgliad:**

Argymhellir yn y cam hwn nad oes angen darparu safle tramwy yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chydweithwyr yn yr Adran Tai yn parhau i fonitro nifer y gwersylloedd anawdurdodedig yn y sir, gan gynnwys eu lleoliad ac a yw grŵp teuluol unigol yn byw'n gyson mewn lleoliad penodol.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.

## 12 Polisi Monitro Targed: Caniatáu 2,121 o anheddau fforddiadwy erbyn 2021

| **Dangosydd** | Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir. | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Caniatáu 226 o anheddau fforddiadwy yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.<br>Caniatáu 452 o anheddau yn ystod y 2 flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. | | | |
| **Sbardun asesu** | Peidio â chaniatáu 20% +/- 452 o anheddau fforddiadwy yn ystod y 2 flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| 171 uned | 84.8 uned | 204.5 uned | 107.4 uned | 186.2 uned |

**Dadansoddiad:**

| **Dyraniadau Tai** | |
|---|---|
| **Math o Ganiatâd** | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy 2023/24** |
| Caniatâd Amlinellol (gyda rhifau dangosol) | 6.4 |
| Caniatâd Amlinellol (gyda rhifau wedi'u pennu) | 8 |
| Caniatâd Cynllunio Llawn a Materion a Gadwyd yn Ôl | 141.8 |
| **Cyfanswm** | **156.2** |

| **Hap-safleoedd (safleoedd mawr)** | |
|---|---|
| **Math o Ganiatâd** | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy 2023/24** |
| Caniatâd Amlinellol (gyda rhifau dangosol) | 0 |
| Caniatâd Amlinellol (gyda rhifau wedi'u pennu) | 8 |
| Caniatâd Cynllunio Llawn a Materion a Gadwyd yn Ôl | 18 |
| **Cyfanswm** | **26** |

| Hap-safleoedd (safleoedd bach) | |
|---|---|
| **Math o Ganiatâd** | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy 2023/24** |
| Gweithiwr Allweddol / Anheddau Menter Wledig / Gwaith Byw / Datblygiad Un Blaned | 1 Annedd Amaethyddol |
| Angen Lleol | 3 Annedd Angen Lleol |
| Annedd Fforddiadwy | 0 Annedd Fforddiadwy |
| **Cyfanswm** | **4 o anheddau** |

| | **Nifer yr Unedau Fforddiadwy 2023/24** |
|---|---|
| Caniatâd Amlinellol neu Ganiatâd Manwl gydag ymgymeriad unochrog ar gyfer tai fforddiadwy (£ fesul metr sgwâr) | 33 o anheddau o fewn 22 achos o ganiatâd cynllunio amlinellol |
| Achosion o Ganiatâd Amlinellol gyda Swm Cyfnewid y cytunwyd arno arno | Dim |
| Caniatâd Cynllunio Llawn neu Ganiatâd Materion a Gadwyd yn Ôl gyda swm cyfnewid wedi'i dalu / i'w dalu | £591,833. o fewn 42 o geisiadau |

**Safleoedd Mawr**
Mae'r cyfnod AMB hwn wedi gweld cynnydd yn nifer yr unedau fforddiadwy yn cael caniatâd o fewn safleoedd a ddyrannwyd gan y CDLl ac ar hap-safleoedd mawr.

Mae'r unedau fforddiadwy a ganiateir wedi'u lleoli ar draws ardaloedd twf a gwasanaethau. Darperir gwybodaeth o fewn dangosydd 14 ar gyfer safleoedd dyranedig tra bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar safle yn Llanymddyfri ar gyfer 14 uned fforddiadwy. Dyma'r caniatâd cyntaf yn Llanymddyfri, Llandeilo a Gogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin am nifer o flynyddoedd.

| |
|---|
| **Safleoedd Bach**<br>Mae nifer yr anheddau a gymeradwywyd gyda chaniatâd amlinellol wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol o 32 i 33 o anheddau. Nid oes unrhyw geisiadau amlinellol gyda swm cyfnewid y cytunwyd arno.<br><br>Ar gyfer caniatâd cynllunio llawn a cheisiadau Materion a Gadwyd yn Ôl rydym wedi gweld £591,833 yn cael eu sicrhau o fewn 42 cais. Dros gyfnod monitro'r CDLl cyfan ers 2015/2016 mae'r ffigur o fewn yr AMB hwn yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol. |
| **Casgliad:**<br><br>Wrth edrych ar y niferoedd cyffredinol o fewn y dangosyddion tai fforddiadwy o fewn yr AMB hwn, mae lefel y Tai Fforddiadwy a gyflawnir yn gyson o gwmpas y targed tai fforddiadwy a bennir ym Mholisi AH1 y CDLl.<br><br>Gan fod y CDLl bellach yn ei flynyddoedd olaf, bydd nifer yr hap-safleoedd sy'n dod ymlaen yn gostwng; fodd bynnag, rydym wedi gweld safleoedd gerllaw terfynau datblygu yn dod ymlaen gyda chaniatâd. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br><br>Mae'r Adain Polisi Strategol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewnol o'r adran Adfywio a Pholisi a'r adran Tai i helpu i farchnata a gwerthu safle sy'n eiddo i'r Cyngor sydd â'r potensial ar gyfer tai fforddiadwy ychwanegol.<br><br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus, ac mae gwaith hyfywedd pellach yn cael ei wneud fel rhan o'r CDLl Diwygiedig. |

## 13 Targed Polisi Monitro: Targedau Tai Fforddiadwy i adlewyrchu amgylchiadau'r economaidd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Targed canrannol o ran tai fforddiadwy ym Mholisi AH1. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Y targed i adlewyrchu amgylchiadau economaidd | | | |
| **Sbardun asesu** | Os yw prisiau tai cyfartalog yn codi 5% yn uwch na phris sylfaen lefelau 2013 a'u cynnal dros 2 chwarter, gall yr Awdurdod gynnal profion hyfywedd ychwanegol ac addasu'r targedau a bennwyd ym Mholisi AH1. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| | | | | |

**Dadansoddiad:**

| | Seiliedig ar werthiant yn unig | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymedr | Chwartel Is | Chwarter Uwch | 90ain canradd |
| Ebrill 2023 | £210,231 | £129,815 | £266,166 | £367,833 |
| Mai 2023 | £210,109 | £129,500 | £260,816 | £376,333 |
| Mehefin 2023 | £212,741 | £132,166 | £256,650 | £378,000 |
| Gorffennaf 2023 | £210,616 | £128,833 | £246,150 | £372,833 |
| Awst 2023 | £215,747 | £131,000 | £254,500 | £376,000 |
| Medi 2023 | £210,929 | £128,166 | £254,500 | £357,666 |
| Hydref 2023 | £210,917 | £133,166 | £256,666 | £354,150 |
| Tachwedd 2023 | £204,262 | £130,500 | £249,166 | £344,983 |
| Rhagfyr 2023 | £201,867 | £131,666 | £244,500 | £344,316 |
| Ionawr 2024 | £203,520 | £132,333 | £249,483 | £337,666 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Chwefror 2024** | £204,855 | £129,666 | £251,983 | £329,333 |
| **Mawrth 2024** | £217,819 | £141,333 | £264,983 | £344,666 |

Mae'r tabl uchod yn nodi'r gwerthoedd gwerthu cyfartalog bob mis ers dechrau'r cyfnod AMB hwn. Y gwerth cymedrig ym mis Ebrill 2023 oedd £210,231, ac er i ni weld gwerth cymedrig cyson hyd at fis Hydref roedd gostyngiad o tua 3-4% rhwng Tachwedd 2023 a Chwefror 2024. Cododd y gwerth cymedrig yn sylweddol ar gyfer mis Mawrth 2024. Wrth gymharu'r data â'r flwyddyn flaenorol mae'r duedd yn llawer is yng nghyfnod yr AMB presennol.

**Casgliad:**

Mae gwerthoedd y gwerthiannau yng nghyfnod 2023/2024 yn rhoi darlun amrywiol. Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad hyfywedd lefel uchel ledled y sir fel rhan o'i dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig sydd wedi bwydo i mewn i'r targedau tai fforddiadwy arfaethedig o dan bolisi AHOM1. Bydd y dystiolaeth hon yn rhan o'r drafodaeth yn yr archwiliad o'r CDLl Diwygiedig ym mis Hydref 2024.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Parhau i fonitro tystiolaeth ystadegol amrywiol sy'n gysylltiedig â phrisiau tai a fydd yn bwydo i'r CDLl diwygiedig.

## 14 Targed Polisi Monitro: Anheddau fforddiadwy i'w caniatáu ar ddyraniadau tai i bob ardal is-farchnad fel a ganlyn:

- **Llanymddyfri, Llandeilo a Gogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin**
- **Sanclêr a'r Ardaloedd Gwledig o'i Chwmpas**
- **Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig**
- **Castellnewydd Emlyn a'r Ardal Wledig Ogleddol**
- **Cydweli, Porth Tywyn, Pen-bre a Chwm Gwendraeth Isaf**
- **Llanelli**
- **Rhydaman / Cross Hands a Dyffryn Aman**

| **Dangosydd** | Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir ar ddyraniadau tai i bob ardal is-farchnad. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dylai cyfran yr anheddau fforddiadwy a ganiateir ar ddyraniadau preswyl fod yn unol â Pholisi AH1 fel a ganlyn: | | | | |
| **Sbardun asesu** | Cyfran yr anheddau fforddiadwy a ganiateir ar ddyraniadau preswyl nad ydynt yn unol â Pholisi AH1. | | | | |
| **Perfformiad** | | | | | |
| | **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| | | | | | |
| • Llanymddyfri, Llandeilo a Gogledd Ddwyrain Sir Gaerfyrddin – 30% | | | | | |
| • Sanclêr a'r Ardaloedd Gwledig o'i Chwmpas – 30% | | | | | **PL/00736 – Tir yng Nghaeau Gardde, Sanclêr – (T2/5/h6). Rhoddwyd Caniatâd Amlinellol – 30% fforddiadwy**<br><br>**PL/03374 – Tir i'r gorllewin o'r Stryd Fawr, Sanclêr (T2/5/h5) Rhoddwyd Caniatâd Llawn – 7.8% fforddiadwy** |
| • Caerfyrddin a'i Hardaloedd Gwledig 30% | | | | | **C/39220 – Tir gyferbyn â Neuadd Llanddarog (SC33/h1 – Materion a gadwyd yn ôl – 12.5% fforddiadwy + £18,936** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **PL/05756 – Cae i'r de o Ystâd Pantglas (GA1/h12) Materion a gadwyd yn ôl - 30% fforddiadwy**<br><br>**PL/04627 – Tir yn Frondeg (GA1/MU1) Rhoddwyd Caniatâd Llawn (12%)** |
| ▪ Gorllewin Caerfyrddin 20% | | | | | **PL/04717 – Canolfan Bridio Gwartheg gynt, Travellers Rest (GA1/MU1) – 20% fforddiadwy+ cyfraniad o £21,960**<br><br>**PL/05492 – Y tu cefn i Brombil, Heol Llysonnen, Caerfyrddin (GA1/MU1) 0% fforddiadwy** |
| • Castell-newydd Emlyn a'r Ardal Wledig Ogleddol – 20% | | | | | **PL/03083 – Ysgol Coedmor gynt (SC23/h4) – Rhoddwyd Caniatâd Llawn – 100% fforddiadwy** |
| • Cydweli, Porth Tywyn, Pen-bre a Chwm Gwendraeth Isaf – 20% | | | | | **PL/05077 – Cae Rasio Ffos Las (SC40/h3) Materion a gadwyd yn ôl 15.5% fforddiadwy**<br><br>**PL/01554 – Tir oddi ar Heol Glyndwr, Pont-iets (T3/5/h4) - Rhoddwyd Caniatâd Amlinellol 20% fforddiadwy.**<br><br>**W/39937 – Tir gerllaw Maes y Berllan, Llangyndeyrn (SC39/h1) Rhoddwyd Caniatâd Amlinellol 20% fforddiadwy.**<br><br>**PL/04958 – Tir oddi ar Park View Drive, Cydweli (T3/3/h6) Materion a gadwyd yn ôl (20%)** |
| • Llanelli - 20% | | | | | **PL/06624 – Tir yng Nghefncaeau (GA2/h35) Materion a gadwyd yn ôl 100% fforddiadwy.**<br><br>**PL/01196 – Ysgol yr Ynys gynt, Llanelli (GA2/h41) – 12% fforddiadwy** |
| • Rhydaman / Cross Hands a Dyffryn Aman – 10% | | | | | **E/32720 – Cam 2, Parc Emlyn (GA3/MU2) Rhoddwyd Caniatâd Llawn – 4.2% fforddiadwy**<br><br>**PL/05546 – Tir gyferbyn â'r Plough and Harrow, y Betws (GA3/h14) - £10,000**<br><br>**PL/07031 – Tir i'r de o Rhydycerrig, Y Tymbl Rhoddwyd Caniatâd Llawn – 10% fforddiadwy** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **PL/04864 – Tir y tu cefn i Garreg Llwyd, Llanedi SC26/h1) - Rhoddwyd Caniatâd Llawn - £11,000** |

**Dadansoddiad:**
Fel y nodwyd mewn Dangosyddion eraill, mae'r cyfnod AMB hwn wedi dangos nifer o achosion o roi caniatâd cynllunio ym mhob ardal is-farchnad heblaw Llanymddyfri, Llandeilo a gogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin.

O ran canran y tai fforddiadwy yn y sir, mae'r achosion o roi caniatâd cynllunio yn cyd-fynd yn fras â'r targedau tai fforddiadwy a nodir mewn polisi.

**Casgliad:**
Ar gyfer safleoedd sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod yr AMB hwn, mae'r targed canrannol ar gyfer tai fforddiadwy wedi bod yn gymharol lwyddiannus, gyda'r polisi targed monitro yn cyd-fynd yn agos â'r caniatâd cynllunio a roddwyd. Gyda safleoedd hefyd yn cael eu datblygu gan ddarparwyr tai fforddiadwy, bydd hyn yn cynyddu nifer yr unedau fforddiadwy sy'n cael eu datblygu yn y Sir.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Fel rhan o'r CDLl diwygiedig, mae gwaith pellach yn cael ei wneud mewn perthynas â hyfywedd safleoedd a'r gallu i'w cyflawni, a bydd y targedau tai fforddiadwy yn cael eu hystyried.

# Yr Economi a Chyflogaeth

## 15 Targed Polisi Monitro: 111.13ha o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 yn cael ei ddatblygu dros gyfnod y Cynllun

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Caniatadau wedi'u rhoi i ddatblygu ar dir cyflogaeth a restrir ym Mholisi SP7.<br>Caniatadau ar gyfer, neu argaeledd, seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig sy'n hwyluso'r gwaith o gyflenwi safleoedd cyflogaeth (ha) fel y rhestrir ym Mholisi SP7. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | 25% o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai'n cael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu cyn pen y 2 flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.<br>At ddibenion monitro tir cyflogaeth, bydd 'ar gael' yn dangos bod y safleoedd naill ai'n cael budd o ganiatâd cynllunio neu argaeledd seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig i hwyluso'r gwaith datblygu. | | | |
| **Sbardun asesu** | Llai na 25% o dir cyflogaeth wedi'i ddyrannu gan Bolisi SP7, gydag amrywiant pellach o 20% o dan y ffigur targed i ganiatáu am hyblygrwydd, wedi'i ganiatáu neu ar gael cyn pen 2 flynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Naratif blynyddol i ddisgrifio cynnydd tuag at ddarparu. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr ail AMB. Cynnydd pellach yng nghyfnod yr AMB hwn. | Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr ail AMB. | Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr ail AMB. Cynnydd pellach yng nghyfnod yr AMB hwn. | Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr ail AMB. | Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr ail AMB |

**Dadansoddiad:**

Mae targed y polisi monitro yn ymwneud â faint o dir cyflogaeth a ganiatawyd neu sydd wedi dod i law o fewn dwy flynedd o fabwysiadu'r Cynllun. Ar adeg cyhoeddi'r AMB cyntaf yn 2016, nid oedd dwy flynedd wedi mynd heibio ers ei fabwysiadu, felly roedd yn anodd gwneud asesiad cywir o'r targed hwn. Serch hynny, canfuwyd bod bron i 90% o'r targed monitro blynyddol / dros dro ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf eisoes wedi'i fodloni erbyn hyn.

Yn ystod cyfnod yr AMB hwn, ni chafodd rhagor o dir ar ddyraniadau cyflogaeth ganiatâd cynllunio ar gyfer gweithgareddau cyflogaeth – felly mae'r ffigur yn parhau ar **33.76 ha** ar gyfer cyfnod 2023/24. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd pellach yn ystod y cyfnod monitro hwn gyda golwg ar ganiatâd cynllunio ar ran o ddyraniad cyflogaeth strategol Dwyrain Cross Hands. Fodd bynnag, mae caniatâd cynllunio sy'n cwmpasu'r dyraniad cyfan hwn eisoes wedi'i nodi a'i gynnwys yn y ffigurau monitro mewn AMBau blaenorol.

Cafodd y targed monitro a nodir yn y CDLl (25% o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai'n llwyddo i gael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu o fewn dwy flynedd gyntaf y Cynllun ar ôl ei fabwysiadu) ei fodloni yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2 yn 2017 (gan ystyried yr amrywiant ychwanegol o 20% o dan y targed i ganiatáu hyblygrwydd). Mae'r tir pellach a hawliwyd yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf yn dystiolaeth fod y safleoedd a ddyrannwyd at ddefnydd cyflogaeth yn y CDLl yn parhau i fod yn ymarferol.

**Casgliad:** Gwnaed cynnydd clir; bydd gwaith monitro ac adrodd pellach yn cael ei wneud mewn AMBau dilynol ac fel rhan o'r Adolygiad o'r CDLl.

| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.  Cyfeirir at baratoi'r CDLl Diwygiedig. |
|---|

## 16 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fentrau Gwledig

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu'r Canllawiau Cynllunio Atodol. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | | | | |
| **Sbardun asesu** | Canllawiau Cynllunio Atodol heb eu cynhyrchu cyn pen 9 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| | | | | |
| Targed wedi'i gwblhau - CCA wedi'u mabwysiadu | | | | |

**Dadansoddiad:**
Mabwysiadwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol - Datblygiadau Gwledig ym mis Medi 2016.

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213903/mabwysiadu-rural-development-spg-report-.pdf

**Casgliad:**
Mae'r targed wedi'i gyrraedd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

## Adwerthu

**17 Targed Polisi Monitro: Sicrhau nad yw cyfraddau'r unedau gwag yn ardaloedd Prif Ffryntiad Adwerthu a Ffryntiad Adwerthu Eilaidd trefi'r Ardaloedd Twf yn tyfu i lefel a fyddai'n cael effaith andwyol ar fywiogrwydd y canolfannau hynny.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cyfraddau unedau gwag blynyddol yr eiddo masnachol yn ardaloedd Prif Ffryntiad Adwerthu a Ffryntiad Adwerthu Eilaidd trefi'r Ardaloedd Twf. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Cyfraddau unedau gwag eiddo masnachol yng nghanol trefi Caerfyrddin, Rhydaman a Llanelli. | | | |
| **Sbardun asesu** | Monitro am wybodaeth. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/03/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Nid oes data ar gael | | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r Cyngor, fel rhan o'i weithgarwch monitro adwerthu y tu hwnt i'r AMB hwn, yn cydnabod yr angen i ddeall ac olrhain gweithgareddau adwerthu sy'n newid ar lefel sirol ac ar lefel canolfan leol. Gyda hyn mewn golwg, lluniodd y Cyngor Astudiaeth Adwerthu Sir Gaerfyrddin yn 2023 wedi'i diweddaru sydd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r diweddariad hwn yn adeiladu ar Astudiaeth flaenorol 2015 ac yn adlewyrchu'r data a'r wybodaeth ddiweddaraf am adwerthu ar draws y Sir o safbwynt cyfleustra (adwerthu bwyd) a chymhariaeth (adwerthu nad yw'n fwyd). Cafodd hyn ei wneud i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu'r ail gynllun CDLl Diwygiedig Adneuol. Cynhelir arolygon adwerthu Canol Trefi hefyd i ganfod y gweithgarwch cyfredol a newidiol yn y canol trefi a ddiffiniwyd, sy'n cynnwys olrhain lefelau'r unedau gwag a'r gyfran sy'n cael ei defnyddio at ddibenion heblaw adwerthu. Nodir cyfraddau'r unedau gwag isod yn ôl anheddiad ac yn ôl ardal Prif Ffryntiad a Ffryntiad Eilaidd.

Sylwer: mae'r tabl canlynol yn aros am ganlyniadau data o arolygon canol trefi.

| | Prif Ffryntiad | | Ffryntiad Adwerthu Eilaidd | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm yr Unedau | Unedau Gwag (%) | Cyfanswm yr Unedau | Unedau Gwag (%) |
| Caerfyrddin | 163 | 25 (15%) | 128 | 34 (27%) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llanelli | 84 | 26 (31%) | 102 | 28 (27%) |
| Rhydaman | 42 | 5 (12%) | 53 | 10 (19%) |

**Adferiad Economaidd**

Mae'r tueddiadau adwerthu yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gweld cynnydd mewn siopa ar-lein a symudiad i ffwrdd o'r Stryd Fawr. Mae'r pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r sefyllfa hon; oherwydd pryderon iechyd a diogelwch a'r cyfyngiadau a roddir ar agor siopau, mae mwy a mwy o bobl wedi bod yn siopa ar-lein. Mae'r effeithiau ar fywiogrwydd y stryd fawr wedi bod yn sylweddol gyda'r heriau economaidd ehangach hefyd yn cyfrannu at yr heriau y mae canolfannau yn eu hwynebu.

Mewn ymateb i'r materion sy'n ymwneud â Covid-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu canllawiau – Adeiladu Lleoedd Gwell - i helpu'r adferiad. Mae'n nodi fel a ganlyn: "Mae’r canlyniadau economaidd wedi golygu bod llawer o adwerthwyr yn cael trafferthion ariannol a bydd hyn yn arwain at gyfraddau eiddo gwag uwch ym mhob un o'n canolfannau masnachol. Roedd cystadleuaeth ar-lein ag adwerthwyr yng nghanol ein trefi yn gryf cyn yr argyfwng; daw'r sefyllfa hon yn fwy amlwg wrth i fwy o adwerthwyr gynyddu eu presenoldeb ar-lein ac wrth i fwy o bobl ymgyfarwyddo â gwneud y rhan fwyaf o'u siopa am eitemau nad ydynt yn hanfodol ar-lein."

Ceir cydnabyddiaeth fod canolfannau adwerthu a masnachol yn ganolbwyntiau gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd a bod eu swyddogaeth yn ymestyn y tu hwnt i adwerthu, gan gynnig canolbwynt ar gyfer ystod amrywiol o gyfleusterau, gwasanaethau a gweithgareddau, swyddogaethau a phrofiadau diwylliannol. Yn aml mae'r swyddogaethau hyn yr un mor bwysig wrth gefnogi anghenion a mwynhad cymunedau lleol. Wrth gydnabod rôl ganolog canolfannau adwerthu a masnachol dywed Llywodraeth Cymru y dylent "ddod yn lleoedd lle mae amrywiaeth o ddefnyddiau adwerthu, cyflogaeth, masnachol, cymunedol, hamdden, iechyd a'r sector cyhoeddus yn dod ynghyd i greu gweithgarwch er mwyn eu gwneud yn hyfyw fel cyrchfannau poblogaidd unwaith eto. Gallai mannau cydweithio lleol, hyblyg hefyd fod yn elfen newydd hollbwysig i gynyddu mannau gweithio. Mae defnyddiau preswyl hefyd yn allweddol i hyfywedd canolfannau, ar yr amod nad ydynt yn cyfyngu ar y gweithgareddau masnachol sy'n mynd rhagddynt a bod seinweddau yn cael eu hystyried." Mae'r canllawiau'n dangos na ddylai canol trefi edrych ar angen adwerthu ar ei ben ei hun mwyach ond crynhoi amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau, yn enwedig yn y sectorau cyflogaeth, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus.

Mewn ymateb i effeithiau economaidd Covid-19 ar economi Sir Gaerfyrddin, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi nodi meysydd gweithredu allweddol i helpu adferiad economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd camau i gadw, denu a chefnogi busnesau i'r 3 prif ganol tref – Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Mae'r camau a nodwyd sy'n arbennig o berthnasol i gynllunio defnydd tir yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

cynyddu nifer yr ymwelwyr i bob rhan o'r trefi; lleihau nifer yr adeiladau gwag yng nghanol y dref; ac ystyried defnydd amgen o safleoedd adfeiliedig / adeiladau gwag / safleoedd datblygu posibl ar gyfer y dyfodol yn y cyfamser.

Ar ddechrau 2022, mabwysiadwyd Gorchmynion Datblygu Lleol i hwyluso newidiadau defnydd heb fod angen cael caniatâd cynllunio yn y canol trefi a nodwyd sef Caerfyrddin a Rhydaman. Nod y Gorchmynion Datblygu Lleol hyn yw denu busnesau ac ymwelwyr i ganol y dref, heb gyfyngu'r ardaloedd hyn i ddefnydd adwerthu yn bennaf.

Yn 2021, ymestynnodd Llywodraeth Cymru dros dro'r hawliau datblygu a ganiateir fel bod modd newid defnydd unedau adwerthu. Bwriedir i hyn alluogi treialu defnyddiau amgen a chael adborth cychwynnol ynghylch a fyddai cychwyn busnes yn debygol o fod yn hyfyw heb y gost a'r oedi sy'n gysylltiedig â chyflwyno cais cynllunio. Mae'r diwygiadau'n caniatáu i eiddo o fewn ardaloedd a nodwyd fel canol trefi yn y CDLl, sydd ar hyn o bryd o fewn y dosbarth defnydd A1, gael eu newid i A2, A3, B1, D1 a D2 am gyfnod o 6 mis. Daeth yr hawliau datblygu a ganiateir ychwanegol hyn i ben yn Ebrill 2022. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynglŷn â'r posibilrwydd o gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir newydd, gan gynnwys caniatáu newidiadau defnydd o fewn canol trefi a nodwyd fel y'u galluogwyd yn flaenorol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig cael gwared ar y cyfnod prawf o chwe mis a gallai'r newidiadau gael eu cadw am byth.

**Casgliad:**

Mae'r newidiadau yn lefelau'r unedau gwag o ran y prif ffryntiadau adwerthu a'r ffryntiadau adwerthu eilaidd yn amrywio ym mhob canol tref. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod cynnydd wedi bod yn nifer yr unedau gwag o ran prif ffryntiadau a ffryntiadau eilaidd canol tref Llanelli ers Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Monitro effeithiolrwydd Gorchmynion Datblygu Lleol Caerfyrddin a Rhydaman.

Monitro lefelau'r unedau gwag yn y prif ffryntiadau adwerthu a'r ffryntiadau adwerthu eilaidd a gwneud gwaith pellach i ystyried y materion sy'n effeithio ar ganol y trefi.

Cymryd rhan mewn fforymau a mentrau a arweinir gan adfywio gyda'r nod o sicrhau bod canol trefi yn dod yn fwy bywiog a hyfyw.

Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus nes mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig, cynhelir astudiaeth adwerthu gynhwysfawr i ddarparu gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth, anghenion a gofynion adwerthu yn Sir Gaerfyrddin a'r ffordd orau o ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

## 18 Targed Polisi Monitro: Cynnal cyfanrwydd y Prif Ffryntiad Adwerthu.

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cyfran yr unedau mewn defnydd adwerthu A1 sydd wedi'u lleoli yn y Prif Ffryntiad Adwerthu fel y'i dynodir gan Bolisi RT2. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Mae 65% neu fwy o unedau yn y Prif Ffryntiad Adwerthu mewn defnydd A1. |
| **Sbardun asesu** | Llai na 65% o unedau o fewn y Prif Ffryntiad Adwerthu mewn defnydd A1 gydag amrywiant ychwanegol o 10% o dan y ffigur targed i ganiatáu hyblygrwydd. |

| **Perfformiad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/03/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Nid oes data ar gael | | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r Cyngor, fel rhan o'i drefn o fonitro adwerthu y tu hwnt i'r AMB hwn, yn cydnabod yr angen i ddeall ac olrhain gweithgareddau adwerthu sy'n newid ar lefel Sirol ac o safbwynt canolfan leol. Lluniodd y Cyngor ddiweddariad i Astudiaeth Adwerthu Sir Gaerfyrddin yn 2023 sydd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r diweddariad hwn yn adeiladu ar Astudiaeth flaenorol 2015 ac yn adlewyrchu'r data a'r wybodaeth ddiweddaraf am adwerthu ar draws y Sir o safbwynt cyfleustra (adwerthu bwyd) a chymhariaeth (adwerthu nad yw'n fwyd).

Cynhelir arolygon adwerthu Canol Trefi hefyd i ganfod y gweithgarwch cyfredol a newidiol yn y canol trefi a ddiffiniwyd - mae'r elfennau allweddol yn cynnwys olrhain lefelau'r unedau gwag a'r gyfran sy'n cael ei defnyddio at ddibenion heblaw adwerthu o fewn y canol trefi a ddiffiniwyd.

Nodir isod gyfran yr unedau a ddefnyddir gan ardaloedd Prif Ffryntiad a Ffryntiad Eilaidd ar gyfer adwerthu nad yw'n A1. Mae'r manylion mewn perthynas â ffryntiad eilaidd wedi'u cynnwys er cyflawnrwydd:

Sylwer: Mae'r tabl canlynol yn aros am ganlyniadau data o arolygon canol trefi.

| | **Prif Ffryntiad** | | **Ffryntiad Adwerthu Eilaidd** | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm yr Unedau | Dim A1 (%) | Cyfanswm yr Unedau | Dim A1 (%) |
| Caerfyrddin | 163 | 40 uned (25%) | 128 | 52 uned (41%) |
| Llanelli | 84 | 15 uned (18%) | 102 | 41 uned (40%) |
| Rhydaman | 42 | 12 uned (29%) | 53 | 30 uned (57%) |

| |
|---|
| Fel y nodwyd uchod, mae Gorchmynion Datblygu Lleol wedi'u mabwysiadu ac maent ar waith yng nghanol trefi Caerfyrddin a Rhydaman. Bydd y rhain yn darparu hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer newid defnydd yng nghanol y dref. Gall hyn, ynghyd â'r diwygiadau i'r hawliau datblygu a ganiateir a amlinellir uchod, weld mwy o newidiadau ac amrywiaeth yn y dosbarthiadau defnydd sydd i'w cael yng nghanol y dref a gallai barhau i ddylanwadu ar fwy o newidiadau ac amrywiaeth yn y dosbarthiadau defnydd sy'n bresennol yn y ffryntiadau adwerthu.<br><br>Mae'r wybodaeth a nodir yn nangosydd 17 uchod yn amlinellu newid mewn dull gweithredu yng nghanol y dref, gyda'r nod o gyflwyno mwy o amrywiaeth o ddefnyddiau i ganol trefi, yn hytrach na chanolbwyntio mor drwm ar adwerthu. Er bod rôl adwerthu ar y stryd fawr ac yng nghanol trefi yn parhau i fod yn rhan annatod ac yn elfen allweddol o sicrhau bywiogrwydd tref, cydnabyddir y gall mwy o amrywiaeth o ddefnyddiau arwain at ganolfannau masnachol a busnes hyfyw, ffyniannus. Mae'n ddigon posibl y bydd cyflwyno canllawiau newydd, hawliau datblygu newydd a ganiateir a'r Gorchmynion Datblygu Lleol yn arwain at ganol trefi mwy amrywiol.<br><br>Bydd y Cyngor yn ymateb fel y bo'n briodol i'r canolfannau hynny lle mae'r dystiolaeth yn dangos bod yna bwysau ar eu bywiogrwydd a'u hyfywedd. Bydd unrhyw angen am newid mewn polisi cynllunio yn cael ei weithredu drwy'r CDLl Diwygiedig ac yn cael ei lywio gan Astudiaeth Adwerthu ddiwygiedig i sicrhau bod y polisïau'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, y dystiolaeth ddiweddaraf ac yn adlewyrchu tueddiadau a materion cyfredol. |
| **Casgliad:**<br>• Mae Tref Caerfyrddin yn cynrychioli canolfan adwerthu ranbarthol bwysig sy'n cynnig darpariaeth adwerthu eang yn amrywio o enwau'r stryd fawr i ddarpariaeth leol ac mae'n arddangos darpariaeth adwerthu A1 gref. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen monitro gofalus, ac mae dull ymatebol ar waith trwy Orchymyn Datblygu Lleol.<br>• Mae Llanelli wedi profi newid yn yr hyn sy'n cael ei gynnig yng nghanol y dref yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae wedi denu buddsoddiad sylweddol ac mae mentrau corfforaethol, gwleidyddol a busnes ar waith fel rhan o'i hadfywiad.<br>• Mae Rhydaman yn cynnig amrywiaeth o adwerthwyr lleol ac yn cadw rhai enwau'r stryd fawr, er bod hyn wedi lleihau'n raddol. Cydnabyddir bod angen monitro gofalus ac mae dull ymatebol ar waith trwy Orchymyn Datblygu Lleol. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Monitro Gorchmynion Datblygu Lleol Caerfyrddin a Rhydaman.<br><br>Cymryd rhan mewn fforymau a mentrau a arweinir gan adfywio gyda'r nod o sicrhau bod canol trefi yn dod yn fwy bywiog a hyfyw.<br><br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus nes mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig.<br><br>Rhoddir ystyriaeth i gwmpas a chynnwys Astudiaeth Adwerthu wedi'i diweddaru i lywio cynnwys y CDLl Diwygiedig ac i gefnogi'r gwaith o benderfynu ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau adwerthu. |

# Trafnidiaeth

## 19 Targed Polisi Monitro: Gweithredu'r cynlluniau ffyrdd a nodir ym Mholisi SP9

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynnydd tuag at weithredu'r cynlluniau ffyrdd a nodir ym Mholisi SP9 yn unol â'r amserlenni cyflenwi. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Gweithredu yn unol ag amserlenni cyflenwi. |
| **Sbardun asesu** | Nid yw'r cynlluniau ffyrdd a nodir ym Mholisi SP9 wedi'u cyflenwi'n unol â'r amserlenni cyflenwi. |
| **Perfformiad** | |
| | |
| **Bodlonwyd y dangosydd mewn perthynas â'r cynlluniau a restrir ym Mholisi SP9 sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol** | |
| **Dadansoddiad:**<br>Mae cynnydd sylweddol yn parhau i gael ei wneud o ran gweithredu'r cynlluniau a restrir ym Mholisi SP9. Yn hyn o beth, mae Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands wedi'i rhoi ar waith ac mae'n agored i draffig. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau ar gam olaf y cynllun hwn.<br><br>Cafodd Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin ei chwblhau a'i hagor i draffig ym mis Mawrth 2019.<br><br>Ni chynigir mesur y llwyddiant mewn perthynas â gweithredu'r polisi o safbwynt y Gwelliannau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan eu bod yn faterion y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, bydd y fframwaith hwn yn parhau i fonitro eu cynnydd tuag at weithredu, yn enwedig gyda golwg ar yr amserlenni a nodir. | |
| **Casgliad:**<br>Mae'r dangosydd wedi'i gyrraedd mewn perthynas â gweithredu'r cynlluniau a restrir ym Mholisi SP9 sydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol. | |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Monitro cynnydd Gwelliannau Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at baratoi'r CDLl Diwygiedig. | |

## 20 Targed Polisi Monitro: Gweithredu'r cynlluniau beicio a nodir ym Mholisi TR4

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cynnydd tuag at weithredu'r cynlluniau beicio a nodir ym Mholisi TR4. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Gweithredu yn unol â'r amserlenni cyflenwi erbyn 2021. | | | |
| **Sbardun asesu** | Heb weithredu'r cynlluniau beicio wedi'u nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol sydd ar y gweill. Os nad oes cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer prosiect erbyn adolygu'r Cynllun am y tro cyntaf. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/03/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| | | | | |

**Dadansoddiad:**
Mae'r canlynol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas â'r 3 chynllun beicio a nodir ym Mholisi TR4:

- Dyffryn Tywi – Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun cyfan.
- Llwybr Beicio Dyffryn Aman -– Mae'r prif waith seilwaith wedi'i gwblhau'n sylweddol ac eithrio rhan fechan ym Mrynaman. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn ymwneud ag arwyddion, marchnata a brandio.
- Hendy-gwyn ar Daf i Langlydwen – Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion wedi'u rhaglennu i fwrw ymlaen â'r llwybr hwn.

**Casgliad:**
Gwnaed cynnydd o ran gweithredu'r cynlluniau a restrir ym Mholisi TR4. Noder bod yr amserlen gyflawni wedi mynd heibio'r targed mewn perthynas â llwybr beicio Dyffryn Tywi.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at baratoi'r CDLl Diwygiedig.

Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnwys a/neu gyflwyno llwybr Hendy-gwyn ar Daf i Langlydwen fel rhan o'r CDLl Diwygiedig.

## Mwynau

### 21 Targed Polisi Monitro: Cynnal banc tir agregau 10 mlynedd o leiaf ar gyfer creigiau caled

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Banc tir agregau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Cynnal banc tir 10 mlynedd o leiaf ar gyfer creigiau caled. | | | |
| **Sbardun asesu** | Banc tir creigiau caled o lai na 10 mlynedd. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Targed wedi'i gyrraedd: Mae'r banc tir presennol o greigiau caled ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 77 mlynedd o leiaf. | Targed wedi'i gyrraedd: Mae'r banc tir presennol o greigiau caled ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 86 mlynedd o leiaf. | Targed wedi'i gyrraedd: Mae'r banc tir presennol o greigiau caled ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 77 mlynedd o leiaf | Data ddim ar gael. | Data ddim ar gael. |

**Dadansoddiad:**

Mae banc tir yn stoc o ganiatadau cynllunio ar gyfer ennill a gweithio mwynau. Mae'n cynnwys swm yr holl gronfeydd wrth gefn a ganiateir mewn safleoedd gweithredol a segur ar unrhyw adeg benodol ar gyfer ardal benodol. At ddibenion sefydlogrwydd masnachol, mae angen banc tir profedig a hyfyw ar y diwydiant agregau. MTAN 1: Mae'n ofynnol gan y diwydiant agregau y dylid cynnal o leiaf 10 mlynedd o fanc tir o greigiau caled, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn nharged monitro'r CDLl.

Nid oes data ar gyfer y ddau gyfnod adrodd diwethaf ar gael eto, ond mae'r data diweddaraf gorau sydd ar gael ac y cytunwyd arno gan y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau a'r Awdurdod Cynllunio Mwynau Lleol (2021) yn dangos mai 80 mlynedd yw'r banc tir presennol o greigiau mathredig ar gyfer Sir Gaerfyrddin, gan ddefnyddio cyfartaledd data cynhyrchu'r 3 blynedd diwethaf, a 77 mlynedd gan ddefnyddio cyfartaledd data cynhyrchu'r 10 mlynedd diwethaf. Felly mae gan Sir Gaerfyrddin o leiaf 77 mlynedd o gyflenwad o greigiau caled ar ddiwedd 2021. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r ffigur yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol yn y targed monitro. Gan ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r ffigwr hwn wedi gostwng i lai na 10 mlynedd o fanc tir yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r perfformiad uchod yn parhau i fod yn wyrdd.

**Casgliad:**

Mae'r data diweddaraf gorau yn dangos bod y Targed Polisi monitro yn cael ei gyrraedd ac felly nid oes angen cymryd camau pellach.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

## 22 Targed Polisi Monitro: Cynnal banc tir agregau 7 mlynedd o leiaf ar gyfer tywod a graean

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Banc tir agregau cyfunol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin gyda'r awdurdodau cyfagos, sef Cyngor Sir Penfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Cynnal banc tir 7 mlynedd o leiaf ar gyfer tywod a graean. |
| **Sbardun asesu** | Banc tir tywod a graean o lai na 7 mlynedd |

| **Perfformiad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Targed wedi'i gyrraedd: Mae'r banc tir tywod a graean cyfunol ar gyfer CS Gâr, CS Ceredigion, CS Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 10 mlynedd o leiaf ar hyn o bryd. | Targed wedi'i gyrraedd: Mae'r banc tir tywod a graean cyfunol ar gyfer CS Gâr, CS Ceredigion, CS Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 10 mlynedd o leiaf ar hyn o bryd. | Targed wedi'i gyrraedd: Mae'r banc tir tywod a graean cyfunol ar gyfer CS Gâr, CS Ceredigion, CS Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 15 mlynedd o leiaf ar hyn o bryd | Data ddim ar gael | **Data ddim ar gael** |

**Dadansoddiad:**

Dywed MTAN 1: Agregau ei bod yn ofynnol cynnal isafswm o 7 mlynedd o fanc tir tywod a graean ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn nharged monitro'r CDLl. Mae'r dosraniadau a'r dyraniadau ar gyfer tywod a graean ar y tir yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cyfuno â Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Cheredigion.

Nid oes data ar gyfer y ddau gyfnod adrodd diwethaf ar gael eto, ond mae'r data gorau a diweddaraf y cytunwyd arnynt gan y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau a'r Awdurdod Cynllunio Mwynau Lleol ar gyfer y banc tir Tywod a Graean cyfun ar gyfer 31.12.2020. Mae'r banc tir cyfun yn 16 mlynedd yn seiliedig ar gyfartaledd cynhyrchu o 3 blynedd ac yn 10 mlynedd yn seiliedig ar gyfartaledd cynhyrchu o 10 mlynedd. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r ffigur yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol yn y targed monitro.

**Casgliad:**

Mae'r data diweddaraf gorau yn dangos bod y Targed Polisi monitro yn cael ei gyrraedd ac felly nid oes angen cymryd camau pellach o ganlyniad i'r AMB hwn.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

## 23 Targed Polisi Monitro: Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sy'n sterileiddio yn y clustogfeydd mwynau (ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru).

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau parhaol sy'n sterileiddio a roddir mewn clustogfa fwynau. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sy'n sterileiddio mewn clustogfa fwynau yn groes i Bolisi MPP2. |
| **Sbardun asesu** | 5 datblygiad parhaol sy'n sterileiddio wedi'u caniatáu mewn clustogfa fwynau yn groes i Bolisi MPP2 dros 3 blynedd yn olynol. |

**Perfformiad**

| 1/4/19 – 31/03/20 | 1/4/20 – 31/3/21 | 1/4/21 – 31/3/22 | 1/4/22 – 31/3/23 | 1/4/23 – 31/3/24 |
|---|---|---|---|---|
| Targed wedi'i gyrraedd: Dim safle'n groes i bolisi MPP2. | Targed wedi'i gyrraedd: Dim safle'n groes i bolisi MPP2. | Targed wedi'i gyrraedd: Dim safle'n groes i bolisi MPP2. | Targed wedi'i gyrraedd: Dim safle'n groes i bolisi MPP2. | Targed wedi'i gyrraedd: Dim safle'n groes i bolisi MPP2. |

**Dadansoddiad:**

Yn y cyfnod monitro diweddaraf o 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024, rhoddwyd 2 ganiatâd cynllunio ar dir a leolir o fewn clustogfeydd safleoedd mwynau presennol, fel y nodir ar Fapiau Cynigion y CDLl. Ni ystyriwyd bod yr un o'r achosion o roi caniatâd yn ddatblygiad 'parhaol, sy'n sterileiddio'. Roedd y datblygiadau'n cynnwys:

- Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer gosod system atal tân
- Estyniad ochr deulawr newydd a phorth i wyneb blaen [annedd sy'n bodoli eisoes]

Yn ogystal, rhoddwyd un caniatâd i Ollwng Amod Cynllunio sy'n ymwneud â chwarel bresennol, er na wnaeth hyn effeithio ar y glustogfa gysylltiedig o amgylch y chwarel.

**Casgliad:**

Nid oes angen gweithredu mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'r AMB hwn.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

## 24 Targed Polisi Monitro: Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sy'n sterileiddio mewn ardal diogelu mwynau (ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir ym Mholisi MPP3).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau parhaol sy'n sterileiddio a roddir mewn ardal diogelu mwynau. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sy'n sterileiddio mewn clustogfa fwynau yn groes i Bolisi MPP3. | | | |
| **Sbardun asesu** | 5 datblygiad parhaol sy'n sterileiddio wedi'u caniatáu mewn clustogfa fwynau yn groes i Bolisi MPP3 dros 3 blynedd yn olynol. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Targed wedi'i gyrraedd: Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3. | Targed wedi'i gyrraedd: Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3. | Targed wedi'i gyrraedd: Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3. | Targed wedi'i gyrraedd: Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3. | Targed wedi'i gyrraedd: Dim safleoedd yn groes i Bolisi MPP3. |

**Dadansoddiad:**
Er y rhoddwyd caniatâd cynllunio i nifer o ddatblygiadau mewn ardaloedd diogelu mwynau, barnwyd nad oedd yr un o'r rhain yn ddatblygiadau 'parhaol, sy'n sterileiddio' a fyddai'n atal yr adnodd rhag cael ei echdynnu yn y dyfodol (pe bai'n ofynnol echdynnu'r adnodd yn wir a phe bai'n amgylcheddol dderbyniol gwneud hynny). Mae'r datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio mewn ardaloedd diogelu mwynau yn perthyn i'r categorïau cyffredinol canlynol:

- Materion a gadwyd yn ôl i ganiatâd cynllunio amlinellol;
- Datblygiadau dros dro neu ddatblygiadau nad ydynt yn barhaol (e.e. safleoedd carafanau teithiol/glampio);
- Datblygiadau amaethyddol (e.e. adeiladau amaethyddol modern, tanciau storio, neu strwythurau storio maetholion) ar ffermydd gwaith;
- Datblygiad sy'n gysylltiedig â marchogaeth (e.e. stablau/maes ymarfer ceffylau/arena);
- Newidiadau i'r defnydd o adeiladau presennol e.e. - capeli gweigion, neu ysguboriau at ddefnydd preswyl neu dwristiaeth;
- Datblygu mewn gardd breswyl neu gwrtil;
- Cyfleuster gwanhau dŵr wyneb gyda seilwaith cysylltiedig i wasanaethu datblygiad preswyl cyfagos;
- Datblygiadau Un Blaned ar dyddynnod presennol;
- Strwythurau telathrebu neu ffermydd solar;
- Storfa faetholion arfaethedig i gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021;
- Amrywiol ddatblygiadau ar safleoedd twristiaeth presennol ar raddfa fawr, e.e. adeiladau sy'n gysylltiedig â garddwriaeth, storio, neu leoliadau priodas;
- Adfer anheddau sydd wedi'u gadael;
- Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer rhai defnyddiau arfaethedig a fyddai'n ddatblygiad a ganiateir;
- Dymchwel anheddau presennol a chodi rhai newydd yn eu lle

| |
|---|
| - Adeilad lleoliad priodas parhaol newydd ynghyd â phabell fawr gyfagos a strwythur llawr estyll;<br>- Hysbysiadau ymlaen llaw, nid oes angen caniatâd cynllunio (telathrebu, coedwigaeth, amaethyddiaeth, dymchwel);<br>- Anheddau unigol mewn pentrefannau neu glystyrau preswyl bach heb derfynau datblygu;<br>- Addasiadau / estyniadau neu newidiadau i'r defnydd o adeiladau presennol;<br>- Anheddau newydd (neu ddefnyddiau eraill) o fewn terfynau datblygu aneddiadau presennol neu'n gyfagos iddynt;<br>- Datblygiadau ar dir o fewn 200m i ardaloedd preswyl;<br>- Caniatâd sy'n gysylltiedig â safleoedd mwynau sy'n bodoli;<br>- Ymestyn gwaith cyflogaeth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys adeiladau ychwanegol a/neu feysydd parcio ceir. |
| **Casgliad:**<br>Nid oes angen gweithredu o ganlyniad i'r AMB hwn. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.  Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018. |

## 25 Targed Polisi Monitro: Ystyried gorchmynion gwahardd ar safleoedd mwynau segur nad ydynt yn debygol o gael eu gweithio yn y dyfodol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y gorchmynion gwahardd a gyhoeddir ar safleoedd segur. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Sicrhau y cyhoeddir gorchmynion gwahardd cyn pen 12 mis i'r safleoedd segur y bernir ei bod yn annhebygol y cânt eu gweithio eto yn y dyfodol (fel rhan o'r adolygiad blynyddol). | | | |
| **Sbardun asesu** | Yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn methu cyhoeddi gorchmynion gwahardd i safleoedd y bernir ei bod yn annhebygol y cânt eu gweithio eto yn y dyfodol. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| | | | | |

**Dadansoddiad:**
Fel rhan o'r adolygiad blynyddol, mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau'n monitro safleoedd segur ac mae'r rhai a ystyrir fel rhai annhebygol o gael eu hailweithio yn y dyfodol yn cael gorchmynion gwahardd. Mae gan yr Awdurdod awdurdodiad Aelod Bwrdd Gweithredol i gyflwyno 5 Gorchymyn Gwahardd. Mae'r broses o gyflwyno'r gorchmynion gwahardd wedi cael ei gohirio gan ddiddordeb posibl yn un o'r safleoedd.

**Casgliad:**
Er nad yw Targed y Polisi Monitro wedi cael ei gyrraedd yn llym, credir fod yr ystyriaeth barhaus i safleoedd segur a'r awdurdodiad a roddwyd gan y Cyngor i gyflwyno Gorchmynion Gwahardd ar 5 safle yn ddigonol. Nid oes angen unrhyw weithredu pellach ar wahân i barhau i fonitro.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Yr Awdurdod Cynllunio Mwynau i barhau i asesu safleoedd segur fel rhan o'r broses adolygu flynyddol a bwydo'r wybodaeth drwodd fel rhan o fonitro'r CDLl. Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

# Ynni Adnewyddadwy


## 26 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu mwy o ynni yn y Sir o ffynonellau adnewyddadwy

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Y capasiti a ganiateir o ran prosiectau trydan a gwres adnewyddadwy yn y sir (fesul MW). |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Cynnydd blynyddol yn y capasiti a ganiateir o ran prosiectau trydan a gwres adnewyddadwy dros gyfnod y Cynllun. |
| **Sbardun asesu** | Monitro at ddibenion gwybodaeth. |

| **Perfformiad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1/4/19 – 31/3/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Mae 1.64 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd. | Mae 0.15 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd. | Mae 6.78 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd. | Mae 69.25 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd. | Mae 0.152 MW o ynni adnewyddadwy wedi cael caniatâd |

**Dadansoddiad:**
Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 0.152 MW o ynni adnewyddadwy yn ystod y cyfnod monitro a gellir rhannu hyn fel a ganlyn: Ynni'r Haul – 0.149 MW a Gwynt - 0.003MW.

Er gwybodaeth, mae'r siart canlynol yn dangos cyfran yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r siart yn dangos mai prosiectau ynni'r haul yw'r prif gynlluniau sy'n cael eu caniatáu ers 2016.




**Casgliad:**
Parhau i fonitro.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Bydd y capasiti a ganiateir ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael ei fonitro mewn AMBau yn y dyfodol. Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.

## 27 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy Cyffredinol

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu'r Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 9 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. |

**Targed wedi'i gwblhau - Mabwysiadwyd CCA**

**Dadansoddiad:**
Yn dilyn dadansoddiad o'r mathau o geisiadau a dderbyniwyd ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy, credwyd y dylai'r CCA ynghylch Ynni Adnewyddadwy ganolbwyntio'n unig ar ddatblygiadau ynni'r gwynt ac ynni'r haul yn hytrach nag ynni adnewyddadwy cyffredinol.

Dylid bod wedi paratoi'r CCA o fewn 9 mis i fabwysiadu'r Cynllun, fodd bynnag, wrth eu paratoi, credid y dylai'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd fwydo i mewn i'r CCA. Mabwysiadwyd y CCA gan y Cyngor ar 12 Mehefin 2019.

**Casgliad:**
Mae'r CCA wedi cael ei fabwysiadu.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Nid oes angen camau ar hyn o bryd.

## Rheoli Gwastraff

### 28 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safle Rheoli Gwastraff Nant-y-caws

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | | | | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu'r Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 5 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. | | | |
| **Perfformiad** | | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| | . | | | . |

**Dadansoddiad:**

Mae'r angen i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol mewn perthynas â Safle Rheoli Gwastraff Nant-y-caws wedi'i ddisodli gan y manylion sydd wedi'u cynnwys mewn perthynas â thirlenwi a thrin gwastraff gweddilliol yn yr Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer Rhanbarth De-orllewin Cymru (a newidiwyd i Ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru o Ebrill 2021). Mae'r Adroddiadau yn nodi'r sefyllfa ranbarthol o ran tirlenwi a thrin gwastraff gweddilliol. Mae Nant-y-caws yn un o chwe safle tirlenwi gwastraff nad yw'n beryglus yn rhanbarth De-orllewin Cymru, er nad yw'n weithredol ar hyn o bryd.

Mae'r Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf (2023-2024) yn cyfeirio at gapasiti lleoedd gwag rhanbarthol sydd ar ôl o 6.1 mlynedd. Mae hyn yn uwch na'r sbardun a nodir yn TAN21: Gwastraff trwy yr hwn y byddai angen ystyried safle tirlenwi newydd ar gyfer y rhanbarth. Yr hyn sy'n amlwg yw y bydd safle Nant-y-caws yn parhau i fod yn bwysig i reoli gwastraff gweddilliol ar gyfer y rhanbarth yn y dyfodol. Yn ogystal â'r safle tirlenwi, mae gan Nant-y-caws Gyfleuster Ailgylchu Deunyddiau i ddarparu ar gyfer gwastraff ailgylchadwy'r Sir. Mae gan y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith treulio anaerobig nad yw wedi'i adeiladu eto (ond bydd ganddo'r potensial i dderbyn gwastraff bwyd gweddilliol).
Mae'n bwysig nodi bwriadau a thrafodaethau safle Nant-y-caws yn y dyfodol mewn perthynas â'r CDLl Diwygiedig sy'n datblygu.
Cyhoeddwyd yr ail CDLl Diwygiedig Adneuol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2023. Yn y ddogfen hon mae Nant-y-caws wedi'i ddynodi'n Safle Adfywio a Defnydd Cymysg. Mae Archwiliad o'r CDLl Diwygiedig ar y gweill ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei fabwysiadu ganol 2025.

O ganlyniad, bydd y safle'n rhan o ddatblygiad defnydd cymysg gyda'r nod o ddarparu cyfle strategol ar gyfer rheoli gwastraff a gweithgareddau cysylltiedig sy'n seiliedig ar gyflogaeth. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda pherchnogion y safle sef CWM Environmental Ltd (cwmni teckal sy'n eiddo i'r Cyngor Sir) yn benodol, yn ogystal â darparwyr seilwaith, i sicrhau bod y safle'n cael ei ddarparu a bod tystiolaeth gadarn o'i amseriad. Bydd hyn maes o law yn cynnwys llunio uwchgynllun ar gyfer y safle.

| |
|---|
| **Casgliad:**<br>Mae'r gofyniad i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Nant-y-caws wedi'i ddisodli. Ymdriniwyd â dyfodol y safle o ran polisi cynllunio fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig, gan ystyried y canllawiau, y wybodaeth a'r asesiadau a nodir yn yr Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Monitro yn unol â hynny, gan ystyried gwybodaeth a chanllawiau a nodir yn yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018. |

## Priodweddau Amgylcheddol – Yr Amgylchedd Adeiledig a Naturiol

### 29 Targed Polisi Monitro: Sicrhau o leiaf 100 o hectarau o gynefin addas i Fritheg y Gors yn ardal prosiect Caeau Mynydd Mawr yn ystod cyfnod y Cynllun.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Hectarau o gynefin addas a reolir. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Cynnydd parhaus o ran darparu cynefin addas a reolir. | | | |
| **Sbardun asesu** | Dim cynnydd mewn unrhyw flwyddyn benodol. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| 0.59 o hectarau ychwanegol o gynefin addas i löyn byw Britheg y Gors yn cael ei reoli o fewn prosiect Caeau Mynydd Mawr (roedd y ffigur hwn yn net o safleoedd dynodedig a reolir gan CNC). O'u hystyried ochr yn ochr ag AMB 1, 2, 3 a 4, cyfanswm y cynnydd yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 31/3/20 yw 13.02 o hectarau. | 0.2 o hectarau ychwanegol o gynefin addas i löyn byw Britheg y Gors yn cael ei reoli o fewn prosiect Caeau Mynydd Mawr (roedd y ffigur hwn yn net o safleoedd dynodedig a reolir gan CNC). O'u hystyried ochr yn ochr ag AMB 1, 2, 3, 4 a 5, cyfanswm y cynnydd yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 31/3/21 yw 13.22 o hectarau. | Disgwyl canlyniad arolwg o safle newydd. | Mae cyfanswm arwynebedd y safle wedi cynyddu i 82.53ha | Mae cyfanswm arwynebedd y safle wedi lleihau i 81.67ha. Mae'r lleihad hwn mewn tir yn gysylltiedig â'r oedi wrth fabwysiadu'r CDLl Diwygiedig a'r diffyg safleoedd sy'n dod ymlaen. |

**Dadansoddiad:**

Mae cyfanswm arwynebedd y safle wedi lleihau i 81.67ha o 82.53ha.

Er gwaethaf yr arafwch, mae nodau cadwraeth prosiect Caeau'r Mynydd Mawr yn parhau i fod yn hollbwysig. Mae amcan craidd y prosiect - sef diogelu'r boblogaeth Britheg y Gors a'i chynefin - yn parhau i gael blaenoriaeth. Hyd yn oed heb gaffael tir newydd, gall y prosiect ganolbwyntio o hyd ar reoli safleoedd presennol yn effeithiol, gan sicrhau bod cynefinoedd presennol yn cael eu cynnal yn y cyflwr gorau posibl er mwyn i'r glöyn byw oroesi. Mae hyn yn cynnwys mynd ati'n barhaus i fonitro, cynnal a chadw, ac adfer cynefinoedd posibl er mwyn eu gwneud yn fwy addas i'r rhywogaeth.

Unwaith y bydd y CDLl Diwygiedig yn cael ei fabwysiadu, bydd yn sefydlu fframwaith mwy cadarn ar gyfer rheoli twf yn ardal Cross Hands, gan gydbwyso'r angen am ddatblygu gyda chyfrifoldebau amgylcheddol. Bydd datblygiadau yn y dyfodol unwaith eto yn cyfrannu'n ariannol at brosiect Caeau'r Mynydd Mawr, gan hwyluso'r broses o gaffael a rheoli cynefinoedd newydd.

| |
|---|
| **Casgliad:**<br>I gloi, er bod yr oedi yn y CDLl Diwygiedig wedi effeithio ar brosiect Caeau'r Mynydd Mawr dros dro, mae'r sefyllfa yn un y gellir dygymod â hi yn y tymor byr.<br><br>Cyfeirir at gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd ar gael drwy'r ddolen isod:<br>https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/polisi-cynllunio/canllawiau-cynllunio-atodol-cca/# |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Parhau i fonitro ac adrodd mewn AMBau yn y dyfodol.<br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus.  Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.<br><br>Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol Diwygiedig Caeau Mynydd Mawr (yn amodol ar ganlyniad yr Archwiliad o'r CDLl Diwygiedig) ar yr un pryd â mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig.<br><br>**Wrth i ddatblygiadau newydd ddod i'r amlwg o dan y CDLl Diwygiedig, bydd cyfraniadau ariannol yn ailddechrau, gan arwain at gynnydd yn y pen draw yn y tir sydd ar gael ar gyfer gwarchod glöynnod byw. Bwriadwyd i'r prosiect fod yn un y gellir ei addasu, gan gydnabod bod cylchoedd datblygu yn amrywio'n naturiol yn ôl yr amodau economaidd.** |

## 30 Targed Polisi Monitro: Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir sy'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Natura 2000. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC. | | | |
| **Sbardun asesu** | 1 caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groes i gyngor CNC. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB. | Dim ceisiadau cynllunio y gwyddir amdanynt wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB. | . Dim ceisiadau cynllunio y gwyddir amdanynt wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr AMB. |

**Dadansoddiad:**
Mae'r cofnodion yn dangos na chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i gyngor CNC.

Er eglurder, fel ar 31 Mawrth 2022, nid yw'r safleoedd hyn bellach yn rhan o rwydwaith ecolegol Natura 2000 yr UE. Mae Rheoliadau 2019 wedi creu rhwydwaith safleoedd cenedlaethol ar dir ac ar y môr, gan gynnwys ardaloedd morol y glannau a'r môr mawr yn y DU. Felly. maent bellach yn rhan o'r 'Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol' (NSN).

**Casgliad:**
Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.
Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn (yn amodol ar ganlyniad yr Archwiliad o'r CDLl Diwygiedig) ar yr un pryd â mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig.

## 31 Targed Polisi Monitro: Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n effeithio ar gyfanrwydd safle cadwraeth natur dynodedig

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir a allai gael effaith andwyol ar nodweddion safle cadwraeth natur gwarchodedig. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | | | |
| **Sbardun asesu** | 1 caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. |

**Dadansoddiad:**
Mae'r cofnodion yn dangos na chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i gyngor CNC neu Ecolegydd y Cyngor.

Mae cynllunwyr yn parhau i allu gwneud defnydd o wasanaethau ecolegydd proffesiynol penodol. Mae hyn yn parhau i brofi'n amhrisiadwy o ran cynorthwyo gyda phenderfynu ar geisiadau cynllunio a ffurfio fframweithiau polisïau cynllunio.

Un mater nodedig a ddaeth i'r amlwg yn gynnar yn 2021 oedd ystyried ffosffadau. Daw'r isod o wefan y Cyngor:
Mae CNC wedi cyhoeddi 'cyngor cynllunio interim' i sicrhau nad yw'r capasiti amgylcheddol yn dirywio ymhellach. Mae'r 'cyngor' hwn yn ymwneud â phob ACA Afonol y mae ei dalgylch yn ymestyn i Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Gwy ac Afon Cleddau. Fel Awdurdod Cynllunio Lleol, mae'n ofynnol inni ystyried y cyngor a roddir gan CNC wrth wneud penderfyniadau cynllunio (ar gyfer datblygiadau unigol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLl)). O ganlyniad, bydd angen i unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn nalgylch yr afon a allai gynyddu lefelau ffosffad ddangos tystiolaeth glir y gall y datblygiad ddangos niwtraliaeth neu welliant o ran ffosffad yn ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad i'r corff dŵr. Yn y rhan fwyaf o achosion, prin fydd y capasiti i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus a bydd yn rhaid dod o hyd i ateb arall.

Mae nodyn cyngor CNC yn amlinellu lle na all cais cynllunio yn nalgylchoedd Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Gwy ac Afon Cleddau ddangos tystiolaeth y byddai'r cynnig datblygu yn arwain at niwtraliaeth neu welliant o ran ffosffad, yn anffodus ni fyddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu cefnogi'r cais ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu'r effaith annerbyniol ar ansawdd dŵr yr afonydd sydd wedi'u dynodi'n sensitif yn ACA.

Mae swyddogion yn gweithio ar ddeall goblygiadau llawn canllawiau CNC ar gyfer ceisiadau cynllunio cyfredol a chynnydd y CDLl Diwygiedig. Mae cyngor CNC yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran cynigion datblygu mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin ac rydym yn gweithio gyda CNC a'n swyddogion ecoleg i sicrhau ein

| |
|---|
| bod yn gallu symud cynigion datblygu nad ydynt yn niweidio capasiti amgylcheddol ein cyrsiau dŵr yn eu blaenau. Rydym hefyd yn cydweithio â CNC i ddeall y materion ehangach a nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer yr holl gynigion, er mwyn dod o hyd i atebion sy'n cydymffurfio â gofynion y cyngor cynllunio interim newydd.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma<br>https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cyngor-ecoleg/targedau-ffosffad-newydd/#<br><br>Mae'r Awdurdod wedi dangos arweiniad yng Nghymru wrth lunio ymateb i reoli maetholion. Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Hydref 2021 er mwyn codi ymwybyddiaeth o oblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y canllawiau. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd yr Awdurdod y cyfrifydd ffosffad cyntaf yng Nghymru ac mae wedi datblygu canllawiau ar gyfer datblygwyr gan gynnwys dogfen Canllawiau Lliniaru gynhwysfawr. Ym mis Mawrth 2022, sefydlwyd Byrddau Rheoli Maetholion ar gyfer dalgylchoedd Tywi, Cleddau a Teifi. Bydd y byrddau hyn yn darparu'r strwythurau llywodraethu sydd eu hangen i lunio a darparu atebion ar raddfa dalgylch a byddant yn gyfrifol am lunio Cynlluniau Rheoli Maetholion. Mae'r Awdurdod yn parhau i ymateb yn rhagweithiol i wybodaeth newydd gan gynnwys rhagor o iteriadau o ganllawiau CNC, data dosraniad ffynhonnell Dŵr Cymru, a chydweithio ar lefel is-ranbarthol a Chymru gyfan. |
| **Casgliad:**<br>Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Parhau i fonitro ac adrodd mewn AMBau yn y dyfodol.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Hefyd bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithredu amcanion Llesiant y Cyngor. Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.<br><br>Gyda golwg ar y 'mater ffosffadau', mae'r Awdurdod yn parhau i ymateb fel y bo'n briodol gan symud i gyfnod AMB 9. |

## 32 Targed Polisi Monitro: Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n cael effaith andwyol ar statws cadwraethol ffafriol rhywogaeth a warchodir gan Ewrop, neu'n achosi niwed sylweddol i rywogaethau a warchodir gan statudau eraill

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir sy'n cael effaith andwyol ar statws cadwraethol ffafriol rhywogaeth a warchodir gan Ewrop, neu'n achosi niwed sylweddol i rywogaethau a warchodir gan statudau eraill. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | | | |
| **Sbardun asesu** | 1 caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu ecolegydd yr awdurdod. |

**Dadansoddiad:**
Mae'r cofnodion yn dangos na chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i gyngor CNC neu Ecolegydd y Cyngor.
Mae cynllunwyr yn parhau i allu gwneud defnydd o wasanaethau ecolegwyr proffesiynol penodol. Mae hyn yn parhau i brofi'n amhrisiadwy o ran cynorthwyo gyda phenderfynu ar geisiadau cynllunio a ffurfio fframweithiau polisïau cynllunio.

Yn ystod 2021-22 mabwysiadwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gadwraeth Natur a Bioamrywiaeth. Cyfeirier at darged 37 isod.

**Casgliad:**
Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Parhau i fonitro ac adrodd mewn AMBau yn y dyfodol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Hefyd bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithredu amcanion Llesiant y Cyngor. Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

## 33 Targed Polisi Monitro: Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd sy'n cael effaith andwyol ar Ardal Tirwedd Arbennig

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir a allai gael effaith andwyol ar Ardal Tirwedd Arbennig. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu swyddog tirweddau'r awdurdod. | | | |
| **Sbardun asesu** | 5 caniatâd cynllunio wedi'u dyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn groesi gyngor CNC neu swyddog tirweddau'r awdurdod dros gyfnod o 3 blynedd yn olynol. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor. | Dim mwy na 5 cais wedi'i gymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i gyngor CNC neu Swyddog Tirweddau'r Cyngor. |

**Dadansoddiad:**
Nid adolygiad lefel uchel cychwynnol o'r ceisiadau cymeradwy a gynhyrchwyd ar 'haen cyfyngiadau' yr Ardal Tirwedd Arbennig yn codi pryderon o ran y targed hwn. Mae'r swyddogion yn parhau i allu gwneud defnydd o wasanaethau Swyddog Tirweddau proffesiynol penodol, sy'n adnodd amhrisiadwy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a llunio polisïau cynllunio.

**Casgliad:**
Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Parhau i fonitro ac adrodd mewn AMBau yn y dyfodol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Hefyd bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithredu amcanion Llesiant y Cyngor. Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

## 34 Targed Polisi Monitro: Nid yw cynigion datblygu'n cael effaith andwyol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb adeiledig neu hanesyddol a'u lleoliad

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Achlysuron pan fyddai datblygu a ganiateir yn cael effaith andwyol ar Adeilad Rhestredig; Ardal Gadwraeth; Safle/Ardal o Arwyddocâd Archeolegol; neu Dirwedd, Parc a Gardd Hanesyddol neu eu lleoliad. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo lle ceir gwrthwynebiad heb ei ddatrys gan Swyddog Cadwraeth y Cyngor, Cadw neu Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed. | | | |
| **Sbardun asesu** | 5 caniatâd cynllunio wedi'u dyfarnu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol lle ceir gwrthwynebiad heb ei ddatrys gan Swyddog Cadwraeth y Cyngor, Cadw neu Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed dros gyfnod o 3 blynedd yn olynol. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr AMB cyntaf. | Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr ail AMB. | Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod y trydydd AMB. | Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod y pedwerydd AMB. | Cyrhaeddwyd y targed yn ystod cyfnod yr AMB diweddaraf. |

**Dadansoddiad:**

Dylid nodi nad yw adolygiad o'r ceisiadau cymeradwy a gynhyrchwyd gan ddefnyddio'r 'haenau cyfyngiadau' canlynol yn dynodi unrhyw bryder arwyddocaol mewn perthynas â'r targed hwn:

- Ardaloedd Cadwraeth
- Parciau a Gerddi Hanesyddol
- Adeiladau Rhestredig
- Henebion Rhestredig.

Mae Adain Rheoli Datblygu'r Cyngor yn parhau i allu gwneud defnydd o wasanaethau Swyddog Cadwraeth Adeiledig proffesiynol. Mae hyn yn parhau i fod yn amhrisiadwy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a ffurfio polisïau cynllunio.

**Casgliad:**

Y targed wedi'i gyrraedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**

Parhau i fonitro ac adrodd mewn AMBau yn y dyfodol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Hefyd bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gweithredu amcanion Llesiant y Cyngor. Cyfeirir at y gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2018.

## 35 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dirweddau a Chanllaw Dylunio Ardaloedd Tirwedd Arbennig

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 7 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. |
| | |
| **Targed wedi'i gwblhau - Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.** | |

**Dadansoddiad:**
Cafodd y CCA ar Greu a Dylunio Lleoedd ei fabwysiadu ym mis Medi 2016 ac mae'n ceisio arwain a hybu dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel i sicrhau datblygiadau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu cymeriad a gofynion Sir Gaerfyrddin. Dylid nodi bod y CCA hwn yn ymgorffori materion perthnasol i Ddylunio Tirwedd a Thirwedd Arbennig.

Mae'r CCA a fabwysiadwyd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

CCA Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio

**Casgliad:**
Y targed wedi'i gyrraedd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Amherthnasol.

## 36 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Archaeoleg

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 7 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. |

**Targed wedi'i gwblhau - Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.**

**Dadansoddiad:**
Cafodd y CCA ar Archaeoleg a Datblygiad ei fabwysiadu ym mis Medi 2016. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
CCA Archaeoleg a Fabwysiadwyd

**Casgliad:**
Y targed wedi'i gyrraedd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Amherthnasol.

## 37 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth (gan gynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur)

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 12 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun (i'w fonitro'n rheolaidd wrth aros dynodiadau parhaus). |
| | |
| **Targed wedi'i gwblhau - Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu** | |

**Dadansoddiad:**
Cafodd y CCA ei fabwysiadu ym mis Medi 2016 ac mae ar gael i'w weld drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
CCA Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth

Cyfeirir at yr hyfforddiant parhaus a ddarperir gan yr Ecolegydd mewnol gyda'r nod o wella dealltwriaeth o gynnwys y CCA yn ymarferol. Roedd hyn hefyd yn cydnabod darpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn galluogi archwilio goblygiadau a chyfleoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
Gwnaed cynnydd yn ystod 2021-22 wrth ddiweddaru'r Canllawiau Cynllunio Atodol Mabwysiedig ar Gadwraeth Natur a Bioamrywiaeth a chyda golwg ar baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol o'r fath i gefnogi'r CDLl Diwygiedig datblygol.

**Casgliad:**
Y targed wedi'i gyrraedd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Amherthnasol.

## 38 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | | | | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 5 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. | | | |
| **Perfformiad 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019** | **Perfformiad 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020** | **Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021** | **Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022** | **Perfformiad 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023** |
| **Targed wedi'i gwblhau - Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu** | | | | |

**Dadansoddiad:**
Cafodd y CCA ar Greu a Dylunio Lleoedd ei fabwysiadu ym mis Medi 2016 ac mae'n ceisio arwain a hybu dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel i sicrhau datblygiadau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu cymeriad a gofynion Sir Gaerfyrddin.

Mae'r CCA a fabwysiadwyd ar gael i'w weld drwy ddilyn y ddolen isod:
CCA Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio

**Casgliad:**
Y targed wedi'i gyrraedd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Amherthnasol.

## 39 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 15 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. |

**Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.**

**Dadansoddiad:**
Bydd y gofyniad i baratoi a chyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

**Casgliad:**
Bydd y posibilrwydd o baratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig yn golygu bod modd rhoi ystyriaeth bellach iddo, yng ngoleuni newidiadau i bolisi cenedlaethol ac i sicrhau cysondeb ag unrhyw bolisïau sy'n datblygu mewn perthynas â'r CDLl.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Rhoi ystyriaeth i hyn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

## 40 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Goed, Tirweddu a Datblygu

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Goed, Tirweddu a Datblygu. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 15 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. |
| | |
| **Nid oes Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u cynhyrchu.** | |

**Dadansoddiad:**
Bydd y gofyniad i baratoi a chyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

**Casgliad:**
Bydd y posibilrwydd o baratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig yn golygu bod modd rhoi ystyriaeth bellach iddo, yng ngoleuni newidiadau i bolisi cenedlaethol ac i sicrhau cysondeb ag unrhyw bolisïau sy'n datblygu mewn perthynas â'r CDLl.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Rhoi ystyriaeth i hyn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

## Cyfleusterau Hamdden a Chymunedol

### 41 Targed Polisi Monitro: Darparu cyfleusterau cymunedol newydd a chadw a gwella'r cyfleusterau cymunedol presennol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol newydd.<br><br>Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n arwain at golli cyfleuster cymunedol. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisïau SP16 a RT8. | | | |
| **Sbardun asesu** | 1 cais wedi'i gymeradwyo yn groes i Bolisïau SP16 a RT8. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisïau SP16 a RT8. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisïau SP16 a RT8. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisïau SP16 a RT8. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisïau SP16 a RT8. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisïau SP16 a RT8. |
| **Dadansoddiad:**<br>Mae adolygiad o'r hysbysiadau penderfyniadau cynllunio yn dynodi nad oes unrhyw geisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau polisïau SP16 ac RT8 y CDLl. | | | | |
| **Casgliad:**<br>Targed wedi'i gyrraedd yng nghyfnod yr AMB hwn. | | | | |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus nes bod y CDLl Diwygiedig, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, yn cael ei fabwysiadu. | | | | |

## 42 Targed Polisi Monitro: Gwrthsefyll colli mannau agored yn unol â darpariaethau Polisi REC1

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Maint y mannau agored a gollwyd i ddatblygiadau (hectarau). | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Ni ddylid colli unrhyw fan agored i ddatblygiad ac eithrio lle bo hynny'n unol â Pholisi REC1. | | | |
| **Sbardun asesu** | Collwyd man agored i ddatblygiad yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1 sy'n arwain at golled net yn y mannau agored. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1. | Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau Polisi REC1. |

**Dadansoddiad:**
Mae adolygiad o gymeradwyaethau cynllunio yn erbyn yr 'haen cyfyngiadau' bresennol ar fannau agored yn dangos nad oes unrhyw geisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i ddarpariaethau polisi REC 1 y CDLl.

**Casgliad:**
Targed wedi'i gyrraedd yng nghyfnod yr AMB hwn.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Parhau i fonitro ac adrodd yn AMBau y dyfodol.

Diweddaru'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd a'r Asesiad o Fannau Agored fel y bo'n briodol wrth i'r CDLl Diwygiedig symud ymlaen tuag at gael ei fabwysiadu.

Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus nes bod y CDLl Diwygiedig, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, yn cael ei fabwysiadu.

## 43 Targed Polisi Monitro: Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ofynion Mannau Agored ar gyfer Datblygiadau Newydd

| | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol. |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | |
| **Sbardun asesu** | Heb gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol cyn pen 15 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. |
| | |
| **Targed wedi'i gwblhau - Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u mabwysiadu.** | |

**Dadansoddiad:**
Cafodd y CCA ei fabwysiadu ym mis Medi 2016.

Mae'r CCA a fabwysiadwyd ar gael i'w weld drwy ddilyn y ddolen isod:
https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213721/adopted-leisure-open-space-requirements-for-new-developments-sep-2016.pdf

**Casgliad:**
Y targed wedi'i gyrraedd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**
Amherthnasol.

## Y Gymraeg

### 44 Targed Polisi Monitro: Datblygiadau preswyl fesul cam mewn ardaloedd lle mae 60% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Caniatadau cynllunio yn cael eu dyfarnu ar gyfer datblygiadau preswyl o bum annedd neu ragor mewn Cymunedau Cynaliadwy a chaniatadau cynllunio yn cael eu dyfarnu ar gyfer datblygiadau preswyl o ddeg annedd neu ragor mewn Ardaloedd Twf, Canolfannau Gwasanaethau a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol. | | | |
| **Targed Monitro Blynyddol / Interim** | Yr holl ganiatadau cynllunio a roddir ar gyfer datblygiadau preswyl o bum annedd neu ragor mewn Cymunedau Cynaliadwy a'r caniatadau cynllunio a roddir ar gyfer datblygiadau preswyl o ddeg annedd neu ragor mewn Ardaloedd Twf, Canolfannau Gwasanaethau a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol i gynnwys gofyniad i ddatblygu fesul cam, yn unol â'r polisi ar yr Iaith Gymraeg a'r canllawiau a geir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr iaith Gymraeg. | | | |
| **Sbardun asesu** | Un caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu ar gyfer datblygiad preswyl o bum annedd neu ragor mewn Cymuned Gynaliadwy neu un caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu ar gyfer datblygiad preswyl o ddeg annedd neu ragor mewn Ardal Dwf, Canolfan Gwasanaethau neu Ganolfan Gwasanaethau Lleol heb gynnwys gofyniad i ddatblygu fesul cam, yn unol â pholisi'r CDLl ar yr Iaith Gymraeg a'r canllawiau a geir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr iaith Gymraeg. | | | |
| **1/4/19 – 31/03/20** | **1/4/20 – 31/3/21** | **1/4/21 – 31/3/22** | **1/4/22 – 31/3/23** | **1/4/23 – 31/3/24** |
| Cymeradwywyd 1 cais yn groes i'r polisi. Darperir dadansoddiad. | Dim caniatadau wedi'u dyfarnu'n groes i Bolisi SP18 o'r CDLl. | Dim caniatadau wedi'u dyfarnu'n groes i Bolisi SP18 o'r CDLl. | Dim caniatadau wedi'u dyfarnu'n groes i Bolisi SP18 o'r CDLl. | Cymeradwywyd 1 cais yn groes i'r polisi. Darperir dadansoddiad. |

**Dadansoddiad:**

Mae rhestr o gymunedau lle mae 60% neu fwy o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn cael ei chymryd o ddata Cyfrifiad 2011: Gors-las, Llan-non, Pencarreg, Pontyberem a Cwarter Bach. Dynodir yr ardaloedd hyn ar Gynllun Mewnosod y CDLl.

Nododd adolygiad o geisiadau cymeradwy yn y 5 cymuned hyn bod dau safle wedi cael caniatâd a fyddai'n berthnasol i'r polisi ac sy'n uwch na'r trothwyon a nodir ym Mholisi SP18 (5 neu fwy o anheddau mewn Cymunedau Cynaliadwy a 10 neu fwy mewn Ardaloedd Twf, Canolfannau Gwasanaeth a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol). Fodd bynnag, yn unol â Chanllaw Cynllunio Atodol y Gymraeg, nid yw anheddau fforddiadwy a gynigir fel rhan o'r cais cynllunio yn cyfrif tuag at y trothwyau a nodir ym Mholisi SP18. Roedd y ddau gynnig ar gyfer datblygiad a oedd yn cynnwys anheddau 100% fforddiadwy ac felly ni fyddent yn bodloni'r trothwy a nodwyd sy'n gofyn am liniaru trwy raddoli'r datblygiad. Y rhain yw:

- PL/03083- Addasu hen adeilad ysgol yn breswylfa a chodi 20 o dai fforddiadwy ar dir yr hen ysgol, gan gynnwys yr holl waith cysylltiedig, yn ward Pencarreg; a,

- PL/07031 Bwriad i adeiladu 20 o breswylfeydd gyda'r seilwaith cysylltiedig, yn ward Llannon.

Fodd bynnag dylid nodi, er bod yr ail gais a restrir uchod yn ward Llannon yn gynnig ar gyfer tai fforddiadwy, mae'r penderfyniad cysylltiedig ond yn mynnu y dylai 10% o'r anheddau a gaiff eu codi fod yn fforddiadwy. Felly nid oes mecanwaith cynllunio ar waith i sicrhau bod y cynllun yn cael ei

| |
|---|
| gyflawni'n gyfan gwbl fel cynllun fforddiadwy. Er y rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei gyflawni fel y cynigiwyd ar gyfer tai fforddiadwy yn unig, mae wedi cael ei nodi uchod fel 'ambr' o ystyried nad oes mecanwaith cynllunio ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd ac felly gallai'r cynllun dorri'r trothwyon a nodir ym Mholisi SP18. |
| **Casgliad:**<br>Rhoddwyd un caniatâd yn groes i bolisi SP18 y CDLl. |
| **Camau i'w cymryd yn y dyfodol (os oes angen):**<br><br>Bydd y dangosydd uchod yn destun monitro parhaus nes bod y CDLl Diwygiedig, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, yn cael ei fabwysiadu. |

# Pennod 4

## Arfarniad Cynaliadwyedd / Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol

### Methodoleg

4.1 Mae monitro amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd-AAS yn gallu bod yn sail i'r gwaith o adolygu perfformiad y CDLl drwyddo draw. Ni chredir y dylai proses fonitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd-AAS gael ei rhoi ar waith ar wahân yn llwyr i'r monitro ar y Cynllun. Dylai helpu i lunio darlun cyflawn o gyflwr y Sir o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol, gyda sylwebaeth yn y golofn olaf.

4.2 Er nad oes un o'r dangosyddion wedi cael ei ddileu, dylid nodi bod y golofn sylwebaeth yn ei gwneud yn glir lle nad oes gwybodaeth ar gael a/neu fod gwybodaeth berthnasol. Mewn rhai achosion nid oes gwybodaeth ar gael (neu'n berthnasol) mwyach; mewn achosion eraill nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl i alluogi'r monitro i fod yn ddefnyddiol.

4.3 Dylid nodi bod nifer o ddangosyddion Arfarniad Cynaliadwyedd lle na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft, y rheiny sydd wedi'u seilio ar y cyfrifiad. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, felly nid yw'r rhain o reidrwydd yn mynd i fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen, o safbwynt monitro yn y dyfodol.

4.4 Dylid nodi hefyd y penderfynwyd peidio â defnyddio'r system goleuadau traffig a ddefnyddir gyda Dangosyddion Monitro'r CDLl wrth Fonitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae hyn yn adlewyrchu mai amcanion i ymgyrraedd atynt yw llawer o amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd ac, i ryw raddau, gwybodaeth i'w monitro o fewn senario 'byd delfrydol' ydyw. Hefyd, nid y CDLl yw'r unig ffactor y byddai angen ei ystyried er mwyn cyflawni eu hamcanion. Nid yw'r Monitro ar yr Arfarniad

Cynaliadwyedd yn cynnwys targedau fel y cyfryw, yn wahanol i'r monitro ar y CDLl, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwebaeth yn sgôr goleuadau traffig.

4.5 Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn fframwaith monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymwneud yn bennaf ag amrywiaeth eang o ddata sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol, gan wahanol adrannau o'r Cyngor, ac yn allanol gan sefydliadau eraill. Mae'r golofn data'n dangos o ble y daeth y data ac er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod yr 'hyperddolenni' yn fyw, ni all y Cyngor fod yn gyfrifol am gynnwys safleoedd allanol.

4.6 Dylid nodi hefyd bod yr Awdurdod (drwy gyfrwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) wedi bod yn casglu gwybodaeth gyda'r bwriad o ddatblygu Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r rhain ym mis Mai 2018, a mabwysiadwyd yr un mwyaf diweddar ym mis Ebrill 2023. Manteisiwyd ar gyfleoedd i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes Polisi Corfforaethol gyda'r bwriad o ddatblygu adolygiad integredig o'r llinell sylfaen gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd uniongyrchol i sicrhau gwybodaeth ddiriaethol ar gyfer monitro Arfarniad Cynaliadwyedd-AAS yn y dyfodol drwy gyfrwng proses yr AMB.

| Maes AoG | Amcanion AoG | Dangosyddion Llinell Sylfaen | Dangosyddion Ychwanegol i Fonitro Risgiau a Chyfleoedd Sylweddol | Data | Sylwebaeth ar y Dangosyddion Llinell Sylfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 - Datblygu Cynaliadwy | 1-1 Byw o fewn terfynau amgylcheddol<br>1-2 Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn<br>1-3 Gwireddu economi gynaliadwy<br>1-4 Cael gwared â rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd i newid ymddygiad | (a) Ôl-troed ecolegol Sir Gaerfyrddin yn ôl unedau arwynebedd y person<br><br>(b) Gwireddu'r deg prif ymrwymiad a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy LlCC a Chymru'n Un<br><br>(c) Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a GYG y pen<br><br>(d) Y ganran o boblogaeth Sir Gaerfyrddin mewn cartrefi incwm isel | (Gweler y meysydd eraill.) | **http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/ecological-footprint-of-wales-report/?skip=1&lang=cy**<br><br>Asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Sir Gaerfyrddin (Testun wedi'i ddarparu gan yr Is-adran Polisi Corfforaethol)<br><br>https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/GVA-by-Measure-WelshEconomicRegion-Year<br><br>https://www.thecarmarthenshirewewant.wales/media/qkthknkn/well-being-plan.pdf | (a) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Yn 2011, cyfrifwyd yr ôl troed carbon ar 3.36 gha/c, gyda'r cyfartaledd yng Nghymru yn 3.28.<br><br>(b) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Yn 2015, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddarparu llywodraethu cryfach ar gyfer yr hirdymor yng Nghymru. Cynhaliwyd adolygiad ledled y Sir yn benodol ar Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn 2019, ond yn fwy lleol gellid defnyddio monitro amcanion llesiant y Cyngor ei hun fel dangosydd monitro amgen (fel yr aseswyd yn Adroddiad Blynyddol 2021/2022 ar Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-2023). Mae'r amcanion Llesiant lleol hyn wedi cael eu diwygio ers hynny drwy Strategaeth Gorfforaethol 2023-2028.<br><br>(c) Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r mesur safonol o werth ariannol gweithgaredd economaidd i ardaloedd lleol neu ddiwydiannau unigol. Mae data dros dro yn awgrymu bod GYG fesul pen o'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o £16,699 i £19,013 rhwng 2020-21; serch hynny, mae'n parhau i fod yn nag i Gymru (£22,380) a'r Deyrnas Unedig (£30,221).<br><br>(d) Yn ystod 2021, nodwyd bod 29,444 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, sy'n gynnydd o dros 6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 27,691. Diffiniad tlodi yw pan fo "incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain". Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22 fod 11% o'r aelwydydd sy'n cymryd rhan yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu hystyried yn byw mewn amddifadedd materol. |
| 2 - Bioamrywiaeth | 2-1 Osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig ac annog eu gwella<br>2-2 Amddiffyn, gwella a chreu cynefinoedd priodol i fywyd gwyllt a bioamrywiaeth ehangach mewn | (a) Statws rhywogaeth â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP)<br><br>(b) Statws cynefinoedd BAP â blaenoriaeth<br><br>(c) % y cynefinoedd a'r rhywogaethau BAP sy'n sefydlog neu'n cynyddu<br><br>(d) Llwyddiant yn erbyn targedau BAP cenedlaethol a lleol<br><br>(e) Arwynebedd o barciau a mannau gwyredd trefol a ddarperir gan y CDLl | Nifer y cynlluniau datblygu sy'n cynnwys ardaloedd bioamrywiaeth trefol<br>Nifer y datblygiadau sy'n cael effaith niweidiol ar safleoedd dynodedig<br>Nifer y datblygiadau ar safleoedd dynodedig<br>Y gyfran o gynefinoedd newydd a grëir gan y CDLl<br>Cyfran y datblygu ar safleoedd tir glas | Rhwydwaith Safle Cenedlaethol y DU (ACA ac AGA): taenlen 2023 â manylion cryno am safleoedd ar gael o: https://hub.jncc.gov.uk/assets/a3d9da1e-dedc-4539-a574-84287636c898 | (a,b,c,d) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>Nodir anghenion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ar gyrff cyhoeddus ynglŷn â chynnydd Bioamrywiaeth ac ystyrir hyn mhellach o fewn adran gyd-destunol yr AMB yma.<br>(e) Mewn perthynas â pharciau trefol, mae'r CDLl yn nodi dynodiadau hamdden sydd wedi'u cynnig a chyfeirir at y fframwaith Polisi yn y cyswllt hwn. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(f) Mae'r dolenni a ddangosir yn y golofn nesaf yn darparu arfarniad tra chynhwysfawr a chaiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. Bernir bod 29% o'r nodweddion yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Sir Gaerfyrddin mewn cyflwr ffafriol, sydd yn gynnydd o'r 18% yn yr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ardaloedd trefol a gwledig | (f) % y safleoedd ACA, AGA a SoDdGA a'u nodweddion sydd mewn cyflwr ffafriol<br><br>(g) Statws rhywogaethau a chynefinoedd yn ôl Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 1996<br><br>(h) Nifer y Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur dynodedig<br><br>(i) Y ganran o'r tir a reolir fel ardaloedd dal a storio carbon (e.e. rheoli mawndiroedd a choetiroedd) | Cyfran y datblygu ar safleoedd tir llwyd<br>Y gyfran o ddatblygiadau newydd ar goridorau bywyd gwyllt | | asesiad gwaelodlin. Ystyrid bod 86% o'r nodweddion Ardal Gwarchodaeth Arbennig hefyd mewn cyflwr ffafriol.<br><br>(g) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(h) Nid oes Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur wedi'u dynodi yn ardal y Cynllun ar hyn o bryd. Gwneir darpariaeth ar gyfer dynodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr Amgylchedd Naturiol a Bioamrywiaeth. Caiff hyn ei fonitro wrth i'r gwaith o weithredu'r Cynllun fynd rhagddo a chaiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun..<br><br>(i) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Mae'r CDLl yn cydnabod ffocws Polisi Cynllunio Cymru o ran y potenial i annog defnyddiau tir ac arferion rheoli tir sy'n helpu i sicrhau a gwarchod dalfeydd carbon. Cyfeirir at bolisi SP14 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol a'r polisïau perthnasol i amddiffyn yr amgylchedd yn y CDLl mabwysiedig. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. Dangosodd astudiaeth flaenorol a gynhaliwyd yn 2022 ar gyfanswm yr allyriadau ar y tir yn Sir Gaerfyrddin fod allyriadau o 1,560,654 kg$CO_2$e ond y dilewyd 2,257,770 kg$CO_2$. |
| 3 – Ansawdd Aer | 3-1 Cynnal/gostwng lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU<br>3-2 Gostwng lefelau oson ar lefel y ddaear<br>3-3 Lleihau'r angen i deithio, drwy leoli datblygiadau newydd yn briodol a darparu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus | (a) Nifer a maint yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) yn Sir Gaerfyrddin<br><br>(b) Monitro ansawdd aer yn Llandeilo (monitro AQMA o bosibl yn y dyfodol)<br><br>(c) Lefelau llygryddion aer allweddol y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol (NAEI) (e.e. Bensen, 1,3-Biwtadïen, Plwm, NO2, PM10, SO2)<br><br>(d) Ardal o gynefinoedd sensitif uwchlaw'r llwythi critigol o ran asideiddio ac ewtroffigedd wedi'ui mesur fel (i) asidedd a (ii) nitrogen maethol<br><br>(e) Lefelau oson ar lefel y ddaear | Nifer y datblygiadau o fewn 1 km i gyffyrdd traffyrdd / cefnffyrdd<br>Nifer y datblygiadau wedi'u lleoli fel bod llai o angen teithio (yn agos at wasanaethau a chyfleusterau)<br>Nifer y datblygiadau sydd â llwybrau bws, trên neu drafnidiaeth gyhoeddus arall o safon uchel rhwng aneddiadau<br>Nifer y datblygiadau mewn ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael<br>Nifer y datblygiadau sy'n debygol o gyfrannu at lefelau uwch o lygryddion ansawdd aer cenedlaethol y DU (ar wahân i drafnidiaeth) | Adran Iechyd yr Amgylchedd – Cyngor Sir Caerfyrddin.<br>https://datamap.gov.wales/layers/inspire-nrw:NRW_UWWTD_Sensitive_Areas_Eutrophic_2009<br>https://datamap.gov.wales/layers/inspire-nrw:NRW_UWWTD_Sensitive_Areas_Nitrates_2009<br><br>https://datamap.gov.wales/layergroups/inspire-nrw:ComplianceAssessmentOfWelshRiverSacsAgainstPhosphorusTargets<br><br>https://www.gov.uk/government/statistics/air-quality-statistics/concentrations-of-ozone | (a) Mae tri AQMA yn parhau i fod ar gyfer $NO_2$, un yn Llandeilo (dynodwyd yn 2011), Caerfyrddin, a Llanelli (y ddau wedi'u dynodi ym mis Awst 2016). Caiff y sefyllfa ddiweddaraf hon ei hadlewyrchu yn yr adolygiad o'r Cynllun ac mae cyswllt rheolaidd ag Adran Iechyd yr Amgylchedd yn y cyd-destun hwn.<br>b) Nid ydym wedi mynd y tu hwnt i'r Amcanion Ansawdd Aer yn Llandeilo ers 2018. Yn 2022, ni chofnodwyd achosion o fynd y tu hwnt i'r Amcanion Ansawdd Aer blynyddol yn Llandeilo, er bod pum safle monitro wedi nodi canlyniadau misol uwchlaw 40µg/m3. Gall tywydd garw ddylanwadu ar y canlyniadau hyn. Ar y cyfan, rydym wedi gweld ychydig o welliant yn 2022 o'i gymharu â 2021, er bod rhai safleoedd hefyd wedi gweld mân gynnydd amlwg. Mae gaeaf cynnar 2023 wedi nodi lefelau is o NO2 o'i gymharu â dechrau 2021. Rydym hefyd yn parhau i arsylwi tuedd gyffredinol ar i lawr dros y pum mlynedd diwethaf, gyda'r ffigurau'n llawer is na'r hyn a adroddwyd yn y blynyddoedd cyn Covid.<br><br>(c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(d) Mae'r dolenni a ddangosir yn y golofn nesaf yn darparu arfarniad tra chynhwysfawr a chaiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(e) Ar lefel y DU, mae'r dolenni a ddangosir yn y golofn nesaf yn darparu arfarniad tra chynhwysfawr a chaiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 – Ffactorau Hinsoddol | 4-1 Lleihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr<br>4-2 Gwneud Sir Gâr yn gryfach i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy wneud lle i ddŵr, encilio arfordirol a phatrymau dosbarthiad cynefinoedd sy'n newid<br>4-3 Annog pob datblygiad newydd i fod â'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd<br>4-4 Annog cadwraeth ynni a gwell effeithlonrwydd ynni<br>4-5 Defnyddio llai o ynni a hyrwyddo ffynonellau ynni adnewyddadwy | (a) Allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol (yn ôl sector)<br><br>(b) Defnydd ynni domestig Sir Gaerfyrddin<br><br>(c) Y gyfran o gerbydau yn y sir sy'n defnyddio tanwydd amgen<br><br>(d) Y ganran o gwmnïau sydd â Safon Lefel 5 System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd<br><br>(e) Y gyfran o'r rhwydwaith trafnidiaeth a all ymdopi â'r cynnydd disgwyliedig mewn tymheredd yn gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd<br><br>(f) Nifer y safleoedd sy'n cael eu defnyddio i helpu i liniaru ac ymaddasu i effaith yr hinsawdd, e.e. amddiffynfeydd meddal rhag llifogydd<br><br>(g) Nifer y cartrefi sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer microgynhyrchu<br><br>(h) Cartrefi sy'n sefydlu microgynlluniau adnewyddadwy<br><br>(i) Sgôr ynni cyfartalog tai o dan y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP)<br><br>(j) Nifer y prosiectau lleihau carbon wedi'u seilio mewn trefi/cymunedau | Nifer o ddatblygiadau sy'n parchu cynefinoedd naturiol a choridorau gwyrdd presennol<br>Nifer y ceisiadau cynllunio am ficrogynlluniau adnewyddadwy a'r nifer sy'n cael eu gosod<br>Sgôr SAP cyfartalog tai<br>Nifer y prosiectau lleihau carbon wedi'u seilio mewn trefi/cymunedau<br>Nifer y megawatiau gosodedig o gapasiti ynni adnewyddadwy yn Sir Gaerfyrddin<br>Nifer y tyrbinau gwynt<br>% y datblygiadau â Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)<br>Canran y stoc dai sy'n cyrraedd safonau CfSH a BREEAM penodol<br>Canran y swyddfeydd, adeiladau adwerthu a diwydiannol sy'n cyrraedd safonau BREEAM<br>Nifer y datblygiadau newydd a godir i fod yn niwtral o ran carbon | Defnydd nwy a thrydan domestig awdurdodau lleol ar gyfartaledd fesul defnyddiwr - **http://gov.wales/docs/statistics/2015/150225-energy-generation-consumption-2013-en.pdf**<br><br>**http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/renewable/low-carbon-baseline-survey/?lang=en** | (a) Mae data ar gael hyd at 2016 yn unig. Gwelwyd cwymp o 5.0% mewn allyriadau carbon yn y sector domestig rhwng 2015 a 2016; fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 2.0% ac 1.2% mewn diwydiant a'r sector masnachol a thrafnidiaeth yn y drefn honno. Arweiniodd hyn at gynnydd cyffredinol mewn allyriadau CO2 yn Sir Gaerfyrddin o 1.5% i 1162.3 ktCO2.<br><br>(b) Mae Defnydd Ynni Domestig Sir Gaerfyrddin 2013 o ran Nwy yn 13,119 a Thrydan yn 3,815. 13,029 a 3,736 y naill a'r llall yw cyfartaledd Cymru.<br><br>(c,d,e,f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(g) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Bydd unrhyw oblygiadau yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad i'r Cynllun (PD yw paneli solar yn y mwyafrif o achosion)<br><br>(h,i) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(j) Mae'r adroddiad yn dangos ynni carbon isel yng Nghymru fesul awdurdod lleol. Nodir 3,856 o brosiectau yn Sir Gaerfyrddin o gyfanswm o 51,503 drwy'r wlad. Mae gan Sir Gaerfyrddin 3,856 o brosiectau cynhyrchu carbon isel sy'n harneisio ynni'r haul, y gwynt a ffynonellau adnewyddadwy eraill i gynhyrchu tua 328GWh o ynni gwyrdd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 - Dŵr | 5-1 Sicrhau bod ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac ardaloedd arfordirol yn gwella a sicrhau y gwneir yn fawr o gyflwr hydromorffolegol dyfroedd<br>5-2 Amddiffyn a chynnal adnoddau dŵr yn y gadwyn gyflenwi gyhoeddus a sicrhau bod digon o ddŵr ar gael i'r amgylchedd bob adeg o'r flwyddyn<br>5-3 Lleihau i'r eithaf y llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol a gwledig<br>5-4 Cynyddu effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a'r rhai sy'n cael eu hadnewyddu<br>5-5 Gwneud lle i ddŵr, a lleihau'r perygl llifogydd | (a) Nifer y digwyddiadau lle mae cartrefi dan ddŵr llif o ffynonellau arfordirol, afonol a draeniau<br><br>(b) Y ganran o ddarnau o afonydd sydd o ansawdd cemegol neu fiolegol da<br><br>(c) Y ganran o ddyfroedd sydd wedi'u hadfer i Statws Ecolegol Da<br><br>(d) Nifer y digwyddiadau llygredd dŵr sydd wedi'u cadarnhau<br><br>(e) Y ganran o ddatblygiadau yn Sir Gaerfyrddin sydd â Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)<br><br>(f) Nifer y tai sydd â mesurydd dŵr<br><br>(g) Ardal lle tynnir dŵr o ddyfroedd wyneb ar lefel anghynaliadwy<br><br>(h) Ardal lle tynnir dŵr o ddŵr daear ar lefel anghynaliadwy<br><br>(i) Y gyfran o'r rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cael ei hamddiffyn rhag perygl llifogydd yn y dyfodol<br><br>(j) Y defnydd y pen o ddŵr<br><br>(k) Y ganran o ddyfroedd ymdrochi sy'n cyrraedd safonau gorfodol CE<br><br>(l) Nifer y traethau sy'n cyrraedd gofynion y Bartneriaeth Môr Glas o ran ansawdd traethau a dŵr | Y ganran o ddatblygiadau newydd a ganiateir ar orlifdiroedd<br>Nifer y datblygiadau a godir yn groes i gyngor Asiantaeth yr Amgylchedd<br>Y cartrefi sydd wedi cofrestru i gael rhybuddion llifogydd fel canran o'r holl gartrefi y mae perygl iddynt gael llifogydd<br>Nifer y cynlluniau ailgylchu dŵr llwyd | Cyngor Sir Caerfyrddin – Gwasanaethau Hamdden. | (a,b,c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br>d) O'r set ddata fwyaf diweddar a adroddwyd (Ebrill 2017), cafodd 13 achos o lygredd dŵr a gadarnhawyd eu hadrodd yn Sir Gaerfyrddin yn ystod cyfnod 2017-18. Mae hyn yn ostyngiad o 17 achos yn 2016.<br>(e) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Dylid cyfeirio at fframwaith monitro'r Cynllun mewn perthynas â draenio cynaliadwy. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(f,g,h,i,j) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>k) Caiff dau safle ymdrochi yn Sir Gaerfyrddin eu monitro'n flynyddol sef Pentywyn a Phen-bre. Yn 2022. dyfarnwyd bod ansawdd dŵr ymdrochi'r ddau draeth yn parhau i fod yn 'Rhagorol', pan gawsant eu hadolygu yn erbyn safonau'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi.<br><br>(l) Caiff Cefn Sidan ei brofi ac mae'n bodloni gofynion y Bartneriaeth Môr Glas gan fod ganddo statws baner las. Mae Pentywyn yn bodloni'r gofynion er mwyn ennill y wobr, sy'n cynnwys asesiadau o'r traeth ac ansawdd y dŵr. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 - Asedau Materol | 6-1 Cyfyngu gymaint â phosibl ar y defnydd o adnoddau cyfyngedig a hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau a defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu<br>6-2 Hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff, sef arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu<br>6-3 Annog y gwaith o ddiwallu anghenion yn lleol<br>6-4 Hyrwyddo defnydd o adnoddau mwy cynaliadwy<br>6-5 Gwella integreiddiad gwahanol ddulliau trafnidiaeth<br>6-6 Hyrwyddo defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy (e.e. beicio a cherdded) | (a) Yn 2009/10 dylai Sir Gaerfyrddin gyrraedd o leiaf 40% o ailgylchu/compostio ac isafswm o 15% o gompostio a 15% o ailgylchu<br><br>(b) Sgil-gynhyrchion gwastraff yn ôl sector<br><br>(c) Sgil-gynhyrchion gwastraff yn ôl y dull gwaredu<br><br>(d) Cyfanswm (i) y gwastraff cartref a (ii) y gwastraff cartref sy'n cael ei ailgylchu neu'i gompostio fesul person y flwyddyn (kg)<br><br>(e) Y ganran o wastraff adeiladu a dymchwel sy'n cael ei ailddefnyddio a'i ailgylchu<br><br>(f) Y ganran o gartrefi o fewn trothwyon amser 30, 60 a 90 munud o amser teithio i amwynder, yn cynnwys (i) siop gornel a/neu uwchfarchnad, (ii) swyddfa bost a (iii) meddyg a/neu ysbyty | Nifer yr adeiladau sy'n cyrraedd safonau CfSH a BREEAM penodol<br>Y ganran o dai newydd a godir ar dir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol, y flwyddyn<br>Y ganran o agregau a ddefnyddir o agregau eilaidd neu agregau wedi'u hailgylchu<br>Lleoliad swyddi o ran agosrwydd at drigolion<br>Y gyfran o siwrneiau ar droed neu ar feic | Cyngor Sir Caerfyrddin - Mwynau a Gwastraff<br><br>https://myrecyclingwales.org.uk/cy/local_authorities/sir-gaerfyrddin<br><br>https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/waste-reports/construction-and-demolition-waste-survey-2019/?lang=en | (a) Yn 2021/22 cyflawnodd Sir Gâr gyfradd ailgylchu gyfun o 62%. Cyfanswm y gwastraff y pen oedd 433kg y flwyddyn.<br><br>(b,c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(d) Gwastraff cartref gweddilliol fesul person (kg), 2007/08 i 2014/15 yn Sir Gaerfyrddin: 370, 290, 246, 224, 189, 159, 151 & 156. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos cyfanswm gwastraff gweddilliol fesul person o 165kg (2021/22).<br><br>(e) Yn 2012, y gyfradd ar gyfer Rhanbarth y De-orllewin oedd 67%. Dangosodd arolwg mwy diweddar rhwng Ebrill 2021 a Medi 2021 fod 73% bellach yn cael ei ailgylchu (Cymru gyfan).<br><br>(f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. |
| 7 - Pridd | 7-1 Osgoi halogi'r pridd a lleihau'r achosion o hynny, a hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu tir halogedig<br>7-2 Osgoi colli priddoedd i | (a) Arwynebedd o dir Dosbarthiad Tir Amaethyddol Gradd 1, 2 a 3 yn Sir Gaerfyrddin<br><br>(b) Arwynebedd o dir Dosbarthiad Tir Amaethyddol Gradd 4 a 5 yn Sir Gaerfyrddin | Arwynebedd o bridd a gollir i arwynebau anhydraidd<br>Arwynebedd o dir halogedig a gaiff ei adfer<br>Arwynebedd o ddatblygu newydd | https://datamap.gov.wales/layers/inspire-wg:wg_predictive_alc2 | (a,b) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. Diweddarwyd mapio ALC rhagfynegol yn 2019, mae Sir Gaerfyrddin (ac eithrio PCBB) yn cynnwys y canlynol:<br><br>**Gradd ALC** — **Arwynebedd (ha)**<br>**Anamaethyddol** — 35093.156<br>**1** — 9.165 |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>arwynebau anhydraidd a lleihau’r erydu ar bridd i’r eithaf<br>7-3 Lleihau allyriadau SO7 ac NOX a llygredd nitradau o amaethyddiaeth.</td>
<td>(c) Nifer a maint y safleoedd RIGS yn Sir Gaerfyrddin<br><br>(d) Mynd uwchlaw’r llwythi critigol o ran nitrogen ac asid</td>
<td>arfaethedig ar safleoedd tir glas<br>Nifer y datblygiadau a gymeradwywyd o fewn safleoedd RIGS neu’n agos atynt</td>
<td></td>
<td><table>
<tr><td>2</td><td>520.476</td></tr>
<tr><td>4</td><td>59270.802</td></tr>
<tr><td>5</td><td>21170.404</td></tr>
<tr><td>3a</td><td>17169.167</td></tr>
<tr><td>3b</td><td>75638.112</td></tr>
<tr><td>Trefol</td><td>5549.273</td></tr>
</table>
<br>(c) Caiff RIGs eu hystyried o fewn darpariaethau EQ3 yn y CDLl mabwysiedig. Nid oes unrhyw newidiadau wedi digwydd.<br><br>(d) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o’r Cynllun.</td>
</tr>
<tr>
<td>8 – Treftadaeth Ddiwylliannol</td>
<td>8-1 Diogelu asedau hanesyddol a diwylliannol a nodweddion unigryw lleol rhag effeithiau negyddol datblygu/adfywio a chefnogi gwelliannau iddynt<br>8-2 Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r cymeriad lleol a nodweddion unigryw</td>
<td>(a) Nifer yr henebion/safleoedd archaeolegol y mae cynigion y cynllun yn cael effaith niweidiol arnynt<br><br>(b) Gwelliant/dirywiad yng nghyflwr henebion ac adeiladau hanesyddol sy’n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin<br><br>(c) Y ganran o dir sydd wedi’i ddynodi fel tir â gwerth amwynder ar sail y dirwedd neu dirwedd hanesyddol</td>
<td>Nifer y safleoedd dynodedig ar y gofrestr ‘adeiladau mewn perygl’ y mae perygl i lygredd aer wneud niwed iddynt<br>Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth y mae cynigion y cynllun yn cael effaith niweidiol arnynt<br>Nifer yr adeiladau rhestredig y mae cynigion y cynllun yn cael effaith niweidiol arnynt<br>Nifer y parciau a’r gerddi hanesyddol y mae cynigion y cynllun yn cael effaith niweidiol arnynt</td>
<td></td>
<td>(a,b,c) Dylid cyfeirio at fframwaith monitro’r Cynllun mewn perthynas â’r amgylchedd hanesyddol / y dirwedd a’r amgylchedd naturiol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o’r Cynllun.</td>
</tr>
<tr>
<td>9 - Tirwedd</td>
<td>9-1 Diogelu'r dirwedd/trefwedd rhag effeithiau negyddol newid defnydd tir a'u gwella<br>9-2 Rhoi ystyriaeth i leoliadau sensitif</td>
<td>(a) Yr hectarau o dir sy’n cael eu datblygu bob blwyddyn<br><br>(b) Maint ac ansawdd mannau agored cyhoeddus<br><br>(c) Nifer y cynlluniau rheoli parciau a mannau gwyredd a gynhyrchir</td>
<td>Nifer y datblygiadau a gymeradwywyd heb amodau tirwedd/ trefwedd<br>Nifer y datblygiadau a godwyd yn croes i gyngor y Cyngor Cefn Gwlad</td>
<td></td>
<td>(a,c,d,f) Dylid cyfeirio at fframwaith monitro'r Cynllun. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o’r Cynllun.<br><br>(b,e) O ran maint ac ansawdd y mannau agored, dylid cyfeirio at fframwaith monitro’r CDLl a Safon Sir Gaerfyrddin sef 2.4ha fesul 1,000 o boblogaeth. Dylid nodi hefyd y bwriad i adolygu asesiad mannau gwyrdd yr Awdurdod.</td>
</tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | wrth leoli datblygiadau a hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel<br>9-3 Annog defnydd priodol o dir diffaith yn y dyfodol | (d) Nifer y safleoedd diffaith a gaiff eu hadfywio<br><br>(e) Faint o arwynebedd yn Sir Gaerfyrddin a ddynodir yn dir mynediad agored<br><br>(f) Faint o arwynebedd o dir diffaith sy'n cael ei droi'n fan agored | Nifer y cynlluniau datblygu y darperir dyluniau trefwedd manwl i gyd-fynd â nhw | | |
| 10 Poblogaeth | 10-1 Sicrhau stoc addas, fforddiadwy o dai, gyda mynediad i gyfleusterau addysg a chyflogaeth<br>10-2 Hyrwyddo cadw pobl iau<br>10-3 Annog twf yr iaith a'r diwylliant Cymraeg<br>10-4 Hyrwyddo cynnwys grwpiau difreintiedig a grwpiau lleiafrifol mewn cymdeithas | (a) Canran y bobl ifanc (i) sy'n aros neu (ii) sy'n dychwelyd i Sir Gaerfyrddin i fyw a gweithio<br><br>(b) Nifer y cwynion ynglŷn â mynediad gwael at wasanaethau a chyfleusterau<br><br>(c) Nifer y cwynion gan bobl anabl am hygyrchedd ffyrdd (e.e. llwybrau troed)<br><br>(d) Canran y bobl yn Sir Gaerfyrddin sy'n siarad Cymraeg (i) pawb sy'n 3 oed neu'n hŷn, a (ii) plant 3 i 15 oed<br><br>(e) Y boblogaeth a'r boblogaeth oedran gweithio (16 i 64)<br><br>(f) Proffil oedran y boblogaeth<br><br>(g) Amrywiaeth ethnig | Nifer y cwynion hygyrchedd yn ymwneud â datblygiadau newydd | Cyngor Sir Gaerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant.<br><br>https://www.ons.gov.uk/visualisations/censuspopulationchange/W06000010/<br><br>https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/EmploymentRate-by-WelshLocalArea-Year-Gender | (a,b,c) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(d) Mae data'r Cyfrifiad ar gyfer 2021 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn gartref i 72,838 o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 39.9% o gyfanswm poblogaeth y Sir. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng 5,210 ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, sy'n cyfateb i ostyngiad pwynt canran o 4.0. Dyma'r gostyngiad mwyaf fel pwynt canran o blith holl awdurdodau lleol Cymru.<br><br>I Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, roedd 72.0% o ddynion a 67.2% o fenywod yn gyflogedig.<br><br>(f) Bu cynnydd o 18.9% yn y bobl 65 oed a throsodd, gostyngiad o 2.5% yn y bobl rhwng 15 a 64 oed, a gostyngiad o 0.8% yn y plant o dan 15 oed.<br><br>(g) Y boblogaeth yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 oedd 184,000. Amcangyfrifir bod 2.1% yn bobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. |
| 11 Iechyd a Llesiant | 11-1 Creu cyfleoedd i bobl fyw bywydau egnïol, iach drwy weithgareddau cynllunio<br>11-2 Darparu mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau iechyd a hamdden | (a) Y gyfran o gartrefi nad ydynt yn byw o fewn 300m i'r man gwyrdd naturiol agosaf<br><br>(b) Y gyfran o gartrefi sydd o fewn y pellter cerdded/beicio y cytunwyd arno i wasanaethau iechyd allweddol (c) Disgwyliad oes adeg eu geni i (i) dynion a (ii) menywod<br><br>(d) Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach i (i) dynion a (ii) menywod | Nifer y teithiau y person yn ôl modd trafnidiaeth (i) cerdded a beicio, (ii) cerbydau modur preifat, a (iii) trafnidiaeth gyhoeddus a thacsis | Cyngor Sir Gaerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant | (a) Mae 10.56% o'r holl gartrefi preswyl o fewn taith gerdded pum munud (300m) i ANGS (sy'n cyfateb i 9632 o anheddau) Mae newidiadau mewn methodoleg asesu mannau agored yn atal y cymharu ag asesiadau hygyrchedd Mannau Gwyrdd blaenorol.<br><br>(b) Mae 15% o'r trigolion yn gweithio o'u cartref. Mae 27% o'r trigolion yn teithio llai na 5km i'r gwaith, 30% yn teithio 10-30km a 4% yn teithio dros 60km. Mae bron i 75% o'r trigolion yn teithio i'r gwaith yn y car a dim ond 8% ar droed, ac 1% ar feic. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 11-3 Annog cerdded neu feicio fel dull amgen o drafnidiaeth<br>11-4 Hyrwyddo mynediad at dreftadaeth naturiol Cymru | (e) Y cyfraddau marwolaeth o (a) clefyd cylchredol a (b) canser (i) i bobl o dan 75 oed<br><br>(f) Pa mor gyffredin yw gordewdra mewn plant 2-10 oed<br><br>(g) Sut mae plant yn mynd i'r ysgol (i) cerdded a beicio, (ii) cerbydau modur preifat a (iii) trafnidiaeth gyhoeddus a thacsis | | | (c,d,e) Mae'r Disgwyliad Oes yn ffafriol ar 78.5 i ddynion ac 82.6 i fenywod. Mae gan fymryn mwy na chyfartaledd Cymru o oedolion broblemau iechyd meddwl (28% o'i gymharu â 26%). Mae'r boblogaeth yn llai tebygol o ysmygu na'r cyfartaledd cenedlaethol ond ceir nifer fwy na'r cyfartaledd o glefydau sy'n gysylltiedig ag ysmygu. Mae'r boblogaeth yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew na'r cyfartaledd i Gymry ac maent hefyd yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymarfer corff a bwyta'n iach. Mae'r boblogaeth yn llai tebygol o oryfed mewn pyliau na chyfartaledd Cymru. Mae cyfraddau canser y Sir yn debyg i gyfartaledd Cymru.<br><br>(f) Y Sir yw'r drydedd waethaf yng Nghymru o ran y lefelau gordewdra ymysg plant, ar 30.7%, bron i 5 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru o 26.2%.<br><br>(g) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. |
| 12 Addysg a Sgiliau | 12-1 Darparu cyfleusterau addysgol a hyfforddi hygyrch sy'n diwallu anghenion yr ardal i'r dyfodol<br>12-2 Cynyddu lefelau llythrennedd (yn y Gymraeg a'r Saesneg) a rhifedd<br>12-3 Hyrwyddo dysgu gydol oes | (a) Y ganran o bobl 19-21 oed sydd ag o leiaf cymhwyster NVQ lefel 2 neu gyfatebol<br><br>(b) Y ganran o oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg oedolion<br><br>(c) Lefel llythrennedd yn y boblogaeth oedolion<br><br>(d) Lefel rhifedd yn y boblogaeth oedolion<br><br>(e) Nifer yr oedolion sy'n cwblhau cyrsiau mewn canolfannau addysg oedolion yn Sir Gaerfyrddin | Y ganran o bobl 16-74 o fewn trothwyon amser 30, 60 a 90 munud o amser teithio i gyfleusterau addysg/addysg bellach drwy (i) drafnidiaeth gyhoeddus a (ii) y car<br>Y ganran o ysgolion sy'n fwy na llawn | Cyngor Sir Caerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant | (a) Mae Cyflawniad Addysgol yn gymharol uchel gyda 61.1% yn ennill 5 TGAU (o'i gymharu â 57.9% yn genedlaethol).<br><br>(b) Mae cyfran y bobl ifanc 18-24 oed sy'n NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn uwch na chyfartaledd Cymru (12.2% o'i gymharu â 10.7% yn genedlaethol).<br><br>(c,d,e) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. |
| 13 Yr Economi | 13-1 Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy<br>13-2 Darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da i bob carfan yn y boblogaeth | (a) Nifer y cwmnïau yn Sir Gaerfyrddin sydd â System Reoli Amgylcheddol o dan y Ddraig Werdd<br><br>(b) Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a GYG y pen | Nifer y busnesau gwag yng nghanol trefi ac mewn canolfannau lleol<br>Nifer y datblygiadau adwerthu newydd a'r datblygiadau masnachol eraill sydd wedi'u cymeradwyo | Cyngor Sir Caerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant | (a) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(b) Gweler ISA1 (c)<br><br>(c) Mae gan y Sir lefelau uchel o gyflogaeth; mae 69% o'r bobl o oedran gweithio yn gyflogedig. Cyfran fach iawn o'r trigolion sy'n hawlio budd-dal diweithdra neu'n ystyried eu hunain yn ddi-waith. Mae'r cyflog wythnosol yn £365 ar |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 13-3 Hyrwyddo busnesau cynaliadwy yng Nghymru | (c) Y ganran o bobl o oedran gweithio sydd mewn gwaith<br><br>(d) Y ganran o (i) plant a (ii) yr holl bobl o oedran gweithio sy'n byw mewn cartrefi heb waith<br><br>(e) Buddsoddi o'i gymharu â chynnyrch domestig gros (i) cyfanswm y buddsoddiad a (ii) buddsoddiad cymdeithasol<br><br>(f) Yr amrywiaeth o sectorau economaidd sy'n cael eu cynrychioli | | | gyfartaledd o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru o £539. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws y cymunedau. Mae bwlch mewn cyflogaeth i'r rhai sydd â phroblemau iechyd tymor hir ac nid yw'r canlyniadau iddyn nhw cystal â'r cyfartaledd.<br><br>(d) Gweler ISA1 (d)<br><br>(e,f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun. |
| 14 Gwead Cymdeithasol | 14-1 Gwella diogelwch i bobl ac eiddo<br>14-2 Hyrwyddo dylunio aneddiadau mewn ffordd sy'n gwella'r gwead cymdeithasol drwy gael gwared â rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol<br>14-3 Hyrwyddo darparu tai fforddiadwy<br>14-4 Gwella hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig i garfanau difreintiedig cymdeithas | (a) Y gymhareb prisiau tai cyfartalog i enillion cyfartalog<br><br>(b) Canran y sgôr yn y mynegai amddifadedd lluosog fesul LSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is) i'r parthau Mynediad a Chyflogaeth<br><br>(c) Canran yr anheddau heb fod yn ffit<br><br>(d) Tai islaw'r safon tai gweddus o ran (i) cartrefi yn y sector cymdeithasol a (ii) aelwydydd bregus yn y sector preifat<br><br>(e) Nifer y rhai heb le sefydlog i gysgu<br><br>(f) Troseddau a gofnodwyd o ran (i) dwyn cerbydau neu ddwyn o gerbydau, (ii) bwrgleriaeth o dai a (iii) troseddu treisgar<br><br>(g) Y mynegai amddifadedd lluosog | Y gyfran o dai fforddiadwy fel canran o'r cartrefi newydd a gyflenwyd<br>Mynediad at feddyg teulu neu weithiwr proffesiynol gofal sylfaenol<br>Mynediad i bobl anabl<br>Mynediad mewn ardaloedd gwledig | Cyngor Sir Caerfyrddin – yr Is-adran Polisi Corfforaethol, yn cynnwys 'Dalen Ffeithiau Sefyllfa' yn ymdrin ag Asesu Llesiant<br><br>https://wimd.gov.wales/geography/la/W06000010?lang=en#&min=0&max=10&domain=overall | (a,b,c,d,e,f) Nid oes gwybodaeth ar gael yn flynyddol. Caiff unrhyw oblygiadau eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.<br><br>(g) Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod 5 o'r 0-10% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig o fewn y parth cyffredinol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n cyfrif am 4.5% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o fewn yr Awdurdod Lleol a 0.3% o'r rhai yng Nghymru. |

# Atodiad 1 – Dadansoddiad Cysondeb Amcanion/Nodau Llesiant

## A1. Trosolwg

A1.1 Mae'r atodiad hwn yn cynnal adolygiad lefel uchel cychwynnol o Weledigaeth ac Amcanion Strategol Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (Mabwysiadwyd 2014) yn erbyn y nodau/amcanion Llesiant Cenedlaethol a Lleol sydd wedi deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

A1.2 Dylid nodi mai un elfen bwysig o ddangos bod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Gaerfyrddin yn gadarn yn weithdrefnol oedd ei synergedd â'r dyheadau sydd wedi'u datgan yn Strategaeth Gymunedol Sir Gaerfyrddin, a'r Strategaeth Gymunedol Integredig o ganlyniad.

A1.3 Cafodd Amcanion Strategol y CDLl eu grwpio o dan y 'golofn thematig' briodol yn y Strategaeth Gymunedol. O ganlyniad, credir bod y blociau adeiladu yn eu lle eisoes o ran rôl y CDLl mewn mynegi'n ofodol uchelgais a dyheadau'r Sir. Fodd bynnag, bydd dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Y Ddeddf) a'i mynegi ar lefel Sir yn darparu cyfleoedd i fireinio, lle bo angen.

A1.4 Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu'n fwy unedig. Bydd yn ein helpu "*i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol*".

A1.5 I sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn gweithredu saith nod llesiant fel yr amlinellir yn adran 4 yr atodiad hwn.

## A2. Gweledigaeth y CDLl

A2.1 Nod Gweledigaeth y CDLl mabwysiedig presennol yw mynegi'r math o le y rhagwelir y dylai Sir Gaerfyrddin fod erbyn 2021. Mae'n darparu persbectif gofodol sy'n rhoi pwrpas a chyfeiriad i'r Cynllun mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn gallu cael ei roi ar waith drwy gyfrwng y system cynllunio defnydd tir.

**SIR GAERFYRDDIN 2021**

Bydd Sir Gaerfyrddin yn sir lewyrchus a chynaliadwy llawn cyferbyniadau. Bydd ganddi gymunedau gwledig, trefol ac arfordirol â nodweddion unigryw a hefyd diwylliant unigryw, amgylchedd o safon dda ac economi bywiog ac amrywiol. Bydd y Sir yn cynnig ansawdd bywyd da mewn cymunedau diogel, hygyrch a chynhwysol. Bydd pawb yn gallu cael mynediad at gyflogaeth o ansawdd da, cymysgedd addas o dai a chyfleusterau cymunedol a hamdden – i gyd mewn amgylchedd glân a gwyrdd.

O SAFBWYNT GOFODOL BYDD Y CANLYNOL YN NODWEDDU'R SIR:

- Llanelli yn cyflawni ei photensial fel canolfan gwasanaethau fodern a bywiog gan ddatblygu ar ei lleoliad ar y glannau.
- Caerfyrddin yn parhau i ffynnu fel canolfan gwasanaethau a gweinyddol sy'n llewyrchus ac wedi'i lleoli'n strategol, gan gadw ei chymeriad nodedig fel tref sirol.
- Rhydaman/Cross Hands yn parhau i ddatblygu fel ardal dwf unigryw ac amrywiol yn y Cymoedd Gorllewinol.
- Cymunedau cynaliadwy, cymdeithasol-gynhwysol, ac economïau lleol effeithlon wedi'u canolbwyntio ar drefi marchnad y Sir a'i phentrefi mwy.
- Cymunedau gwledig bywiog fel amgylcheddau byw a gwaith.
- Cefn gwlad sy'n cael ei werthfawrogi a'i fwynhau gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

## A3. Amcanion Strategol y CDLl

A3.1 Mae'r 14 Amcan Strategol (AS) yn y CDLl yn ymhelaethu ar Weledigaeth y CDLl ac yn canolbwyntio ar allu i gyflawni.Maent wedi'u grwpio o dan y pileri Strategaeth Gymunedol perthnasol, ac maent fel a ganlyn:

| LLE GWELL: Amgylchedd – gwella'r byd o'n cwmpas, heddiw ac ar gyfer yfory. |
|---|
| AS1: Gwarchod a gwella cymeriad amrywiol, arwahanrwydd, diogelwch a bywiogrwydd cymunedau'r Sir drwy sicrhau safonau dylunio cydymdeimladol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel. |
| AS2: Sicrhau bod egwyddorion cynaliadwyedd gofodol yn cael eu cynnal drwy wneud y canlynol:<br>(a) galluogi datblygu mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen am deithio a chyfrannu tuag at gymunedau ac economïau cynaliadwy a pharchu cyfyngiadau amgylcheddol, a (b) lle bo |

| |
|---|
| hynny'n bosibl, annog datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac sydd wedi cael ei adfer yn addas. |
| AS3: Gwneud darpariaeth ar gyfer cymysgedd briodol o dai o ansawdd; bydd y mynediad i'r rhain yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad economaidd-gymdeithasol cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal. |
| AS4: Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol yn cael ei ddiogelu a'i wella a bod cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu gwarchod. |
| AS5: Gwneud cyfraniad sylweddol at fynd i'r afael ag achos ac ymaddasu i effaith y newid yn yr hinsawdd, trwy hyrwyddo defnyddio adnoddau'n effeithlon a'u diogelu. |
| AGOR DRYSAU: Dysgu gydol oes – helpu pawb i gyflawni eu potensial, o blentyndod i henoed. |
| AS6: Cynorthwyo i ledaenu cyfleoedd am addysg a hyfforddiant sgiliau i bawb. |
| AS7: Cynorthwyo i warchod a gwella'r iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw, asedau a gwead cymdeithasol y Sir. |
| TEIMLO'N IAWN: Iechyd a lles – mynd i'r afael ag achosion salwch drwy edrych ar fywyd yn ei gyfanrwydd. |
| AS8: Cynorthwyo i ehangu a hybu cyfleoedd i gael mynediad i gyfleusterau cymunedol a chyfleusterau hamdden yn ogystal â chefn gwlad. |
| AS9: Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal trwy hybu mynediad i gymysgedd da ac amrywiol o wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith. |
| BUDDSODDI AC ARLOESI: Adfywio – creu adnoddau, creu cyfleoedd a chynnig cefnogaeth. |
| AS10: Cyfrannu at gyflenwi system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy sy'n hygyrch i bawb |
| AS11: Annog buddsoddi ac arloesi (gwledig a threfol) drwy wneud y canlynol:<br>(a) sicrhau darpariaeth ddigonol o dir i fodloni'r angen sydd wedi'i nodi; a, (b) sicrhau darpariaeth ar gyfer anghenion datblygu busnes a chyflogaeth y cyflogwyr cynhenid / newydd, yn enwedig o ran gofynion seilwaith caled a meddal (gan gynnwys telegyfathrebu/TGCh); a, (c) sicrhau darpariaeth ar gyfer y gofynion seilwaith sy'n gysylltiedig â darparu cartrefi newydd, yn enwedig o ran gofynion seilwaith caled a meddal (gan gynnwys dŵr budr ac arwyneb); a, (d) cadw at egwyddorion datblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol o ran lleoliad datblygiadau newydd. |
| AS12: Hybu a datblygu mentrau cynaliadwy ac o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn yn gysylltiedig â thwristiaeth. |
| TEIMLO'N DDIOGEL : Cymunedau diogelach – cynnig sicrwydd, mynd i'r afael â throseddu ac ofni troseddau, gan ein helpu i ofalu am ein gilydd. |
| AS13: Cynorthwyo gyda datblygu a rheoli mannau diogel a bywiog ar draws y Sir. |
| AS14: Cynorthwyo gyda darparu a rheoli cymunedau cymysg a chynaliadwy drwy wneud y canlynol:<br>(a) hybu lleoedd diogel, bywiog a rhyngweithiol yn gymdeithasol; a, (b) hybu'r defnydd o wasanaethau a chynnyrch lleol pan fo hynny'n bosibl. |

## A4. Y Nodau Llesiant Cenedlaethol

A4.1 Ceir 7 nod llesiant cenedlaethol (Ffigur 10) sy'n dangos y math o Gymru rydym eisiau ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn darparu gweledigaeth a rennir i gyrff cyhoeddus

weithio tuag ati. Maent yn gyfres o nodau ac mae'r Ddeddf yn nodi'n glir bod rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau.

**Ffigur 10: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




A4.2 Mae'r Ddeddf yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n datgan sut dylai sefydliadau fynd ati i fodloni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae 5 Ffordd o Weithio (Gweler Ffigur 12) i arwain y gwaith o weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Ffigur 11: Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.**

| |
|---|
| Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at gorff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod rhaid i'r corff ymddwyn mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. |

**Ffigur 12: Y 5 ffordd o weithio**

**Hirdymor**

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

**Atal**

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

**Integreiddio**

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

**Cydweithio**

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

**Cynnwys**

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

A4.3 Mae'r saith nod llesiant wedi'u datgan isod, ynghyd â disgrifiad (fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru).

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

A4.4 Mae dadansoddiad o'r Nodau Cenedlaethol (NC) yn erbyn Amcanion Strategol (AS) y CDLl wedi'i nodi isod.

| Sylwadau AS yr CDLl yn erbyn y 7 Nod Cenedlaethol (NC) | |
|---|---|
| AS1 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 5** a'i bwyslais ar gymunedau atyniadol, hyfyw a diogel. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar sicrhau safonau dylunio sensitif a chynaliadwy o ansawdd uchel, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS2 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 1** a'i bwyslais ar gydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac, felly, defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd). Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar gynaliadwyedd gofodol, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS3 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 5** a'i bwyslais ar gymunedau hyfyw. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ddarparu cyfuniad priodol o dai o ansawdd da, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS4 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 2** a'i bwyslais ar amgylchedd naturiol bioamrywiol, yn ogystal â **Nod Cenedlaethol 6** a'i bwyslais ar ddiwylliant a threftadaeth. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS5 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 7** a'i bwyslais ar ystyried a all penderfyniadau gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang a'r gallu i ymaddasu i newidiadau (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd). Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar fynd i'r afael ag achos newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu i'w effaith, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS6 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 1** a'i bwyslais ar ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ehangu a hyrwyddo addysg a hyfforddiant sgiliau, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS7 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 6** a'i bwyslais ar gymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar y Gymraeg a chyfansoddiad cymdeithasol y Sir, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS8 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 6** a'i bwyslais ar annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Hefyd, mae **Nod Cenedlaethol 3** yn rhoi pwyslais ar gymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ehangu a hyrwyddo mynediad i gyfleusterau hamdden a chefn gwlad, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS9 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 4** a'i bwyslais ar gymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i |

| | |
|---|---|
| | bwyslais penodol ar gyfle cyfartal, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS10: | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 5** a'i bwyslais ar gymunedau sydd â chysylltiadau da. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar system drafnidiaeth hygyrch, integredig a chynaliadwy, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS11 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 1** a'i bwyslais ar gymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel ac ar economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar annog buddsoddi ac arloesi (mewn ardaloedd gwledig a threfol), yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS12 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 1** a'i bwyslais ar economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar hyrwyddo economi ymwelwyr gynaliadwy o safon uchel, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS13 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 5** a'i bwyslais ar gymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ddiogelwch a bywiogrwydd, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |
| AS14 | Cyfeirir at **Nod Cenedlaethol 5** a'i bwyslais ar gymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. Ystyrir felly fod yr Amcan Strategol hwn, gyda'i bwyslais penodol ar ddiogelwch a bywiogrwydd, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gydnaws â'r nodau cenedlaethol. |

## A5. Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin

A5.1 Mae'r strategaeth gorfforaethol sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer yr awdurdod lleol dros y pum mlynedd nesaf wedi'i diweddaru ers yr AMB blaenorol. Mae'r amcanion llesiant diweddaraf yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. **Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda)**
2. **Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)**
3. **Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)**
4. **Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor)**

A5.2 Mae aliniad cryf yn parhau o hyd rhwng y CDLl ac Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae'r CDLl hefyd yn adlewyrchu'r nodau hynny sy'n ceisio hybu cymunedau hygyrch sydd wedi'u cysylltu'n dda. Nodir bod y CDLl yn ceisio cyfeirio mwyafrif y twf i'r aneddiadau hynny sydd â gwasanaethau allweddol ac sydd wedi'u lleoli ar lwybrau trafnidiaeth allweddol. Ceir cyswllt clir hefyd rhwng nodau amgylcheddol a'r CDLl. Mae

hyn yn dangos ymwybyddiaeth y CDLl o bwysigrwydd diogelu asedau allweddol y Sir fel rhan o'i rôl reoleiddio.
A5.3 Wrth nodi bod y CDLl, yn ei hanfod, yn Gynllun defnydd tir, efallai bod lle am fwy o gydnabyddiaeth o'r nodau hynny sy'n deillio o faterion demograffig (e.e. oedrannau cynnar, poblogaeth hŷn a thlodi). Gallai dod i ddeall a yw materion o'r fath yn benodol amlwg yn ofodol sicrhau ymyriadau polisi cynllunio fel a lle mae hynny'n briodol.

A5.4 Mae cydweithredu wedi'i sefydlu rhwng Tîm Polisi Cynllunio'r Cyngor a'r Tîm Cynllunio Cymunedol/Polisi Corfforaethol. Credir y bydd hyn yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cyson ac ystyrlon wrth symud ymlaen.

A5.5 Bydd y CDLl yn parhau i ddarparu mecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer yr uchelgeisiau corfforaethol a chymunedol sydd wedi'u datgan ym mhob nod llesiant. Mae'n darparu offeryn gofodol i gyflawni gweledigaethau'r cabinet ar gyfer Sir Gaerfyrddin drwy ddarparu cyfrwng nodedig yn lleol i ddylanwadu ar y defnydd o dir yn y Sir yn y dyfodol. O'r herwydd, mae'r CDLl yn ystyried nodweddion a rhinweddau unigryw y Sir ac mae'n gosod datblygu cynaliadwy fel egwyddor ganolog.
A5.6 Cyfeirir hefyd at y gofyniad am baratoi Gwerthusiad Cynaliadwyedd (yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, y paratowyd y ddau ochr yn ochr â'r CDLl. Mae'r rhain gyda'i gilydd yn helpu i sicrhau bod y CDLl yn mynd i'r afael â phryderon cynaliadwyedd ac yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran pwysau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

# Atodiad 2: Taflwybr Tai

I'w fewnosod